

Arweiniad Creu Lleoedd ar gyfer Datblygiad Preswyl

Canllawiau Cynllunio Atodl - Hydref 2021

Placemaking Guidance for Residential Development

Supplementary Planning Guidance - October 2021



Llefydd i Byw
Places to Live



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Clawr blaen: Mae datblygiad menter ar y cyd Gwynfaen gan Gymdeithasau Tai Coastal a Pobl yn enghraifft bosib o Greu Lleoedd dan arweiniad Isadeiledd Gwyrdd. Dyluniad trefol, uwchgynllun, tirlun ac IG gan EDP, pensaernïaeth gan Stride Treglown.

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad

2.0 Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol a Lleol

3.0 Y Broses Creu Lleoedd a Dylunio

4.0 Egwyddorion Trosgynnol ar gyfer yr holl Lleoedd i Fyw

5.0 Modiwlau Arweiniad

A: Cymdogaethau

B: Dwysedd a defnyddiau cymysg

C: Seilwaith glas/gwyrdd

Ch: Creu cysylltiadau

D: Mannau cyhoeddus

Dd: Strydoedd fel lleoedd

E: Lleoedd cynhwysol

F: Treflun

Ff: Ansawdd a chymeriad

G: Diogelwch cymunedol

Ng: Preifatrwydd ac amwynder

H: Darparu manau parcio



Fferm Pantlasau: Creu lleoedd dan arweiniad Isadeiledd Gwyrdd o safon. Menter ar y cyd rhwng Jehu a Chymdeithas Tai Coastal. Dyluniwyd gan Mitchel Ely Gould Architects a Roberts Limbrick Architects

1.0 Cyflwyniad

Nodau a Diben

- 1.1. Nod y ddogfen hon yw disgrifio canllawiau clir a chyson ar faterion sy'n gysylltiedig â **Chreu Lleoedd a Dylunio ar gyfer pob math o ddatblygiad preswyl a defnydd cymysg er mwyn creu lleoedd i fyw.**
- 1.2. Mae'r ddogfen (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'Y Canllaw') yn darparu Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) i gefnogi polisiâu cynllunio yng Nghynllun Datblygu Lleol Abertawe (CDLI) a fabwysiadwyd. Bydd y Canllaw yn **ddeunydd pwysig wrth benderfynu ar gynigion cynllunio a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol**, gan gynnwys yn y camau cyn-ymgeisio a chais cynllunio
- 1.3. Diben trosgynnol y Canllaw yw hwyluso dyheadau creu lleoedd y Cyngor a chyflawni ei amcan allweddol o godi safonau dylunio'n sylweddol ar draws y Sir. Mae'r Canllaw yn darparu fframwaith i sicrhau bod penderfyniadau a wneir ar unrhyw gynig datblygu sy'n cynnwys cartrefi newydd wedi'u cyfeirio gan egwyddorion creu lleoedd a dylunio perthnasol, a bod datblygwyr yn gwbl ymwybodol o'r dull sydd ei angen i sicrhau bod eu cynigion yn gweddu i ofynion polisi cenedlaethol a lleol.



Ffigur 1.1 Datblygiad preswyl newydd gyda mannau agored, isadeiledd gwyrdd ac ardal chwarae fel canolbwynt sy'n helpu i greu ymdeimlad o le. (Portishead, Bryste)

- 1.4. Mae'r Canllaw hwn yn amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl o bob person sy'n ymwneud â'r broses o gynllunio, adeilad a chynnal a chadw datblygiadau preswyl a defnydd cymysg newydd sy'n creu lleoedd i fyw. Mae hyn yn cynnwys penseiri, dylunwyr, perchnogion tir, datblygwyr, adeiladwyr tai, cymdeithasau tai a'r nifer mawr o asiantaethau cyhoeddus a phreifat y mae eu gweithredoedd a'u gweithrediadau'n dylanwadu ar y ffordd y mae lleoedd yn edrych ac yn gweithio.

- 1.5. Gellir cymhwyso'r Canllawiau mewn ardaloedd trefol, maestrefol a gwledig. Prif ffocws y canllawiau yw cynlluniau o ddeg neu fwy o anheddau neu gynigion ar safleoedd o 0.5 ha neu fwy, er hynny mae'n berthnasol fel ystyriaeth faterol o ran yr holl gynigion ar gyfer datblygiadau preswyl newydd. Nid yw'r canllawiau'n set o reolau ond yn hytrach yn set o egwyddorion y gellir ymdrin â nhw mewn llawer o ffyrdd gwahanol.
- 1.6. Yn ogystal â gosod allan y materion creu lleoedd, treftadaeth a dylunio allweddol y mae'n rhaid i gynigion gydymffurfio â nhw, mae'r Canllaw hefyd yn cadarnhau'r wybodaeth sydd ei hangen wrth gyflwyno cais cynllunio. Gan hynny, bydd dilyn y Canllaw yn helpu osgoi oedi diangen wrth geisio caniatâd cynllunio, ac yn darparu mwy o wrthrychedd, sicrwydd a chysondeb wrth wneud penderfyniadau.

Beth yw Creu Lleoedd a Pham mae mor Bwysig?

- 1.7 Mae egwyddorion Creu Lleoedd **wrth wraidd agenda cynllunio strategol y Cyngor, ac yn yr un modd, maent yn nodwedd hanfodol o'i ymagwedd at reoli datblygu**. Ar ei ffurf symlach, mae creu lleoedd yn ymagwedd 'sy'n canolbwyntio ar bobl' at gynllunio, dylunio a rheoli pobl a lleoedd. Mae'n ceisio creu adeiladau ac ardaloedd y byddai pobl yn dymuno byw, gweithio a threulio amser hamdden ynddynt. Mae amrywiaeth eang o lleoedd sefydledig yn Abertawe sydd wedi cyflawni'r nod hwn yn union. Mae'r rhain yn amrywio o ran cymeriad o ardaloedd trefol bywiog, dwys Uplands a'r Mwmbwls, i'r llu o bentrefi hardd Gŵyr. Nid yw'r dull o greu lleoedd yn un sy'n ceisio ailddyfeisio'r olwyn, ond yn hytrach ei nod yw ein harwain i ddeall beth sy'n gwneud i lleoedd presennol 'weithio orau' i'r bobl sy'n byw ac yn treulio amser yno, ac i ddefnyddio'r rhinweddau hyn fel cynseiliau ar gyfer Byw yn yr 21^{ain} Ganrif.



- 1.8. Gall yr holl ddatblygiadau newydd gyfrannu ar ryw ffurf at greu lleoedd a dylanwadu ar sut y caiff y lle hwnnw ei brofi a'i fwynhau, a fydd yn sefyll fel etifeddiaeth i genedlaethau o ddeiliaid ac ymwelwyr yn y dyfodol. Mae'r Canllaw hwn a'r polisiau CDLI y mae'n eu hadleisio, yn hyrwyddo cymhwyso dull *Creu Lleoedd* a Rheoli Lleoedd ym mhob ardal ac ar amrywiaeth o raddfeydd, er mwyn creu etifeddiaeth gynaliadwy go iawn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICDC). Yr hyn sy'n hollbwysig yw bod creu lleoedd llwyddiannus, neu gyflawni newidiadau cadarnhaol mewn lleoedd sydd eisoes yn bodoli, yn gofyn am ddull cyfannol sy'n dod â disgyblaethau gwahanol at ei gilydd.

- 1.9. Rhan annatod o *Creu Lleoedd* a chynllunio cyfannol yw creu a rheoli lleoedd sy'n ceisio sicrhau cynhwysiad cymdeithasol, cyfle cyfartal a mynediad i bawb. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar ddatblygu gan gynnwys yr amgylchedd ffisegol, defnyddiau tir a thrafnidiaeth. Dylai lleoedd newydd fod yn hygyrch ar yr holl foddau cludiant yn enwedig teithio llesol a chludiant cyhoeddus, a dylai'r strydoedd yn y lleoedd hyn gael eu harwain gan le ac ni ddylent gael eu gorbeiriannu.
- 1.10 Trwy'r amser, mynnir sicrhau y bydd cynigion yn dangos credydau dylunio cynaliadwy o safon uchel sy'n ymateb i'r cyd-destun lleol er mwyn cyflawni llesiant, dymunoldeb a naws unigryw. Yn y cyd-destun yma, mae "dylunio da" yn fwy nag ymddangosiad ffisegol adeiladau, ac ni fydd canolbwyntio ar y manylion yn unig yn creu lle llwyddiannus. Bydd y cymysgedd o ddefnyddiau ochr yn ochr â datblygiad preswyl, a'r ffordd y mae adeiladau'n cysylltu â'i gilydd, y strydoedd o gwmpas a mannau gwyrdd, hefyd yn elfennau allweddol o greu lleoedd diogel a deniadol.
- 1.11 Mae'r Cyngor yn mynnu bod datblygwyr yn glynu wrth y Canllaw er mwyn sicrhau cyflwyno Gweledigaeth CDLI Abertawe o greu cymunedau cynaliadwy ac unigryw, sydd wedi'u cefnogi gan seilwaith adeiledig a naturiol o ansawdd da, cyfleusterau cymunedol a chyfleoedd hamdden. Bydd hyn yn galluogi ymateb i anghyfiawnder o ran dosbarthiad, a mynediad i, ystod o gyfleusterau a seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol a chymunedol o ansawdd da. Mae ymdrin â'r mater hwn yn hanfodol i greu cymunedau bywiog ac i ymdrin ag amrywiadau mewn amddifadedd cymdeithasol ar draws y Sir.



**Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales**

- 1.12 Mae'r Canllaw yn ceisio diogelu treftadaeth hanesyddol, naturiol a diwylliannol unigryw y Sir a'r rôl y mae hyn yn ei chwarae wrth ddiffinio'r ymdeimlad o le ar draws cymunedau Abertawe. Mae hefyd yn disgrifio'r egwyddorion a fydd yn cyflwyno'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd sydd, yn ogystal â bod yn bwysig o ran ei werth amwynder, yn hybu bioamrywiaeth, darparu mwy o gyfleoedd Teithio Llesol ac yn hybu iechyd a llesiant gwell. Mae sicrhau cysylltedd ar gyfer pob ffurf ar symud, ond yn enwedig trwy Deithio Llesol a moddau cynaliadwy, yn allweddol i greu lleoedd llwyddiannus. Mae'r Canllaw yn esbonio sut mae'n rhaid trin dyluniad a gweithrediad strydoedd fel agwedd annatod ar Creu Lleoedd ac mae'n rhaid peidio â'i ystyried ar ei ben ei hun.
- 1.13 Mae'r Cyngor yn ymroddedig i integreiddio egwyddorion creu lleoedd a dylunio da i gynlluniau datblygu ar bob lefel. Nid yn unig y gall dylunio gwael darfu ar gymeriad ac ymddangosiad ardal, gall hefyd effeithio'n andwyol ar lesiant ac ansawdd bywyd pobl. Mae ystyriaethau effaith weledol, colli golau, edrych drosodd, preifatrwydd, aflonyddwch, effaith trafndiaeth ac effeithiau amgylcheddol i gyd yn allweddol yn hyn o beth. At hynny, bydd dyluniadau gwael yn aml yn methu â darparu'r buddion amlswyddogaethol y mae'n ofynnol i gynlluniau eu cyflwyno er mwyn gweddu i ofynion polisi. Am y rhesymau hynny, bydd gwneud penderfyniadau'n mynnu bod yn rhaid i gynigion roi ystyriaeth lawn i'r Canllaw hwn a'r fframwaith polisi trosgynnol y mae'n ei adleisio.



Ffig 1.3 Mae Marmalade Lane yng Nghaergrawnt yn enghraifft o sut y gall maestrefi newydd fod yn fwy dwys, o ansawdd uchel a gwyrdd, gan ddysgu o'r gorau o'r gorffennol fel rhan o'r ymagwedd creu lleoedd. Nid oes rheswm pam na ellir cymhwyso'r ymagwedd hon i leoedd newydd yng Nghymru ac mae nifer o gynlluniau yn Abertawe yn ei chofleidio. Ffynhonnell Delwedd Uchaf: Mole Architects, Delwedd Isaf Y Datblygwr

2.0 Y Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol a Lleol


Mae'r adran hon yn disgrifio'r gofynion ac ysgogyddion polisi perthnasol ar gyfer newid ar lefel genedlaethol a lleol a gymhwysir i greu lleoedd newydd.

Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol

- 2.1 Mae gofyniad anorchfygol sydd wedi'i ymwreiddio i ddogfennau deddfwriaeth, polisiau, arweiniad a strategaeth y llywodraeth i greu lleoedd fod wrth wraidd gwneud penderfyniadau cynllunio. Mae'r paragraffau a ganlyn yn darparu trosolwg o'r cyd-destun cenedlaethol hwn, er hynny ni fwriedir i hon fod yn rhestr hollgynhwysfawr neu ddiffiniol, a dylid ymgynghori'n uniongyrchol â'r holl ddogfennau hyn ynghylch eu perthnasedd gan ddibynnu ar natur cynllun preswyl arfaethedig.
- 2.2 Dros flynyddoedd diweddar, mae nifer o Ddeddfau allweddol Senedd y DU wedi cael eu sefydlu sydd â pherthnasedd uniongyrchol i'r gofynion creu lleoedd, dylunio a threftadaeth ar gyfer datblygu preswyl. Ymysg y rhain y mae: 'Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (Deddf FWM) (2010,); Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r canllawiau cysylltiedig; a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- 2.3 Mae'r Ddeddf hon, a gyflwynwyd yn 2015, yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n ystyried effaith hir dymor eu penderfyniadau, er mwyn cydweithio'n well â phobl, cymunedau ac â'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tloedi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Gweithio ar y cyd yw'r pwyslais, gyda gorwel tymor hwy cydlynus sy'n canolbwyntio ar saith nod sydd wedi'u disgrifio yn Ffigur 2.1:



Ffigur 2.1 – Saith Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

2.4 Ystyrir mai creu lleoedd yw'r broses gynllunio sylfaenol i gyflwyno saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae wedi'i ategu gan y pum dull o weithio:

- Atal megis rheoli dŵr wyneb mewn datblygiadau newydd
- Integreiddio ar draws gwasanaethau megis buddion iechyd sy'n deillio o leoedd a ddylunnir yn dda
- Cyfranogiad megis ennyn diddordeb cymunedau a budd-ddeiliaid
- Cydweithio megis gweithio ar draws disgyblaethau i siapio lleoedd
- Tymor Hir megis canolbwyntio ar etifeddiaeth lleoedd a ddylunnir yn dda


2.5 Mae'r cyd-destun hwn yn darparu fframwaith lefel uchel cryf ar gyfer lleoedd newydd. Mae'r adran ar ddiwedd y Bennod hon yn disgrifio sut mae prif themâu'r Canllaw yn ymdrin â'r saith nod.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2.6 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn disgrifio'r gofyniad ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y Cyngor (o dan Ran 1, Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y bo'n gyfateb i weithredu eu dyletswyddau'n briodol a thrwy wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

2.7 Wrth weithredu'r ddyletswydd hon mae'n rhaid i Gyngor Abertawe "gymryd cydnerthedd ecosystemau i ystyriaeth, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn cydnabod bod

cyflwyno dyletswydd S6 y Cyngor yn ddylanwad allweddol ar wneud penderfyniadau cynllunio yng Nghymru, gyda'r potensial i ddarparu buddion amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd lluosog ar gyfer pobl a bywyd gwylt fel ei gilydd¹.




2.8 Gan hynny, mae integreiddio ecosystemau bioamrywiol a chydnerth yn gynnar wrth ddylunio datblygiadau'n elfen allweddol o gyflwyno amcanion creu lleoedd y Cyngor. Mae'n gofyn am ystyried bioamrywiaeth ar bob graddfa, ac ystyried y cyfyngiadau a chyfleoedd a gyflwynir gan yr holl nodweddion naturiol, y tu mewn a'r tu allan i'r safle, ac o rywogaethau cynefinoedd a nodwyd ar gyfer diogeliad deddfwriaethol, ond hefyd yr holl nodweddion sy'n rhan o gydnerthedd ehangach yr ecosystem. Gan hynny, egwyddor allweddol gweithredu'r ddyletswydd adran 6 trwy'r system gynllunio yw sicrhau yn gyntaf nad oes unrhyw golled

fioamrywiaeth net, ond hefyd hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau trwy ystyried cysylltedd a chydnerthedd ecolegol. I gyflawni hyn bydd y cyngor yn dilyn y broses cam wrth gam a hybir gan PCC a bydd yn ceisio sicrhau bod datblygu'n cyflwyno gwelliannau ecolegol pryd bynnag y bo'n bosib. Mae'r CCA Bioamrywiaeth a Datblygu yn rhoi manylion pellach sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod datblygu yn Abertawe'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth y Sir ac yn darparu cydnerthedd ecosystemau dros yr hir dymor.

Y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr; Deddf yr Amgylchedd 2010

- 2.9 Mae'r Ddeddf hon yn gosod gofyniad ar yr holl ddatblygiadau o fwy na 100m² i ymgorffori draenio sy'n bodloni'r chwe safon Systemau draenio dŵr wyneb (SUDs) fandadol:
1. Cyrchfan dŵr ffo - ble mae dŵr wyneb yn arllwys
 2. Rheolaeth hydrologig - y gyfradd arllwys
 3. Ansawdd dŵr - gwella a hidlo
 4. Amwynder - manau gwyrdd amlswyddogaethol
 5. Bioamrywiaeth - cyflwyno enillion net mewn bioamrywiaeth a chefnogi cydnerthedd ecosystemau
 6. Adeiladu/ gweithredu/ cynnal a chadw - gweithrediad diogel ac effeithiol
- 2.10 Mae SUDs yn destun proses gydsynio ar wahân gyda'r Bwrdd Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (BCDC). Mae'n ddyletswydd ar y BCDC i fabwysiadu systemau sy'n cydymffurfio cyhyd â'u bod yn cael eu hadeiladu ac yn gweithredu'n unol â'r dyluniadau cymeradwy. Mae'n rhaid i SUDs gael eu dylunio'n gyfochrog â'r drefn cynllunio a pheirianeg, eu dylunio mewn ffordd gadarnhaol a'u hintegreiddio i'r 'lle' newydd.

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021)

2.11 Mae PCC yn disgrifio ymagwedd Llywodraeth Cymru at gyflawni llesiant a datblygu cynaliadwy trwy greu lleoedd. Mae'n pwysleisio etifeddiaeth y datblygiadau ar gyfer pobl a'r amgylchedd.

“Mae creu lleoedd yn dda yn ...hanfodol i gyflwyno datblygu cynaliadwy a chyflawni gwelliannau mewn llesiant cymunedau.” (2.10)

“Mae dylunio da yn hollbwysig i greu mannau cynaliadwy lle mae pobl eisiau byw, gweithio a chymdeithasu. Mae mwy i ddylunio na phensaernïaeth adeilad; mae'n golygu'r berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a rhwng pobl a lleoedd hefyd. I gyflawni datblygu cynaliadwy, rhaid i ddylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar y datblygiad, gan gynnwys sut mae gofod yn cael ei ddefnyddio, sut mae adeiladau a lle'r cyhoedd yn cefnogi hyn yn ogystal â'r gwaith adeiladu a'r trefniadau gweithredu a rheoli, a'r berthynas rhwng y datblygiad a'i gyffiniau”.

(3.3 - Creu Lle ar Waith)


“Ffordd gyfannol o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd yw “creu lle”, sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau cadarnhaol. Mae'n galw ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf. Mae “creu lle” yn ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle'r datblygiad a'i gyffiniau. Bydd hyn yn wir yn achos datblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu mewn lle ehangach. Ni ddylai “creu lle” ychwanegu at gostau datblygiad ond rhaid wrth feddwl clyfar, aml-ddimensiwn ac arloesol a'i ystyried cyn gynhared yn y broses â phosib. Mae “creu lle” yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at y datblygiad gan arwain at fuddiannau sy'n fwy na'r ffisegol ac yn ymwreiddio cydnerthedd ehangach mewn penderfyniadau cynllunio”.

(Polisi Cynllunio Cymru t16)

“Mae dylunio da yn ymwneud ag osgoi creu datblygiadau sy'n seiliedig ar geir yn unig. Mae'n cyfrannu at leihau'r angen i deithio a'r ddibyniaeth ar y car gan hyrwyddo cyfleoedd i bobl wneud dewisiadau teithio cynaliadwy ac iach ar gyfer eu teithiau bob dydd”.

(3.12)

Adeiladu Lleoedd Gwell: Creu Lleoedd ac Ymadfer yn sgil Covid-19, Gorffennaf 2020.



2.12 Mae'r ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru yn ategu Polisi Cynllunio Cymru ac yn cynyddu'r pwyslais ar greu lleoedd a seilwaith gwyrdd. Mae'r dyfyniadau canlynol o'r ddogfen yn tynnu sylw at sut mae angen i benderfyniadau cynllunio briodoli pwysigrwydd sylweddol i'r materion hyn, ac yn nodi effeithiau andwyol posib peidio â sicrhau y glynir wrth egwyddorion creu lleoedd:

“Rydym i gyd wedi treulio mwy o amser yn ein cymdogaethau yn ystod wythnosau'r cyfnod clo a gallwn i gyd werthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng cael amgylchedd o safon i fyw, gweithio ac ymlacio ynddo a sut y gall cael ein torri i ffwrdd o'n ffrindiau a'n teulu olygu y gall amgylchedd gwael, heb fynediad neu â mynediad cyfyngedig i nwyddau, gwasanaethau a manau gwyrdd lleol gael effaith niweidiol iawn ar ein hiechyd meddwl a chorfforol a'n lles, yn ogystal â'n gallu i warchod ein bywoliaeth.”


Yn awr, yn fwy nag erioed, mae angen i ni feddwl am lleoedd a chreu lleoedd. Dyma fydd ein gwerth craidd yn y gwaith rydym yn ei wneud i sicrhau adferiad Cymru. Bydd y camau adfywio a gymerwn ar bob lefel yn cael eu cyfeirio gan feddwl integredig ac nid hwylustod tymor byr a all arwain at ddeilliannau tymor hwy negyddol.”

Adeiladu Lleoedd Gwell Rhagair gan Julie James AS (t2)

“Gydag ymarfer corff a chyswllt cymdeithasol mor hanfodol i'n hiechyd a'n lles, mae'r pandemig wedi atgyfnerthu'r angen am strydoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae hyn yn sail i'r polisi 'strydoedd gweithredol a chymdeithasol' ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gefnogir gan Lawlyfr Strydoedd 6 a'i ganllaw cydymaith Llawlyfr Strydoedd 27. Noda Polisi Cynllunio Cymru yn glir y dylai dyluniad strydoedd fod yn seiliedig ar egwyddorion dylunio trefol ac nid y dull confensiynol a arweinir gan beirianeg ym Mwletin Dylunio 32 sydd bellach wedi'i ddisodli.”

Dylai cynllunwyr barhau i herio uniongrededd, ffyrdd o feddwl a chynigion datblygu sy'n seiliedig ar arferion a safonau hen ffasiwn, megis y rhai ym Mwletin Dylunio 32, ac i hybu creadigrwydd, cydweithio a dyluniadau stryd sy'n ymateb i'r canllawiau yn y Llawlyfr Strydoedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi penderfyniadau o'r fath i helpu i greu lleoedd gwell.”

(Adeiladu Lleoedd Gwell t17)

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)

2.13 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau penodol ynghylch dylunio tai a'u cynllun. Mae'n manylu egwyddorion dylunio da yn seiliedig ar ddealltwriaeth o beth sy'n gwneud lleoedd sydd eisoes yn bodoli yn lleoedd deniadol, llwyddiannus a chynaliadwy i fyw.

“Ni ddylid derbyn dylunio sy'n amhriodol ei gyd-destun, neu sy'n methu â chydio mewn cyfleoedd i wella cymeriad, ansawdd a gweithrediad yr ardal, gan fod y rhain yn cael effeithiau andwyol ar y cymunedau sydd eisoes yn bodoli”

(NCT 12, 2009, paragraff 2.6)

2.14 Mae NCT 12 yn nodi mai sefydlu ymdeimlad o le a chymuned y dylid eu mabwysiadu fel egwyddorion trosgynnol wrth ddylunio amgylcheddau preswyl. Yn fwy penodol (paragraff 5.11.2) dylai dylunio tai anelu at:


- greu lleoedd sydd ag anghenion pobl mewn cof, sy'n unigryw ac sy'n parchu cymeriad lleol;
- hybu cynlluniau a nodweddion dylunio sy'n annog diogelwch cymunedol a hygyrchedd;
- ffocysu ar ansawdd y lleoedd a'r amgylcheddau byw i gerddwyr yn hytrach na symud a pharcio cerbydau;
- osgoi safonau cynllunio nad ydynt yn hyblyg ac annog cynlluniau sy'n rheoli cyflymder cerbydau trwy geometreg y ffyrdd a'r adeiladau;
- hybu nodweddion cynaladwyedd amgylcheddol megis effeithlonrwydd ynni mewn tai newydd ac egluro ymrwymadau penodol i ostyngiadau carbon a/neu safonau adeiladu cynaliadwy;
- sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o dir gan gynnwys dwyseddau priodol; ac,
- ystyried a chydbwysu gwrthdaro posib rhwng y meini prawf hyn.

Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)

2.15 Mae NCT 18 yn disgrifio'r gofynion wedi'u harwain gan le ar gyfer dylunio strydoedd sy'n cysylltu â'r Llawlyfr Strydoedd. Mae hyn wedi'i atgyfnerthu gan ddyfyniadau mwy diweddar ym Mholisi Cynllunio Cymru:


“Mae'n rhaid i ddyluniad a diwyg strydoedd roi blaenoriaeth uchel i'w rôl fel manau cyhoeddus ac i ddiwallu anghenion cerddwyr, seiclwyr a defnyddwyr cludiant cyhoeddus yn unol â'r hierarchaeth drafnidiaeth. I greu strydoedd sy'n fannau cymdeithasol, mae angen i'r lle cyhoeddus fod yn ddiogel a deniadol a rhaid i draffig orfod teithio'n araf arnynt”.

(PCC 4.1.19)



Ffigur 2.2 Yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ar gyfer Cynllunio (ffynhonnell Polisi Cynllunio Cymru)

Mae polisi Llywodraeth Cymru, y Llawlyfr Strydoedd, a'r canllaw sy'n cyd-fynd ag ef, Llawlyfr Strydoedd 2, yn ei gwneud yn ofynnol nad yw dyluniad stryd yn dilyn y pwyslais confensiynol ar beirianeg. Dylai dyluniad strydoedd newydd neu well adlewyrchu egwyddorion dylunio trefol, gan gynnwys y rheini yn y Llawlyfr Strydoedd a'r Canllaw Dylunio Teithio Llesol, a pheidio â chadw'n haearnaidd at y safonau. Bwletin Dylunio 32: Mae Ffyrdd a Llwybrau Troed Preswyl wedi cael ei ddisodli gan y Llawlyfr Strydoedd. (PCC 4.1.21)



Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040



2.16 Mae Cymru'r Dyfodol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021, yn pennu haen genedlaethol Cynllun Datblygu Cymru. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o rai polisiâu allweddol sydd wedi'u cynnwys o fewn Cymru'r Dyfodol:

Polisi 1: Ble bydd Cymru'n Tyfu

2.17 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf cynaliadwy ledled Cymru. Mewn tair Ardal Dwf Genedlaethol gwelir twf mewn cyfleoedd cyflogaeth a thai a buddsoddiad mewn isadeiledd. Yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol yw: Bae Abertawe a Llanelli

Polisi 2: Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol

2.18 Dylai twf ac adfywio trefi a dinasoedd wneud cyfraniad cadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy sy'n cefnogi bywydau egniol ac iach, gyda chymdogaethau trefol cywasgedig a cherddedadwy, sydd wedi'u trefnu o amgylch canolfannau defnydd cymysg a thrafnidiaeth gyhoeddus ac wedi'u hintegreiddio ag isadeiledd gwyrdd.

2.19 Dylai twf ac adfywio trefol fod yn seiliedig ar yr egwyddorion Creu Lleoedd Strategol canlynol:

- creu cymysgedd cyfoethog o ddefnyddiau;
- darparu amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaethau;
- adeiladu lleoedd cerddedadwy, gyda chartrefi, cyfleusterau lleol a chludiant cyhoeddus o fewn pellter cerdded i'w gilydd;
- cynyddu dwysedd y boblogaeth, gyda gwaith datblygu ar ddwyseddau trefol a all gefnogi cludiant cyhoeddus a chyfleusterau lleol;
- sefydlu rhwydwaith hydraidd o strydoedd, gyda hierarchaeth sy'n llywio natur gwaith datblygu;
- hyrwyddo gwaith datblygu sy'n seiliedig ar leiniau, sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu lleiniau bach, gan gynnwys rhai ar gyfer tai ar archeb a hunanadeiladwyr; ac
- integreiddio isadeiledd gwyrdd, a gaiff ei lywio gan Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yr awdurdod cynllunio.

Llywio twf ac adfywio trefol

2.20 Mae dyheadau Cymru'r Dyfodol o ran twf yn gyfle i adfywio ein trefi a'n dinasoedd a llywio eu maint, eu strwythur a'u dwysedd. Mae creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio yng Nghymru ac mae'r polisi hwn yn sefydlu dull strategol o greu lleoedd ac egwyddorion er mwyn helpu awdurdodau cynllunio i lywio twf ac adfywio trefol.

2.21 Egwyddorion Creu Lleoedd Strategol

- **Defnydd cymysg:** Er mwyn creu gweithgarwch drwy'r dydd a galluogi pobl i gerdded a beicio, yn hytrach na dibynnu ar deithio mewn car, dylai fod gan leoedd gymysgedd gwyh o ddefnyddiau preswyl, masnachol a chymunedol yn agos i'w gilydd. Dylai twf ac adfywio trefol integreiddio gwahanol ddefnyddiau mewn cymdogaethau
- **Amrywiaeth o dai:** Er mwyn sicrhau bod lleoedd yn cynnwys cymysgedd cymdeithasol sydd at ddant pawb, dylent gynnwys cymysgedd o fathau o dai a deiliadaethau, a lle i weithio gartref. Dylai twf ac adfywio trefol ddarparu ar gyfer teuluoedd, cyplau a phobl sengl o wahanol oedrannau, yn ogystal â darparu cymysgedd o dai fforddiadwy a phreifat.
- **Cerddedadwy:** Er mwyn galluogi bywydau iach ac actif, dylai fod yn hawdd i bobl gerdded i gyfleusterau lleol a chludiant cyhoeddus. Dylid rhoi pwyslais ar dwf ac adfywio trefol yng nghanol dinasoedd ac yng nghanol trefi, yn ogystal â mewn perthynas â chanolfannau lleol defnydd cymysg a chludiant cyhoeddus. Mae hybiau cydweithio sy'n cynnig dewis amgen i weithio gartref yn nodwedd bwysig o'r economi, a dylid eu lleoli mewn trefi a chanolfannau lleol.
- **Dwysedd:** Er mwyn cefnogi llwyddiant economaidd a chymdeithasol ein trefi a'n dinasoedd, gan gynnwys cynnal trafniadaeth gyhoeddus a chyfleusterau, dylai twf ac adfywio trefol gynyddu dwysedd poblogaeth ein trefi a'n dinasoedd. Dylai datblygiadau newydd mewn ardaloedd trefol anelu at ddwysedd o 50 o anheddau fesul hectar (net) o leiaf, gyda dwyseddau uwch mewn lleoliadau mwy canolog a hygyrch.

Gall fod angen ystyried gofynion cadw pellter cymdeithasol wrth ddylunio lleoedd cyhoeddus a chymunedol.

- **Rhwydwaith strydoedd:** Er mwyn darparu fframwaith ar gyfer integreiddio gwahanol ddefnyddiau a mathau o dai mewn cymdogaethau, dylai twf ac adfywio trefol fod yn seiliedig ar rwydwaith o strydoedd lle gellir cadw pellter cymdeithasol yn hawdd. Dylai'r rhwydwaith strydoedd fod yn hydraid, gyda strydoedd sy'n cysylltu â strydoedd eraill ar y ddau ben yn bennaf, ac yn darparu cysylltiadau i leoedd, allan ohonynt a thrwyddynt. Dylai fod hierarchaeth i'r rhwydwaith strydoedd, gyda strydoedd sydd â gwahanol nodweddion a swyddogaethau.
- **Datblygu sy'n seiliedig ar leiniau:** Er mwyn creu lleoedd amrywiol a diddorol, a all gael eu datblygu a'u newid dros amser, a darparu cyfleoedd i bobl ddylunio ac adeiladu eu cartrefi a'u gweithfannau eu hunain, yn ogystal â gwneud y farchnad dai yn hygyrch i adeiladwyr bach a lleol, dylai twf ac adfywio trefol gynnig cyfleoedd i ddatblygu lleiniau bach. Dylid hyrwyddo dull datblygu sy'n seiliedig ar leiniau, gan gynnwys is-rannu safleoedd mwy i'w hadeiladu'n lleiniau bach neu'n grŵp o leiniau.
- **Isadeiledd Gwyrdd:** Er mwyn galluogi ardaloedd trefol i chwarae eu rhan wrth gefnogi cydnerthedd ecosystemau, dylai'r defnydd o atebion arloesol, yn seiliedig ar natur, fod yn rhan o strategaethau twf ac adfywio trefol. Drwy Aseidiadau Isadeiledd Gwyrdd, dylid nodi cyfleoedd penodol i sicrhau bod isadeiledd gwyrdd wedi'i integreiddio'n llawn.

Polisi 9: Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn ac Isadeiledd Gwyrdd


2.22 Er mwyn gwella bioamrywiaeth, sicrhau bod ecosystemau yn gadarn a darparu isadeiledd gwyrdd, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i wneud y canlynol:

- nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol;
- nodi cyfleoedd lle y gellid manteisio i'r eithaf ar isadeiledd gwyrdd presennol a phosib fel rhan o greu lleoedd, lle mae angen defnyddio atebion yn seiliedig ar natur fel dull allweddol o sicrhau twf cynaliadwy, cysylltedd ecolegol, cydraddoldeb cymdeithasol a lles.

2.23 Ym mhob achos, dylai camau gweithredu tuag at gynnal a gwella bioamrywiaeth (er mwyn sicrhau mantais net) a gwneud ecosystemau ac asedau isadeiledd gwyrdd yn gadarn gael eu dangos fel rhan o gynigion datblygu drwy ddulliau arloesol yn seiliedig ar natur o gynllunio safleoedd a dylunio'r amgylchedd adeiledig.

2.24 Mae ffocws strategol Cymru'r Dyfodol ar dwf trefol yn galw am fwy o bwyslais ar wella bioamrywiaeth (mantais net) er mwyn sicrhau bod twf yn gynaliadwy.

2.25 Mae darparu mannau a choridorau gwyrdd o ansawdd uchel, sy'n hygyrch yn lleol, yn helpu i gynnal a gwella swyddogaeth strategol ein hadnoddau naturiol a'n rhwydweithiau ecolegol, ac mae'n mynd i'r afael â lles corfforol a meddyliol. Dangoswyd pwysigrwydd gwirioneddol mannau gwyrdd trefol pan fu'n rhaid i bobl gadw'n heini mewn mannau gwyrdd lleol cyfagos yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19.

Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Llywodraeth

2.26 Datganodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd ym mis Ebrill 2019 gyda'r amcan o symud tuag at carbon sero net erbyn 2050. Cefnogir yr amcan hwn gan 'Garbon Isel Cymru' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019 gan ganolbwyntio ar sectorau gwahanol sy'n disgrifio llwybrau i ostwng allyriadau:

Adeiladau

- Mae allyriadau preswyl yn cyfrannu 7.5% o allyriadau CO2 cenedlaethol
- Mae'r amcanion yn cynnwys cadwraeth ynni, adeiladu arloesol, defnyddio ynni carbon isel, defnyddio systemau clyfar

Trafnidiaeth

- Mae ceir yn cyfrannu 7.7% o allyriadau CO2 cenedlaethol
- Ymysg yr amcanion mae cefnogi teithio llesol, cynyddu defnydd o gludiant cyhoeddus, datblygu rhwydwaith cerbydau Allyriadau Isel lawn

Defnydd o dir

- Cynyddu niferoedd o goed fel sinc carbon a chydabod llesiant
- Cynnal a gwella cysylltedd cynefinoedd

2.27 Mae'n amlwg bod gan y rhain oblygiadau ar gyfer lleoedd newydd a phresennol yng Nghymru a rhoddir sylw iddynt hefyd ar yr un pryd trwy, er enghraifft, newidiadau i Reoliadau Adeiladu yng Nghymru Rhan L: Cadwraeth Tanwydd a Phŵer.

Comisiwn Dylunio Cymru ac Archwiliadau Tai

- 2.28 Rhybuddiodd asesiadau o ddatblygiadau preswyl gan Gomisiwn Dylunio Cymru (CDC) yn 2005 fod safonau adeiladu tai yng Nghymru'n ddinod yn gyffredinol a bu hyn yn broblem o hyd deng mlynedd wedyn:



“Ychydig iawn sydd i ddathlu gyda'r mwyafrif o ddatblygiadau preswyl yng Nghymru. Mae datblygiadau heb le gyda

defnyddiau unigol, sy'n canolbwyntio ar symudiadau ceir a gyda diffyg cysylltiad o gwbl â rhinweddau'r safle neu yn wir â'r anheddiad sydd eisoes yn bodoli yn rhy gyffredin o lawer.”

(Cyhoeddiad Places for Life, 2016, CDC)

- 2.29 Mae'r cyhoeddiad 'Living with Beauty' yn 2020 gan Building Better, Building Beauty Commission yn amlygu bod hyn yn broblem o hyd, gan nodi astudiaeth annibynnol¹ a ddaeth i'r casgliad bod, *“tri chwarter o ddatblygiadau tai newydd yn Lloegr naill ai'n ddinod neu'n wael”* (tudalen 9). Does dim rheswm dros gredu bod y sefyllfa'n wahanol mewn unrhyw ffordd yng Nghymru a bod problemau 15 mlynedd yn ôl yn gyffredin o hyd. Mae'r comisiwn Building Better, Building Beautiful yn disgrifio'r her yn glir:

“Mae angen i ni ddatblygu mwy o gartrefi o fewn lleoedd defnydd cymysg go iawn ar 'ddwysedd isel', gan greu strydoedd, sgwariau a blociau gyda chefnau a ffryntiau clir felly. Mewn llawer o ffyrdd dyma'r mwyaf heriol o'n tasgau, sydd i newid y model datblygu o 'unedau adeiladu' i 'greu lleoedd’”
(Living with Beauty, Tudalen 4)

- 2.30 Nododd y safon Building for Life 12 (2014), sydd wedi'i dilysu gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai 'wyth o broblemau sy'n bla ar ddatblygiadau newydd':

1. Cartrefi sydd i gyd yn edrych yr un peth
2. Pla biniau
3. Tai sydd i gyd yn wynebu mewn cyfeiriadau gwahanol
4. Ffyrdd sy'n annog goryrru
5. Strydoedd sy'n annymunol ar gyfer cerdded a beicio
6. Gerddi cymunedol wedi'u hesgeuluso
7. Lleoedd parcio amhriodol
8. Strydoedd dienaidd heb goed na blodau



- 2.31 Mae dull strwythuredig i'r broses asesu Building for Life ar gyfer lleoedd yn yr un modd â'r canllaw Dylunio Preswyl:

- Integreiddio i'r gymdogaeth
- Creu lle
- Cartref a stryd

¹ <https://www.ucl.ac.uk/news/2020/jan/new-housing-design-england-overwhelmingly-mediocre-or-poor>

Siarter Creu Lleoedd Cymru

2.32 Datblygwyd Siarter Creu Lleoedd Cymru mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru, sy'n cynnwys rhanddeiliaid gydag amrywiaeth eang o fuddiannau. Mae'r Siarter yn adlewyrchu ymrwymadau'r sefydliadau hyn yn unigol ac ar y cyd i gefnogi datblygiad lleoedd o ansawdd uchel ar draws Cymru er budd cymunedau.



Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

2.33 Mae llofnodeion Siarter Creu Lleoedd Cymru'n cynnwys y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai, y Sefydliad Cefnffyrdd a Thrafnidiaeth Siartredig, y Sefydliad Peirianyddion Priffyrdd, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, RSAW, Llywodraeth Cymru, CLILC ac amrywiaeth o adeiladwyr tai. Mae hyn yn dangos yn glir bod Creu Lleoedd yn cael ei gofleidio a'i groesawu ar draws y diwydiant datblygu cyfan. Mae gweithrediad y siarter wedi'i ddisgrifio yn y paragraffau a ganlyn.

Mae llofnodeion Siarter Creu Lleoedd Cymru'n cytuno i hybu'r egwyddorion a ganlyn wrth gynllunio, datblygu a rheoli lleoedd newydd a phresennol:

Pobl a Chymuned – Mae'r gymuned leol yn ymwneud â datblygu cynigion. Mae anghenion, dyheadau a llesiant pawb yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf. Mae cynigion yn cael eu siapio i helpu diwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, diogelu a/neu wella ymdeimlad o gymuned a hybu cydraddoldeb.

Lleoliad – Mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd sydd eisoes yn bodoli ac sydd wedi'u cysylltu'n dda. Cynllunnir lleoliad tai, cyflogaeth, hamdden a chyfleusterau eraill i helpu gostwng yr angen am deithio.

Symudiad – Blaenoriaethir cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus i ddarparu dewis o foddau cludiant ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol diogel a ddylunnir yn dda yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol a chludiant cyhoeddus ehangach, ac mae gorsafodded ac arosfeydd cludiant cyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n gadarnhaol.

Cymysgedd o Ddefnyddiau – Mae gan lleoedd amrywiaeth o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad i swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau trwy gerdded, beicio neu gludiant cyhoeddus. Mae dwysedd datblygiadau a chymysgedd o ddefnyddiau a daliadaethau'n helpu cefnogi cymuned amrywiol a pharth cyhoeddus bywiog.

Parth Cyhoeddus – Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth unigryw. Maent wedi'u dylunio i fod yn gadarn ac i fedru addasu gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draenio cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Mae ganddynt gysylltiad da â lleoedd sydd eisoes yn bodoli ac yn darparu cyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol ac amrywiaeth o weithgareddau i bawb.

Hunaniaeth – Mae rhinweddau cadarnhaol ac unigryw lleoedd sydd eisoes yn bodoli'n cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, rhinweddau ffisegol


Creu Lleoedd a Mannau Iachach ar gyfer y Genhedlaeth Bresennol a Chenedlaethau'r Dyfodol

2.34 Mae'r cyhoeddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2018 yn amlinellu tystiolaeth gadarn sy'n dangos y gall yr amgylchedd adeiledig a naturiol gefnogi llesiant corfforol a meddyliol. Mae'n amlygu bod cael mynediad i fannau gwyrdd agored, bwyd iach, cyfleoedd i fod yn actif, awyr lân, adeiladau a ddylunnir yn dda yn hybu llesiant. I'r gwrthwyneb, fel corff iechyd maent wedi profi pan fydd y rhain ar goll neu'n gyfyngedig, er enghraifft trwy ddiffyg mannau gwyrdd agored, y mae'n debygol y bydd effaith negyddol ar iechyd a llesiant y boblogaeth.

2.35 Maent yn nodi dull cyfannol o greu a rheoli lleoedd sy'n dod â chynllunio ac iechyd ynghyd, gan ddisgrifio chwe maes â blaenoriaeth lle mae creu lleoedd yn arwain at ddeilliannau iechyd seiliedig ar dystiolaeth:

1. Seilwaith cynhwysol sy'n blaenoriaethu cerdded a beicio, ac yn gwella diogelwch ffyrdd
Mae bod yn weithgar yn gorfforol yn creu buddion ar gyfer iechyd unigolion a'r boblogaeth ac yn gostwng y risgiau o ordewdra/ cyflyrau cronig.
2. Seilwaith gwyrdd hygyrch sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, mannau gwyrdd a mannau glas agored

Mae mynediad i'r amgylchedd naturiol ac ymgysylltiad ag ef yn gysylltiedig â deilliannau



Ffigur 2.3 Y Map Iechyd (ffynhonnell: Barton H, Grant M. Map iechyd ar gyfer y cynefin dynol lleol. Safbwyntiau mewn iechyd cyhoeddus 2006)

iechyd cadarnhaol, gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol gwell, a risg ostyngol o glefyd cardiofasgwlaidd a chlefydau cronig eraill

3. Tyfu bwyd yn lleol a'r amgylchedd manwerthu sy'n gwella mynediad i ddewisiadau bwyd iach
Mae mynediad i mannau tyfu bwyd mewn cymunedau'n cael effaith gadarnhaol ar agweddau tuag at fwydydd iachach, lefelau gweithgarwch corfforol a chysylltedd cymdeithasol.

4. Gwasanaethau cymunedol, iechyd a gofal cymdeithasol mewn cyfleusterau lleol

Gall darpariaeth iechyd a chymunedol o gyfleusterau a leolir ac a ddylunnir yn dda arwain at effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant

5. Lefelau llygredd aer isel

Mae tystiolaeth yn nodi y gall byw mewn ardal sydd ag awyr lân arwain at newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiadau iechyd pobl ac mae'n gysylltiedig â gweithgarwch corfforol cynyddol.

6. Mae dylunio adeiladau'n hybu iechyd a llesiant.

Gall yr adeiladau yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddynt gael effaith ddofn ar iechyd a llesiant. Gall cartrefi wedi'u hinswleiddio, cynnes, wedi'u goleuo'n naturiol a'u hawyru'n dda helpu i wella iechyd a llesiant yn gyffredinol, gwella cyflyrau resbiradol, gwella iechyd meddwl a gostwng anghydraddoldebau iechyd.

Polisïau ac Arweiniad Lleol

CDLI Abertawe

2.36 Mae CDLI Abertawe a fabwysiadwyd yn darparu'r fframwaith polisi lleol statudol y mae'n rhaid penderfynu pob cais cynllunio o fewn y Sir yn ei erbyn. Mae'r Polisiâu CDLI



yn ymwreiddio'r egwyddor creu lleoedd yn echblyg er mwyn creu lleoedd a mannau o safon. Maent yn pwysleisio bod gan yr holl ddatblygiadau newydd, gan gynnwys datblygiadau preswyl ar bob graddfa, y potensial i gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol a phwrpasol at sut y caiff lle ei brofi a'i fwynhau.

2.37 Mae'r CDLI yn ymwreiddio creu lleoedd ar y lefel leol fel thema drawsbynciol y Cynllun. Fodd bynnag, mae polisiâu penodol sy'n disgrifio egwyddorion allweddol yr hyn y mae'n rhaid i greu lleoedd a datblygu llwyddiannus eu cwmpasu. Mae'r ddau bolisi trosgynnol allweddol wedi'u crynhoi isod, gyda'r testun llawn wedi'i ddarparu yn yr Atodiadau.

PS 2: Creu Lleoedd a Rheoli Lleoedd

2.38 Mae'r polisi hwn yn cydnabod y dylai creu lleoedd fod yn amcan ar gyfer datblygiadau newydd ond bod llawer o ddatblygiadau'n digwydd yng nghyd-destun lleoedd presennol pan fydd integreiddio'n bwysig. Y polisi hwn yw'r bach eang ar gyfer creu lleoedd, dod ag adfywio, cynllunio cymdogaethau, tirlunio, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, dyluniad, cymeriad ac amwynder strydoedd.

2.39 Polisi'r CDLI *Mae PS 2 yn mynnu bod y datblygiad yn creu lleoedd o safon trwy annog ymagwedd o ddeall ac ymateb i gyd-destun a chymeriad y safle sy'n destun y cais. Mae'n amlygu bod yn rhaid rhoi ystyriaeth nid yn unig i'r adeilad ond i'r gofod o'i gwmpas hefyd. Mae Polisi PS2 yn darparu'r ffon fesur y bydd effeithiau cais yn cael eu mesur yn ei herbyn. Mae'n ganllaw i ystyried yr effeithiau posib ar dreftadaeth ddiwylliannol, amgylchedd naturiol, amwynder cyhoeddus, iechyd a llesiant, parcio, tirlunio, hygyrchedd a thrafnidiaeth. Yn benodol mae'n mynnu'r canlynol:*

“Dylai datblygu fwyhau ansawdd lleoedd a gofodau ac ymateb yn gadarnhaol i agweddau ar gyd-destun a chymeriad lleol sy'n cyfrannu at ymdeimlad o le”

SD 2: Egwyddorion Uwchgynllunio

2.40 Mae'r polisi hwn yn pennu'r dull creu lleoedd ar gyfer safleoedd pan fydd capasiti am 100 neu fwy o gartrefi. Mae'n pwysleisio'r angen am gymdogaethau y gellir eu cyrchu ar droed, seilwaith cymdeithasol, dwyseddau effeithiol, seilwaith gwyrdd, cymeriad etc gyda phwyslais ar y broses uwchgynllunio.

- 2.41 Mae'r CCA hwn yn darparu arweiniad a gwybodaeth gefnogol ar gyfer nifer o bolisïau CDLI eraill gan gynnwys y canlynol (ond heb gael eu cyfyngu iddynt);
- 2.42 Mae'n bosib y bydd polisïau CDLI eraill na chyfeirir atynt yn Ffigur 1 yn berthnasol hefyd i rai datblygiadau preswyl, gan ddibynnu ar eu lleoliad a natur y datblygiad, ac mae'n bwysig felly y darllenir y Canllaw ar y cyd â holl bolisïau perthnasol y Cynllun Datblygu a fabwysiadwyd gan y Cyngor.
- 2.43 Mae'r ymagwedd gyfannol at Greu Lleoedd a Rheoli Lleoedd a hybir yn CDLI Abertawe'n alinio â'r Canllaw a Chyngor Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Ar y lefel genedlaethol, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC, paragraffau 2.1.1-2.1.2) yn disgrifio'r egwyddorion cenedlaethol trosgynnol mewn perthynas â chynllunio a chreu lleoedd. Mae'r egwyddorion hyn yn sail i ffurfio polisïau cynllunio lleol ac yn cyfeirio penderfyniadau unigol ar gynigion datblygu. Mae PCC yn nodi bod yn rhaid i benderfyniadau cynllunio geisio hybu datblygu cynaliadwy a chefnogi llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru. Mae'n mynnu bod hyn yn cael ei wneud trwy ymdrin â saith nod llesiant, y mai un ohonynt yw Meithrin Cymunedau Cydlynus, gan bwysleisio pwysigrwydd cyfuniadau priodol o ddefnyddiau tir. Mae PCC yn egluro bod creu lleoedd ac egwyddorion datblygu cynaliadwy yn hanfodol i ddatblygu ar bob graddfa.
- 2.44 Mae'r Cyngor hefyd wedi paratoi Cynllun Cyflwyno Seilwaith sy'n ddogfen dystiolaeth ategol i'r CDLI. Mae Atodiad 3 y CDLI hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y gofynion safle allweddol ar gyfer safleoedd sydd wedi'u dyrannu yn y CDLI. Dylid adolygu hyn o'r cychwyn cyntaf i amlygu'r hyn sy'n ofynnol fel rhan o'r datblygiad.


Ffigur 2.4: Polisïau CDLI Allweddol wedi'u hategu gan y CCA hwn

Cyfeirnod Polisi	Enw a Disgrifiad
PS 1	Lleoedd Cynaliadwy
SD 1	Ardaloedd Datblygu Strategol
SD A - L	Dyraniadau Safle Strategol
RP 1	Diogelu Iechyd Cyhoeddus ac Adnoddau Naturiol
RP 3	Llygredd Aer a Golau
RP 4	Llygredd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr
RP 10	Gwastraff mewn datblygiad newydd
ER 1	Newid yn yr Hinsawdd
ER 2	Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd
ER 4	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) Gŵyr
ER 6	Safleoedd Dynodedig o Bwysigrwydd Ecolegol
ER 8	Cynefinoedd a Rhywogaethau
ER 9	Rhwydweithiau Ecolegol a Nodweddion o Bwysigrwydd ar gyfer Bioamrywiaeth
ER 11	Coedydd, Perthi a Datblygu
SI 1	Iechyd a Llesiant
SI 6	Darparu Mannau Agored Newydd
SI 8	Diogelwch Cymunedol
EU 2	Ynni adnewyddadwy mewn datblygiad newydd

Canllaw Cynllunio Atodol Cyflenwol

2.45 Mae'r Canllaw hwn yn ffurfio rhan o gyfres o CCA sy'n darparu Canllawiau Creu Lleoedd, Treftadaeth a Dylunio ar gyfer datblygu yn Abertawe, sydd hefyd yn ymdrin â:

- **Datblygiad Deiliaid Tai;**
- **Datblygiadau Mewnlenwi a Thir Cefn; ac**
- **Datblygiadau yn AoHNE Gŵyr**



2.46 Yn ogystal â'r gyfres o CCA sy'n gysylltiedig â Chreu Lleoedd, Treftadaeth a Dylunio, mae CDLI Abertawe hefyd yn cael ei gefnogi gan ystod o CCA eraill sy'n ystyriaethau materol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae hyn yn cynnwys, ond nid ydynt yn allgynhwysol i, y CCA a ganlyn (teitlau dogfennau sydd ar ddod a gallent newid):

- **Gwarchod Coed;**
- **Seilwaith Gwyrdd;**
- **Bioamrywiaeth a Datblygu; ac**
- **Safonau Parcio.**

2.47 Yn ogystal â CCA mabwysiedig, ceir dogfennau Canllaw eraill gan y Cyngor a allai fod yn berthnasol wrth gyfeirio cynigion. O bwys penodol yw **Canllaw Dylunio Strydoedd y Cyngor**, sy'n nodi safonau manwl i sicrhau bod strydoedd diogel a hygyrch a arweinir gan le yn cael eu darparu, yn unol ag argymhellion Polisi Cynllunio Cymru, NCT 18, CDLI Abertawe a'r Llawlyfr Strydoedd. Nid CCA mo'r ddogfen hon, yn hytrach mae'n ganllaw defnyddwyr ar gyfer datblygwyr a fydd yn cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd fel y bo angen. Mae'n nodi'r egwyddorion allweddol ac yn darparu enghreifftiau amrywiol i ddangos sut y gellir integreiddio'r gwaith o greu lleoedd yn llwyddiannus wrth ddylunio strydoedd ar wahanol raddfeydd. Mae'r Canllaw Dylunio Strydoedd ar gael ar wefan y Cyngor.

2.48 Wrth wneud cais, bydd angen i chi ddangos sut mae eich cynigion yn bodloni gofynion yr amrywiaeth eang o bolisïau ac arweiniad a ddefnyddir gan y Cyngor.

3.0 Y Broses Creu Lleoedd a Dylunio

Y Broses Cyn-Ymgeisio - Gwella Cyflymder ac Ansawdd

- 3.1 Gall trafodaethau cyn-ymgeisio gyda'r Cyngor gynorthwyo wrth wella lleoedd newydd trwy nodi ac ymdrin ag unrhyw gyfleoedd a phroblemau creu lleoedd allweddol mewn cam cynnar. Mae'r adborth a ddarperir yn amlddisgyblaethol gan gynnwys mewnbynnau o gynllunio strategol, creu lleoedd, ecoleg, draenio, tirwedd, priffyrdd a meysydd gwasanaeth perthnasol eraill y Cyngor. Gall y dull adeiladol, cyfannol a chydweithredol hwn gyflymu'r broses o benderfynu ar unrhyw gais cynllunio dilynol, ac yn y pen draw bydd yn arwain at ddeilliannau gwell wrth greu lleoedd newydd.
- 3.2 Mae cwmpas cyfyngedig i wneud diwygiadau sylweddol i geisiadau cynllunio ar ôl iddynt gael eu cyflwyno a chynghorir y dylid ceisio cyngor cyn-ymgeisio cyn cyflwyno. Bydd geisiadau cynllunio a gyflwynir heb fantais cyd-drafodaethau cyn-ymgeisio'n cael eu pennu yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynir, gyda chwmpas cyfyngedig am gyd-drafodaethau/diwygiadau yn ystod y cyfnod penderfynu penodedig.
- 3.3 O ystyried yr ystyriaethau creu lleoedd cymhleth ar gyfer datblygiadau mwy o ran maint a/neu sensitif, anogir deialog cyn-ymgeisio'n gryf felly. Awgrymir mai'r ffordd orau o wneud hyn yw trwy *Cytundeb Cynllunio Perfformiad (CCP)* sy'n cynnig potensial sylweddol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system geisiadau cynllunio trwy weithio ar y cyd ac amserlen o gyfarfodydd/ gweithdai.
- 3.4 Mae gofyniad i'r holl gynlluniau datblygiad preswyl mawr (10+ o gartrefi) i ymgymryd ag ymgynghori cyn-ymgeisio statudol (sef YCY) gyda'r gymuned leol ac ymgynghoreion statudol perthnasol am gyfnod o 28 niwrnod. Argymhellir ceisio cyngor cyn-ymgeisio gan y Cyngor i ddeall pwyntiau dylunio allweddol cyn y broses hon.
- 3.5 Er mwyn rhoi cyngor cyn-ymgeisio pwrpasol, dylid cyflwyno maint digonol o wybodaeth mor fuan â phosib. Dylai maint a natur yr wybodaeth a ddarperir fod yn gymesur â graddfa'r cais, a dylai ddarparu esboniad clir o sut mae'r cynigion wedi cael eu cyfeirio gan y safle a'r cyd-destun lleol ehangach. Dymunir yr wybodaeth a ganlyn:
- Dadansoddiad o'r safle megis topograffeg, tirwedd a nodweddion bioamrywiaeth, adeileddau sydd eisoes yn bodoli, datblygiadau amgylchynol, pwyntiau mynediad
 - Dadansoddiad o gyd-destun gan gynnwys cyfleusterau lleol, llwybrau symudiad, dwyseddau a chymeriad
 - Cyfyngiadau a Chyfleoedd Cychwynnol/Canfyddiadau'r Datganiad Dylunio a Mynediad;
 - Cynseiliau neu enghreifftiau o leoedd sy'n cyfeirio'r cynnig
 - Cynllun cychwynnol y safle;
 - Manylion anheddau cychwynnol megis gweddluniau a strydluniau;
 - Strategaeth ddraenio gychwynnol/gwybodaeth effaith llifogydd.

Yr Angen am Weledigaeth a'r Dadansoddiad o'r Safle

3.6 Mae Comisiwn Dylunio Cymru (CDC) wedi cynhyrchu 'Canllawiau ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun: Pennu gwerth safle' a ddylai fod yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer holl ddylunwyr a datblygwyr ceisiadau cynllunio mawrion. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio dull strwythuredig o ddadansoddi lleoedd gan ganolbwyntio ar ddeilliannau gyda'r cwestiwn 'Pa Wahaniaeth?'

“Mae dadansoddi safle yn rhan hanfodol o'r broses gynllunio a dylunio. Nid oes unrhyw ddatblygiad yn digwydd ar ei ben ei hun – dylanwedir arno gan gyflwr y safle, ac yn ei dro, bydd yntau'n effeithio ar ei gyd-destun. Mae dadansoddi safle a chyd-destun da yn creu'r sylfaen i ddylunio da. Mae dadansoddi safle a chyd-destun da yn creu'r sylfaen i ddylunio da. “

(Canllawiau ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun: Pennu gwerth safle)

3.7 Mae lleoedd llwyddiannus wedi'u hategu gan weledigaeth arweiniol ar gyfer y lle sydd i'w greu. Gallai hyn ddeillio o ddealltwriaeth o'r safle a chyd-destun, neu fe allai fod yn seiliedig ar ymrwymiad i arloesedd. Dylai'r ysgogyddion allweddol sy'n sail i'r weledigaeth gael eu cyfeirio gan egwyddorion creu lleoedd megis:

- integreiddio coed, cynefin a thirwedd;
- chyflawni enillion bioamrywiaeth net;
- uchafu teithio llesol a hamdden;
- cyflwyno dyluniad cyfoes o ansawdd uchel;
- gweithio gyda'r dopograffeg i fwyafu golygfeydd;
- uchafu enillion solar;
- defnydd isel o ynni a/neu hunan-adeiladu;
- gwella cysylltedd lleol

3.8 Mae llawer o ardaloedd yn Abertawe sy'n amrywio'n sylweddol o ran eu cymeriad, ond mae hynny'n arddangos y rhinweddau sy'n sicrhau eu bod yn lleoedd llwyddiannus a chynaliadwy i fyw. Mae'r rhain yn amrywio o aneddiadau cymharol ddwys, trefol Uplands, y Mwmbwls, Treforys, i bentrefi amrywiol Gŵyr ac ardaloedd ymylol gwledig sydd â'u cymeriad arbennig eu hunain. Nid yw'r dull o greu lleoedd yn ceisio ailddyfeisio'r olwyn, ond yn hytrach ei nod yw ein helpu i ddeall beth sy'n gwneud i leoedd presennol 'weithio orau' i'r bobl sy'n byw ac yn treulio amser yno, ac i ddefnyddio'r rhinweddau hyn fel cynseiliau ar gyfer Byw yn yr 21^{ain} Ganrif. Er enghraifft, mae'r grid Fictoraidd yn gymdogaeth i gerddwyr a ddyluniwyd cyn dyfodiad cerbydau preifat; gellir defnyddio cysyniad y grid i fod yn sail i greu lleoedd yn yr 21^{ain} Ganrif a'u diweddarau ar gyfer gwefru cerbydau trydan a gwyrddio strydoedd.



Ffig 3.1 Gosodwyd grid Treforys yn ystod y cyfnod Sioraidd ac mae'n enghraifft lwyddiannus o gymdogaeth gerddadwy a ddyluniwyd ymhell cyn cyrhaeddodd cludiant preifat torfol.

3.9 Mae'r canlynol yn enghraifft o weledigaeth ar gyfer ehangu anheddiad defnydd cymysg:

“Bydd y datblygiad arfaethedig yn cynnig amrywiaeth o lety preswyl, defnydd cymysg a busnes sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau dinasyddion lleol ac yn creu buddion ar gyfer yr economi. Ein nod yw osgoi ymlediad gwastraffus, gyda'r bwriad o ddarparu lle mwy dwys a chynaliadwy gydag amrywiaeth o fannau cyhoeddus gan gynnwys strydoedd, sgwariau a gerddi. Y dyhead yw creu cymdogaeth gynaliadwy y gellir eu cyrchu ar droed sy'n cadw ac yn gwella'r ardal cadwraeth natur bresennol. Bydd yn dod â buddion traddodiadol y maestrefi - tŷ, gardd a phreifatrwydd, tawelwch - a buddion a rennir dwyseddau uwch gan gynnwys isadeiledd ac adnoddau cyhoeddus - ynghyd.”

Mitchel Eley Gould

(Wedi'i gymryd o'r Canllawiau ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun: Pennu gwerth safle, LIC, 2016)



Ffigur 3.2 Roedd gan enillydd Gwobr Stirling yn 2019, Goldsmith Street yn Norwich, weledigaeth glir o greu lleoedd



Ffig 3.3. Datblygiad defnydd cymysg o ansawdd uchel yw Ardal Drefol 2019 ar y Stryd Fawr sy'n ardal breswyl yn bennaf. Y sail ar gyfer y prosiect hwn oedd gweledigaeth i ddod â byw yn y ddinas yn ôl i ganol Abertawe (delweddau trwy garedigrwydd Holder Mathias Architects a Chymdeithas Coastal Housing)

Cynllun Cysyniad


- 3.10 Dylai'r weledigaeth gael ei hategu gan gynllun cysyniad ar ffurf diagramau sy'n nodi nodweddion allweddol posib y datblygiad. Fe allai ymdrin â sut mae'r datblygiad yn ymateb i'r ardal ehangach ac yn cysylltu â hi, prif lwybrau symudiad, a dwysedd y datblygiad, defnyddiau cymysg, bioamrywiaeth, seilwaith glas/gwyrdd ac egwyddorion cymeriad/pensaernïol eang. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosib i esbonio sut mae'r ymagwedd ddylunio wedi cael ei datblygu'n helpu'r camau cynllunio cyn-ymgeisio a chais llawn.
- 3.11 Dylai'r weledigaeth a'r cynllun cysyniad gyfathrebu priodoleddau'r lle sydd i'w greu. Mae hyn yn galluogi'r datblygwr a'r Cyngor i drafod sut y gellir esblygu cysyniadau o'r cyd-destun, y canllaw a'r polisi. Mae'n darparu mwy o sicrwydd ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r broses creu lleoedd.
- 3.12 Wrth greu'r weledigaeth ar gyfer lle gall ymgynghori â'r gymuned leol a rhanddeiliaid yn y cam YCY helpu sicrhau bod cynigion yn adlewyrchu dyheadau'r gymuned yn well ac yn cynnwys pobl leol yn gynharach ac yn fwy pwrpasol yn y broses ddylunio. Gan hynny, dylid ystyried bod y weledigaeth yn esblygu trwy broses cyn-ymgeisio'r ACLI yn ogystal â'r broses YCY a'r camau cais cynllunio dilynol.



Ffigur 3.4 Enghraifft o gynllun cysyniadol sy'n mynd i'r afael â chreu lleoedd ac isadeiledd gwyrdd ar gyfer rhan allweddol o safle strategol mwy. (ffynhonnell EDP a Persimmon Homes)

Cyfranogiad y Gymuned

3.13 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn pennu **cyfranogiad** fel dull gweithio sylfaenol i bawb sy'n rhan o'r cynllun ac mae angen i hyn fynd ymhellach na'r 'dull ymgynghori' presennol. Yn aml mae'r broses hon yn cael ei defnyddio gan grwpiau nad ydynt yn hollol gynrychioliadol o'r gymuned gyfan. Mae angen cynyddol am ennyn diddordeb plant a phobl ifanc a allai fynd yn ddeiliaid y lleoedd newydd hyn yn y dyfodol. Gyda thwf delweddau a grëir gan gyfrifiadur (CGI), rhith realiti a chyfryngau cymdeithasol, dylai fod yn bosib gwneud cyfranogiad yn broses lawer mwy cydweithiol a deniadol sy'n helpu siapio deilliannau pwrpasol.



Ffig 3.5 Tai'r Dyfodol a ddyluniwyd gan blant mewn ymgynghoriad digwyddiad chwarae mewn perthynas â'r ddogfen ganllaw hon

Datganiadau Dylunio a Mynediad

3.14 Mae'n rhaid i'r holl geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl mawr (10+ o gartrefi) yn ogystal â phob cynnig am anheddau newydd mewn ardaloedd cadwraeth gynnwys **Datganiad Dylunio a Mynediad (DDM)**. Dylai'r DDM esbonio a chyfiawnhau elfennau'r dylunio'r cynigion trwy:

- Ddangos y camau a gymerwyd i arfarnu cyd-destun y datblygiad;
- Darparu cyfres o gyfyngiadau a chyfleoedd y safle sy'n dylanwadu ar y cynigion dylunio (ar gynllun/lluniad o ddewis);
- Esbonio sut mae dyluniad y datblygiad hefyd yn cymryd y cyd-destun ehangach, y Cynllun Datblygu presennol a dogfennau CCA perthnasol eraill fel yr un yma i ystyriaeth.
- Amlygu sut mae'r dyluniad wedi cael ei gyfeirio gan ystyriaethau hanfodol eraill fel strategaethau SUDs a SG ar gyfer y safle.
- Ers cyhoeddi deddfwriaeth DDM, mae llawer mwy o bwyslais ar iechyd a llesiant felly dylai'r DDM esbonio hefyd sut mae'r datblygiad yn ymdrin â'r ystyriaethau trawsbynciol hyn.


3.15 Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau ar gynnwys DDM (*Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru - Ebrill 2017*). Er y dylai maint yr wybodaeth a ddarperir adlewyrchu graddfa'r cynnig a sensitifrwydd y cyd-destun, bydd angen i'r holl ddogfennau DDM 'adrodd stori' y cynnig o ddadansoddi'r safle/cyd-destun, adnabod cynseiliau, pennu gweledigaeth, profi opsiynau, datblygu dyluniad, esbonio'r cynnig terfynol. Gellir gwneud hyn gan ddefnyddio darluniadau, cynlluniau,

ffotograffau a brasluniau fel y bo'n briodol. Ar gyfer cynlluniau mwy eu maint o 50 neu fwy o gartrefi, disgwylir y bydd y DDM yn cynnwys adran sy'n esbonio sut fydd y cynnig yn creu lle iach.

[Mae'r DDM] “..... yn ddogfen a ddylai ystyried cwestiwn allweddol: ‘pam ei fod fel hynny?’ drwy egluro'r modd y mae'r dyluniad wedi ymateb i safle, cyd-destun, briff, gweledigaeth, polisi ac amcanion perthnasol dylunio da. Argymhellir y dylai'r DDM fod yn gryno ac yn cynnwys darluniau ble bynnag y bo modd er mwyn amlygu'r wybodaeth sy'n allweddol i'r dyluniad.’

(Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru - Ebrill 2017, Llywodraeth Cymru)

- 3.16 Dylai'r DDM esbonio'r lle newydd mewn ffordd strategol a gellir gwneud hyn trwy ymateb i'r 'cwestiynau allweddol' ar egwyddorion a ddisgrifir ar ddiwedd pob adran yr arweiniad hwn.



Trafnidiaeth, Teithio Llesol a Chreu Lleoedd

3.17 Mae symudiad i le a symudiad o fewn lle'n gydrannau hanfodol creu lleoedd. Gan hynny bydd angen i'r Datganiad Trafnidiaeth neu'r broses Asesu Trafnidiaeth flaenoriaethu teithio llesol a dangos bod y cynigion priffordd yn cefnogi'r agendâu creu lleoedd megis:


- strydoedd cyflymder isel a arweinir gan le:
- pwyslais ar deithio llesol ac
- ystyried materion o ran lle a achosir y tu allan i ffin y safle (er enghraifft, goblygiadau ar gyfer gwelliannau priffordd oddi ar y safle).

Cyflwyno Lleoedd

3.18 Mae CDLI Abertawe yn cydnabod ym Mholisi IO 1 'Cefnogi Rhwymedigaethau Seilwaith a Chynllunio' mai rhan hanfodol o gyflawni datblygu cynaliadwy yw sicrhau bod modd datblygu safleoedd o ran hyfywedd ariannol. I gefnogi'r polisi, mae paragraff 2.4.10 yn nodi: *'Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y costau sy'n ymwneud ag unrhyw fesurau sydd eu hangen i wneud y datblygiad yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn cael eu hystyried yn gynnar yn y broses ddatblygu (gan gynnwys caffael tir) er mwyn sicrhau y cyflawnir gwerthoedd a chostau realistig fel rhan o'r arfarniad datblygu'*. Mewn achosion lle mae datblygwyr yn mynnu bod costau eithriadol a/neu annormal sy'n gysylltiedig â chreu lleoedd a gofynion eraill yn cael effaith arwyddocaol ar hyfywedd cyflwyno'r cynnig, bydd angen i'r fath gostau gael eu nodi a'u hasesu gan bob parti perthnasol mewn modd agored a thryloyw gan ddefnyddio methodolegau asesu hyfywedd priodol. Mae rhagor o fanylion am y defnydd o fodelu a dadansoddi hyfywedd cynhwysfawr gan hyrwyddwyr safleoedd a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar gael yn www.abertawe.gov.uk/mdd

4.0 Egwyddorion Trosgynnol ar gyfer Lleoedd i Fyw

- 4.1 Yn unol â deddfwriaeth genedlaethol, polisi lleol a'r ystod o gyhoeddiadau a ddisgrifir ym Mhennod 2, mae'r Cyngor yn ystyried bod creu lleoedd yn ofyniad hanfodol er mwyn sicrhau cyflwyno lleoedd unigryw, diogel, iach a chynaliadwy ar bob graddfa. Mae'n bwysig nodi nad yw creu lleoedd yn syniad sy'n deillio o estheteg oddrychol. Yn hytrach, mae'n ymagwedd gadarn drosgynnol at y broses gynllunio, ac yn seiliedig ar egwyddorion cadarn sy'n darparu tystiolaeth lawn.
- 4.2 Gan alw ar y cyd-destun creu lleoedd cenedlaethol a lleol, gan gynnwys 7 nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a dysgu o leoedd cynaliadwy llwyddiannus perthnasol, mae'r Canllawiau hyn yn mynnu bod cynigion ar gyfer lleoedd i fyw yn gweddu i'r pedair egwyddor allweddol drosgynnol a ganlyn:



Ffigur 4.1 Creu Lleoedd yw'r broses amlddisgyblaethol gyfannol i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Lleoedd ar gyfer Pobl



4.3 Mae datblygiadau tai'n lleoedd yr rydym yn treulio'r rhan fwyaf o'n hamser ynddynt. Gan hynny, bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â dyluniad, cynllun a lleoliad cynigion datblygu preswyl yn cael cryn effaith ar ansawdd bywyd ac ymdeimlad o gymuned. Mae sicrhau lleoedd ar gyfer pobl yn hollbwysig i ddarparu cymdogaethau cydnherth, diogel a chydlynus sy'n hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Mae'n rhaid i gartrefi a lleoedd newydd fedru ymateb i anghenion newidiol megis newid yn yr hinsawdd a gweithio o gartref

Mannau Gwyrdd



4.4 Dylai pob lle newydd fod yn unigryw gydag ymdeimlad o le. Mae hyn yn cynnwys adeiladau a ddylunnir yn dda, manau a strydoedd nad ydynt wedi'u dominyddu gan gerbydau. Mae manau gwyrdd a strydoedd gwyrdd a ddylunnir yn dda'n hollbwysig i integreiddio seilwaith gwyrdd ar lefel y gymdogaeth ac ar y lefel leol, sydd â buddion o ran llesiant, bioamrywiaeth a chynaliadwyedd.

Lleoedd Cynaliadwy

4.5 Dylai datblygiadau preswyl newydd gefnogi ffyrdd o fyw sy'n fwy iach, actif a chynaliadwy yn erbyn cefndir argyfwng hinsawdd sydd wedi'i ddatgan. Mae hyn yn cynnwys gwneud y defnydd gorau a mwyaf cynaliadwy o dir mewn lleoliadau priodol, sefydlu cymunedau cymysg, creu lleoedd nad ydynt yn dibynnu ar ddefnyddio ceir preifat a hybu teithio llesol, sy'n



ffafrio cerdded a beicio fel y dull o fynd ar deithiau byrion. Mae'n golygu darparu mannau agored a strydoedd gwyrdd diogel ac amlswyddogaethol y gellir edrych allan drostynt. Yn hytrach na phwyslais cul ar adeiladau carbon isel dylai'r ffocws fod ar gymdogaethau carbon isel.

Lleoedd o Ansawdd Uchel



4.6 Ategir y canllaw dylunio hwn gan ymagwedd gyfannol at 'Creu Lleoedd' sy'n rhan annatod o'r polisi cynllunio cenedlaethol (PCC) ac yn darparu cyfle i godi safonau datblygiadau preswyl o bob maint ym mhob lleoliad. Dylai'r lle newydd greu'r cyflyrau i ddod â phobl ynghyd, mewn

ardaloedd sydd ag ymdeimlad o le a llesiant sy'n gynhwysol, cynaliadwy, ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, diogel, cydnerth yn ecolegol, yn iach ac yn ffyniannus i bawb.

4.7 Isod gellir gweld sut mae penodau amrywiol y Canllaw Dylunio Preswyl hwn yn alinio i'r 7 nod llesiant a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015):



Ffigur 4.2 Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Datblygiad Preswyl yn dangos yr integreiddio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

5.0 Modiwlau Arweiniad

Cyflwyniad

- 5.1 Mae Pennod 4 yn amlygu'r gofynion creu lle trosgynnol y dylai pob lle i fyw lynu wrthynt, gan gymryd y fframwaith polisi Cenedlaethol a Lleol perthnasol i ystyriaeth.
- 5.2 Mae'r modiwlau a ganlyn yn disgrifio gofynion creu lle ar gyfer datblygiadau preswyl sy'n gweithio o faterion strategol i lawr i faterion manwl. Mae hyn yn adlewyrchu'r dilyniant ar gyfer dylunio lleoedd llwyddiannus.
- 5.3 Mae pob modiwl (Pennod 5) yn disgrifio trosolwg byr o'r mater, wedi'i ddilyn gan arweiniad ar sut y gellir ymdrin â'r ystyriaeth i gyflawni lleoedd o ansawdd uchel i fyw sy'n gynaliadwy, yn ddiogel ac yn gynhwysol. Nid ydynt yn set o reolau ond yn hytrach yn set o egwyddorion y gellir ymdrin â nhw mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Ni ddylid darllen y gofynion creu lleoedd hyn ar wahân i'w gilydd gan fod llawer ohonynt yn gorgyffwrdd a dylid eu hystyried ar y cyd â'i gilydd. Amlygir pob gofyniad A-H yn Ffigur 5.1
- 5.4 Ar ddiwedd pob gofyniad creu lleoedd, mae cwestiynau allweddol i'w hystyried wrth baratoi cynllun. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio gan y cyngor wrth asesu cynigion. Nodir penawdau'r Datganiad Dylunio a Mynediad (DDM) perthnasol i'ch helpu i esbonio'ch cynllun.

Ffigur 5.1: Gofynion Creu Lleoedd

DEFNYDD	A. Cymdogaethau
	B. Dwysedd a defnyddiau cymysg
STRWYTHUR	C. Seilwaith Glas/Gwyrdd
	Ch. Making Connections
	D. Mannau Cyhoeddus
	Dd. Strydoedd fel lleoedd
	E. Lleoedd cynhwysol
FFURF	F. Treflun
	Ff. Ansawdd a Chymeriad
	G. Diogelwch cymunedol
	Ng Preifatrwydd ac amwynder
	H. Darparu mannau parcio



Fig 5.2 Cymdogaeth newydd Townhill yn addasu hen adeiladau coleg yn fflatiau, tai newydd ac isadeiledd gwyrdd helaeth. (ffynhonnell Cymdeithas Tai Pobl ac fe'i cynlluniwyd gan benseiri Powell Dobson)


Adran A: Cymdogaethau

Amcan:

Creu ac atgyfnerthu cymunedau cydlynus ac iach trwy gynllunio cymdogaethau sy'n integreiddio â'r cyd-destun lleol, yn cynnig dewis o lety ac yn hybu teithio llesol trwy ddarparu mynediad da trwy foddau teithio cynaliadwy i gyfleusterau cymunedol newydd a phresennol.

- A.1 Mae'n rhaid i ddatblygiadau newydd integreiddio â chymdogaethau sydd eisoes yn bodoli er mwyn creu lleoedd cynaliadwy a 'chymunedau cydlynus'. Mae cymunedau cydlynus yn cael eu creu a'u cynnal trwy ddarparu mannau i bobl ryngweithio a chyflawni gweithgareddau cymunedol, mae hyn yn cynnwys mannau hamdden, mynediad i waith, mannau chwarae a chyfleoedd i gysylltu â natur.
- A.2 Mae gan greu lleoedd rôl ganolog i chwarae trwy'r broses cynllunio a dylunio er mwyn sicrhau creu cymunedau cydlynus sy'n gynaliadwy. Cyflawnir hyn trwy hybu mannau hygyrch gyda chysylltiadau da, datblygiadau defnydd cymysg i bobl ryngweithio ac ymgymryd â gweithgareddau, gan gyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- A.3 Man cychwyn da yw archwilio'r ardal o fewn y gymdogaeth i gerddwyr, sy'n daith gerdded 15 munud (neu bellter o 1200m ar lefel y ddaear) o safle'r datblygiad. Dylid nodi'r siopau lleol, cyfleoedd cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol, mannau agored, ysgolion, rhwydweithiau cludiant cyhoeddus a llwybrau cerdded/ beicio sefydledig. Bydd gan hyn oblygiadau

o ran ffurf y datblygiad a'r potensial am ddwyseddu uwch yn y lleoliadau mwy hygyrch a wasanaethir yn well. Dylai'r nod fod i greu neu atgyfnerthu cymdogaeth 15 munud lle gall trigolion ddiwallu eu holl anghenion bob dydd ar droed neu ar feic o fewn 15 munud o'u cartref.



Cyfleusterau:

1. Parc
2. Ysgol
3. Siopau lleol
4. Tafarn
5. Gorsaf Reilffordd
6. Arosfeydd Bysus
7. Meddygfa
8. Rhandiroedd

Ffigur A. 1 Mae'r maestref Fictoraidd a osodwyd cyn dyfodiad ceir yn fodel da ar gyfer cymdogaeth fodern gerddadwy

A.4 Mae creu lleoedd cynaliadwy yn seiliedig ar y cysyniad o 'gymdogaethau y gellir eu cyrchu ar droed', lle mae amrywiaeth o gyfleusterau o fewn pellter teithio llesol, a bod y strydoedd yn ddiogel ac yn ddymunol i gerdded a beicio arnynt. Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yw sicrhau mai cerdded a beicio yw'r dewis sy'n cael ei ffafrio ar gyfer teithiau byrrach, yn enwedig teithiau bob dydd, fel yn ôl ac ymlaen o'r gweithle neu sefydliad addysg (gweler adran Ch am fanylion pellach). Yn unol â PCC, mae'n rhaid i ddatblygiadau newydd fod yn gwbl hygyrch wrth gerdded a beicio, gan ostwng dibyniaeth ar geir ac isafu'r teimlad o unigedd. Dylai datblygiadau gyfeirio at 'Fapiau Rhwydwaith Integredig' y Cyngor i sicrhau bod datblygiadau'n cael eu hintegreiddio'n llawn i gymunedau sydd eisoes yn bodoli trwy rwydweithiau teithio llesol.

A.5 Y ffordd orau o gyflawni cymdogaethau y gellir eu cyrchu ar droed yw patrwm cysylltiedig o strydoedd a mannau lle mae anghenion bob dydd o fewn pellter cerdded. Dylai pobl fedru cerdded i barc, man gwyrdd naturiol a siop papurau newydd o fewn pum munud (400m). Dylai fod gan y mwyafrif o drigolion siopau lleol, arosfa fysis, canolfan iechyd ac efallai ysgol gynradd o fewn pellter cerdded 10 munud (hyd at 800m ar dir gwastad). Mae buddion dilynol i hyn ar gyfer cydlyniant cymdeithasol, iechyd a llesiant. Mae maestrefi Fictoraidd a phentrefi traddodiadol yn aml yn enghreifftiau da o 'gymdogaethau y gellir eu cyrchu ar droed' a'r her yw ail-ddehongli graddfa'r rhain ar droed ac ar yr un pryd darparu digon o leoedd parcio.

A.6 Gall yr holl safleoedd gyfrannu at ffurfio ac atgyfnerthu cymdogaethau y gellir eu cyrchu ar droed trwy:

- Greu cysylltiadau newydd neu fwy uniongyrchol i gerddwyr rhwng cymunedau sydd eisoes yn bodoli a chyfleusterau lleol sy'n hwyluso 'cymunedau cydlynus';
- Trefnu cyfeiriad adeiladu newydd er mwyn gwneud i lwybrau presennol, a newydd deimlo'n fwy diogel ac atyniadol trwy wyladwriaeth naturiol da a chreu ffryntiadau actif.
- Darparu cyfleusterau lleol newydd, megis siop leol neu ardal chwarae mewn lleoliad canolog hygyrch.
- Cadw neu greu mannau gwyrdd naturiol a hygyrc



Ffigur A.2 Enghraifft o ddatblygiad newydd sy'n darparu siopau newydd, swyddfa bost a safle bws fel rhan o brif ardal cyhoeddus mewn lleoliad canolog cerddadwy.

A.7 Dylai datblygwyr ac ymgeiswyr gysylltu â'r Cyngor mewn cam cynnar trwy'r broses cyn-ymgeisio, er mwyn i drafodaethau gael eu cynnal ar unrhyw gapasiti sbâr mewn perthynas â seilwaith neu gyfleusterau presennol y gallai datblygiad arfaethedig eu defnyddio, neu fel arall i nodi diffygion o ran cyfleusterau cymunedol y byddai disgwyl i ddatblygiad wneud cyfraniadau atynt neu eu darparu ar y safle. Ceir rhagor o fanylion am y broses hon yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar wahân sy'n ymwneud â Rhwymedigaethau Cynllunio.

Egwyddorion

- Sicrhau yr hysbysir ac yr ymgysylltir â'r gymuned bresennol yn gynnwys yn y broses ddylunio.
- Cysylltu'r safle â'i gymdogaeth neu ardal o gymeriad er mwyn creu cymunedau cydlynus a chryfhau nodweddion neu weithgareddau cadarnhaol.
- Ymdrin ag anghenion y gymuned gyfan a chreu neu atgyfnerthu cymdogaethau sy'n cynnig dewis o fathau o dai a daliadaeth ar amrywiaeth o ddwyseddau, sicrhau mynediad da i gyfleusterau cymunedol, manau agored a moddau cludiant cynaliadwy.
- Dylunio ar gyfer cymdogaethau 15 munud lle gall trigolion ddiwallu eu hanghenion bob dydd ar droed, beic neu gludiant cyhoeddus.
- Cyflwyno neu gyfrannu at gyfleusterau lleol newydd pan fo'n briodol.

- Sicrhau bod llwybrau teithio llesol yn rhan annatod o'r dyluniad er mwyn annog cerdded a beicio o fewn y safle a thrwy'r safle er mwyn creu cymuned athraidd, cysylltiedig a chynaliadwy.
- Cynnal a gwella cysylltedd ecolegol

Cwestiynau Allweddol

- A oes gwybodaeth i ddangos y cynllun yn ei gyd-destun ehangach?
- A yw'r cynllun yn ffurfio elfen annatod o'r gymuned bresennol?
- A yw'r cynllun yn hybu llwybrau teithio llesol o fewn ac ar draws y safle?
- A yw'r datblygiad yn darparu, neu'n meddu ar fynediad da o fewn 400m i barciau, ardaloedd chwarae, siopau papur newydd ac o fewn 800m i gyfleusterau cymunedol megis ysgol, siopau, tafarndai neu gaffis?



Ffigur A.3 Enghraifft o ganolfan leol defnydd cymysg newydd fel rhan o Safle Strategol (Parc Mawr, Penllergaer). Ar safleoedd llai bydd cyfleoedd o hyd ar gyfer cyfleusterau defnydd cymysg a chymunedol. (ffynhonnell Bellway Homes a dyluniad PAD)

Adran B: Dwysedd a Defnyddiau Cymysg

Amcan:

Creu naws egniol, gyda dwyseddau datblygu priodol sy'n cefnogi amrywiaeth o wasanaethau defnydd cymysg a chluant cyhoeddus.

- B.1 Yn unol â PCC, dylai datblygiadau newydd wneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a chynyddu dwyseddau mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n hygyrch i amrywiaeth eang o bobl. Dylai'r fath leoliadau fod yn agos i lwybrau cludiant cyhoeddus, cyfleusterau lleol, mannau gwyrdd a chyfleusterau cymunedol/addysg. Dylai datblygiadau dwysedd uwch gael eu ffocysu'n agos i goridorau cludiant cyhoeddus ac yn agos i fannau trefol canolog, gyda dwyseddau is yn cael eu darparu mewn mannau eraill i gyflwyno amrywiaeth dda o lety i ddiwallu anghenion.
- B.2 Yn unol â dyheadau PCC, mae'n rhaid mabwysiadu dull a arweinir gan gynllun integredig i fwyafu'r cyfraniad at lesiant trwy greu lleoedd a chymunedau cydlynus, gwledig a threfol, a ddylunnir yn dda, sy'n gynaliadwy ac yn cynnwys dwyseddau a defnyddiau priodol.
- B.3 Y mesur dwysedd pennaf yn y DU yw anheddau yr hectar (dph). Gan ddefnyddio'r mesur hwn, y dwysedd targed cyffredinol ar gyfer datblygiadau yn Ninas a Sir Abertawe yw rhwng 30 a 40 o anheddau yr hectar (mae'r mesur dwysedd crynswth yn cynnwys strydoedd a gofodau ond nid tirlun/seilwaith strategol).

Polisi SD 2 – Egwyddorion Uwchgynllunio

- B.4 Yn achos pob datblygiad sydd â chapasiti o 100 neu fwy o gartrefi, mae Polisi SD2 yn mynnu bod yn rhaid i'r datblygiad hwnnw gyflawni dwysedd preswyl **net** ar draws y safle o 35 o gartrefi yr hectar ar y lleiaf, gyda phreswyl dwysedd uwch a defnyddiau cymysg wedi'u lleoli ar hyd coridorau cludiant cyhoeddus ac mewn ardaloedd sydd â chanolbwynt, dwyseddau is ar ymylon gwledig/sensitif, ac amrywiaeth o ddwyseddau mewn mannau eraill i ddiwallu anghenion gwahanol a chreu ardaloedd sydd â chymeriad unigryw.
- B.5 Yn gyffredinol mae dwysedd o tua 35 o anheddau yr hectar yn caniatáu amrywiaeth dda o fathau a meintiau o dai, gan wneud y defnydd gorau o'r tir ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae'n bwysig osgoi dull 'un maint i bob pwrpas' ac mae creu lleoedd yn dda'n dibynnu ar amrywiaeth o ddwyseddau a mathau o adeiladau i greu a chynnal cymuned leol gytbwys.
- B.6 Mae cyfyngiadau i'r mesur anheddau yr hectar am nad yw'n nodi'r uchafswm nifer posib o bobl sy'n byw mewn lle, gan na wahaniaethir rhwng cartrefi mawrion a bychain (e.e. tai 4 ystafell wely a fflatiau 1 ystafell wely). Gan hynny mae mesur ystafelloedd trigiadwy yr hectar (HRPH) a/neu fesur gofodau gwely yr hectar (BPH) yn rhoi argraff well o faint posib cymuned newydd a dylid ystyried y mesurau hyn ochr yn ochr â'r metrig anheddau yr hectar safonol er mwyn darparu dealltwriaeth fwy cadarn o dwyseddau byw ac amrywiaeth tai ar safleoedd.

Mae CDLI Abertawe'n pennu targed net cyffredinol o 35 o anheddau yr hectar (dph) ar gyfer 'safleoedd maestrefol' (disgwylir dwyseddau uwch mewn lleoliadau hygyrch). O ystyried y gofynion ar gyfer Seilwaith Gwyrdd, gofod hamdden a Draenio Trefol Cynaliadwy, gallai hyn ostwng y lle sydd ar gael i'w ddatblygu. Gan hynny, i gyflawni'r targed 35 dph heb deimlo'n gyfyng, mae hyn yn gofyn am gymysgedd da o feintiau anheddau gyda fflatiau mewn ardaloedd canolog/ hygyrch a thai o faint mwy, dwysedd is ar ymylon y dirwedd. Bydd hyn yn arwain at ddwyseddau uwch mewn rhai ardaloedd a dwyseddau is mewn rhai eraill gyda chyfartaledd cyffredinol o 35 o anheddau. Mae hyn hefyd yn sicrhau cymuned gymysg, lle croyw ac yn osgoi'r teimlad bod popeth o'r un fath. Mae datblygiadau o 35 o anheddau unffurf yr hectar gyda chynlluniau unffurf o dai ar wahân heb bron unrhyw ofod rhyngddynt yn annhebygol o gael eu cefnogi.



Ffigur B.1 Mae gan ddatblygiad Gwynfae, Cymdeithas Tai Coastal a Chymdeithas Tai Pobl, ddwysedd o 35 o anheddau fesul hectar gydag amrywiaeth o fathau o dai, gan gynnwys fflatiau gan hefyd greu ardaloedd Isadeiledl Gwyrdd amlswyddogaethol. (ffynhonnell - menter ar y cyd rhwng Cymdeithas Tai Coastal a Chymdeithas Tai Pobl. Fe'i dyluniwyd gan benseiri Stride Treglown.)

- B.7 Dylai'r gofyniad sylfaenol fod ar gyfer amrywiaeth o fathau a daliadaethau tai, gan alluogi dewis go iawn i ddiwallu anghenion a dymuniadau unigol dros gyfnod amser rhesymol hir. Bydd darparu amrywiaeth o ddwyseddau'n caniatáu amrywiaeth o ymatebion gwahanol i leoliadau gwahanol ac ar yr un pryd yn taro cydbwysedd rhwng y defnydd effeithlon o dir a chreu lle dymunol i fyw. Bydd disgwyl i safleoedd mwy eu maint o 100+ o gartrefi gynnwys amrywiaeth o ddwyseddau i wneud defnydd o leoliadau hygyrch a chreu ardaloedd sydd â chymeriad unigol.



Ffig B.2 Mae safleoedd o 100+ o gartrefi yn gyfle ar gyfer defnydd cymysg, prif ardaloedd â dwyseddau uwch ac ardaloedd â chymeriad unigryw. (ffynhonnell Google)

- B.8 Disgwylir i safleoedd mewn lleoliadau sy'n gymharol hygyrch ac â chysylltiadau da â gwasanaethau a chyfleusterau - megis canol dinasoedd, trefi a chymdogaethau - ddarparu ar gyfer dwysedd datblygu uwch. Mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn pennu egwyddorion creu lleoedd cenedlaethol gan gynnwys yr awgrym y dylai datblygiadau newydd mewn ardaloedd trefol anelu at ddwysedd o 50 o anheddau yr hectar o leiaf (net), gyda dwyseddau uwch mewn lleoliadau mwy canolog a hygyrch. (Dyfodol Cymru t66). Nodir y gallai'r fath ffordd o fyw dwysedd uchel yng Nghymru'r Dyfodol gefnogi llwyddiant economaidd a chymdeithasol trefi a dinasoedd yn y dyfodol, gan gynnwys cynnal cludiant a chyfleusterau cyhoeddus a chynlluniau adfywio ardaloedd canolog. Er hynny wrth gwrs, mae'r fath ddwyseddau'n galw am ffurf ar ddatblygu nad yw fel arfer yn addas i leoliadau mwy maestrefol, lled-wledig a gwledig.
- B.9 Mae adeiladu ar ddwyseddau uchel yn creu amgylchedd trefol mwy dwys ac amrywiol, sy'n mynnu safonau arbennig o uchel o ran creu lleoedd er mwyn cydbwysu'r effeithiau posib ar amwynder yn erbyn yr angen am ddatblygu mathau mwy cryno o fyw mewn rhai lleoliadau. Lle cynigir dwyseddau uwch yn y lleoliadau mwyaf canolog a hygyrch, bydd hyn fel arfer yn gofyn bod cynlluniau'n ymwneud â fflatiau'n gyfan gwbl, neu fel mwyafrif. Mae'n annhebygol y gellir cyflawni'r dwyseddau sy'n agos at 50 o anheddau yr hectar heb nifer sylweddol o fflatiau a/neu gyda nifer sylweddol o dai sydd â gerddi preifat ac ardaloedd parcio preifat, ynghyd â'r gofynion angenrheidiol ar gyfer darpariaeth SG a SuDS. Gall cynlluniau dwysedd uchel hefyd gynnwys adeiladau uchel, ond ni fydd hyn yn briodol ym mhob achos.

Mewn lleoliadau canol tref a dinas yn unol â Dyfodol Cymru a Pholisi CDLI, disgwyliwr dwysedd datblygu uwch. Dylai hyn ddarparu cartrefi ar y lloeriau uchaf gyda ffryntiadau masnachol gweithredol ar lefel y stryd ynghyd â mynedfeydd preswyl yn wynebu'r stryd sy'n ddiogel, yn groyw ac yn groesawgar.

Mae'r Datblygiad Urban Quarter gan Coastal Housing ar Stryd Fawr Abertawe yn enghraifft dda o fyw ar ddwysedd uwch mewn adeilad isel sydd â ffryntiadau stryd gweithredol, yn gwneud cyfraniad cryf at y treflun ac yn darparu gofod amwynder cadarn a diogel fel cwrt i'r trigolion.



Ffig B.2 Mae gan ddatblygiad defnydd cymysg Urban Quarter Coastal Housing ddwysedd o 135 o anheddau yr hectar gyda fflatiau uwchben ffryntiadau masnachol.

B.10 Wrth ddylunio ar gyfer byw ar ddwysedd uwch, mae'n rhaid i gynigion ystyried ystod eang o faterion ar y cyd, gan gynnwys: cymeriad yr anheddiad o'i amgylch; hygrychedd a chysylltedd cymharol y lleoliad trefol; safonau ac ansawdd mannau agored cyhoeddus y gallai fod eu hangen; safonau gofod mewnol; gofod allanol preifat; aflonyddwch sŵn posib, a materion trosgynol cyffredinol sy'n ymwneud ag ansawdd dylunio megis pellteroedd gwahanu priodol. Yn y bôn, ni ddylai cyflawni datblygiad dwysedd uwch fod ar draul cymeriad ardal nac integreiddio gofynion creu lleuedd, ac mae'n rhaid iddo beidio ag arwain at effeithiau andwyol ar iechyd a lles trigolion presennol neu drigolion y dyfodol.

B.11 Dylai'r holl safleoedd gyfrannu at gymunedau cytbwys o fewn y safle ac ar y cyd â'r ardal ehangach. Mae hyn yn golygu y disgwylir cymysgedd o ddaliadaethau preswyl gan gynnwys rhentu cymdeithasol a pherchnogaeth a rennir. Yn unol â Rhwymedigaethau Cynllunio'r CCA, dylai tai fforddiadwy gael eu hintegreiddio'n berffaith i ddatblygiadau ac nid wedi'u crynhoi mewn un rhan o'r safle.

B.12 Mae gan rai safleoedd y potensial i gyflwyno cynlluniau defnydd cymysg hefyd. Gellir disgwyl i safleoedd ar hap sy'n cael eu cynnig ar gyfer datblygiadau preswyl (nad ydynt wedi'u nodi yn y Cynllun Datblygu) o 100 o anheddau neu fwy (gweler Polisi CDLI SD 2: Egwyddorion Uwchgynllunio) gynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau dibreswyl priodol megis swyddfeydd neu gyfleusterau cymunedol er mwyn creu lle unigryw bywiog sydd o bosib yn gostwng yr angen am deithio. Pan gynigir defnyddiau dibreswyl, dylent fod yn y lleoliad mwyaf hygrych ac integreiddio'n gadarnhaol ag eiddo/adeiladau cyfagos. Dylai defnyddiau dibreswyl newydd



Ffig Bylai.4 Lle mae angen defnydd cymysg a chyfleusterau cymunedol; d'r rhain fod mewn prif ardaloedd hygrych a dealladwy fel calon y lle newydd.

megis siopau lleol, cyfleusterau cymunedol ac ysgolion ffurfio canolbwyntiau o fewn datblygiadau. Dylid cynllunio lleiniau cornel ar lwybrau allweddol mewn datblygiadau newydd yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer newid y defnydd posib yn y dyfodol.

B.13 Lle mae defnyddiau'n gymysg o fewn adeiladau, megis gofod masnachol ar y llawr gwaelod gyda phreswyl uchod, yna bydd disgwyl i ddatblygiadau greu neu wella ffyrntiadau gweithredol ar lefel y stryd sydd â lefelau uchel o dryloywder gweledol. Dylai'r fath ddatblygiadau hefyd gynnwys mynedfeydd croyw a diogel i gartrefi ar loriau uchaf.



B.14 Gall lloriau gwag ac a danddefnyddir o fewn ardal Fframwaith

Adfywio Ardal Abertawe Ganolog (SCARF) dynodedig, a lleoliadau cynaliadwy eraill, ddarparu cartrefi o safon a helpu codi poblogaeth canol y ddewis a'i hadfywio. Gall trawsnewid lloriau uchaf i ddefnydd preswyl annog defnydd gweithredol ac mae'n bwydo dyheadau SCARF ar gyfer 'bywyd canol dinas' ychwanegol. Mae defnydd preswyl uwchben defnyddiau llawr gwaelod gweithredol yn gofyn am fynedfeydd diogel a chroyw ar y llawr gwaelod. Ni ddylai effaith defnydd masnachol parhaus y llawr gwaelod megis gwasanaethu, sbwriel, awyru etc gael effaith ar amwynder byw y lloriau uchaf. Yn aml mae diffyg lle allanol preifat mewn trawsnewidiadau preswyl ar ofod masnachol segur er anfantais i lesiant deiliaid, felly dylid darparu lle preifat allanol ar gyfer unedau (gweler adran 15.7).

B.15 Mae'n rhaid i gynigion ar gyfer trawsnewidiadau preswyl sicrhau bod unrhyw ddefnydd preswyl newydd neu o ganlyniad i drawsnewid yn bodloni neu'n rhagori ar yr isafswm gofynion gofod a ddisgrifir ym modiwl 'Preifatrwydd ac Amwynder' y ddogfen hon. Dylid ymdrin ag amwynder preifat hefyd trwy falconïau neu falconïau Juliette i uchafu golau naturiol.



Ffig B.5 Rhaid i addasiadau preswyl fod â mynedfeydd ac amwynder dealladwy fel balconïau Juliette

B.16 Mae'r **Strategaeth Adeiladau Tal a**

fabwysiadwyd (2008) yn disgrifio diffiniad o adeiladu tal fel 'adeilad sydd mwy na dwywaith uchder adeiladau cyfagos'. Mae'r strategaeth a fabwysiadwyd hefyd yn nodi parthau o fewn Canol Dinas Abertawe lle mae adeiladau tal yn cael eu 'croesawu' ac ardaloedd eraill lle gellir eu 'hystyried' er mwyn cynyddu graddfa/ dwysedd y canol dinas ôl-rhyfel. Y tu allan i'r ardaloedd hyn mae'r dybiaeth gyffredinol yn erbyn adeiladau tal am resymau gweledol a seilwaith. Mae'r strategaeth hefyd yn disgrifio canllawiau ar gyfer dylunio adeiladau tal megis effaith weledol, effeithiau gwynt a micro hinsawdd y dylid eu hystyried yn ychwanegol at y Canllaw Creu Lleoedd Preswyl hwn.

B.17 Dylai cynigion ar gyfer llety myfyrwyr a adeiledir at y diben (PBSA) gael eu lleoli o fewn Ardal Abertawe Ganolog er defnyddiau amrywiol ac i ddod â phoblogaeth yn ôl i ganol y ddinas. Mae'n rhaid archwilio asesiad o argaeledd ac addasrwydd safleoedd posib o fewn y lleoliad canolog hwn cyn yr ystyrir unrhyw safleoedd eraill. Bydd llety modern a adeiledir at y diben yn darparu gofod a chyfleusterau sy'n addas i anghenion myfyrwyr gyda mynediad da i wasanaethau, cyfleusterau a chludiant cyhoeddus i adeiladau'r Brifysgol, yn unol â nodau byw yng nghanol y ddinas. Cyfeiriwch at CCA 'Tai Amlbreswyl a Llety Myfyrwyr a Adeiledir at y Diben' y Cyngor (2019).

Egwyddorion

- Fel arfer dylai datblygiadau ym maestrefi Abertawe a'r trefi allweddol gyflawni dwysedd rhwng 30 a 40 o anheddau yr hectar yn amodol ar fodloni'r holl feini prawf eraill. Y tu allan i'r lleoliadau hyn, dylai'r dwysedd ymateb i'r cyd-destun gyda dwyseddau uwch yng nghanol dinas Abertawe a dwyseddau is mewn ardaloedd gwledig.
- Anogir dwyseddau uwch mewn lleoliadau hygyrch, yn agos i ganolfannau lleol, ar gorneli pwysig ac o gwmpas mannau agored allweddol.
- Mewn datblygiadau dwysedd uwch, dylai fod digon o le amwynder preifat ac a rennir o ansawdd da megis balconïau preifat, gerddi cymunedol a mynedfeydd croesawgar.
- Pan gynigir dwyseddau uwch ni ddylent arwain at amgylchedd byw cyfyng.
- Darparu cymysgedd o fathau o dai, ffurfiau, dwyseddau, daliadaethau a lle bo'n briodol cymysgedd o ddefnyddiau i weddu i nodweddion y safle penodol, ymateb i fynediad i gyfleusterau sydd eisoes yn bodoli, cludiant a chymeriad lleol. Gan hynny, gall cymeriad y datblygiad amrywio o fewn y safle.
- Pan ddarperir tai fforddiadwy, dylai gael ei integreiddio i'r datblygiad cyffredinol mewn clystyrau bach, ac ni ddylai gael ei arwahanu'n amlwg trwy leoliad, cynllun neu ddyluniad.

- Pan ddarperir defnyddiau cymysg, dylai'r gofod llawr a'r gofynion gwasanaethu gael eu hintegreiddio'n gadarnhaol er enghraifft trwy wneud defnydd o loriau uchaf ar gyfer fflatiau, neu drwy drin ardaloedd parcio a 'sgwariau cyhoeddus' gyda choed, plannu ac arwynebau o ansawdd uchel.
- Dylid ystyried defnyddio lloriau uchaf gwag ac a danddefnyddir o fewn canol y ddinas (ac mewn ardaloedd perthnasol eraill) i ddod â phoblogaeth yn ôl i'r ardaloedd hyn a'u hadfywio. Mae'n rhaid i'r holl unedau preswyl fodloni neu ragori ar yr isafswm safonau gofod mewnol.
- Dylai llety myfyrwyr a adeiledir at y diben gael ei leoli yn Ardal Abertawe Ganolog gyda mynediad da i wasanaethau, cyfleusterau a chludiant cyhoeddus i annog dewisiadau teithio llesol.

Cwestiynau Allweddol

- A yw dwysedd y datblygiad yn briodol ar gyfer hygyrchedd, cyfleusterau, cymeriad yr ardal ac amwynder deiliaid presennol ac yn y dyfodol?
- Ar gyfer datblygiadau dwysedd uwch, a oes digon o le preifat ac amwynder a rennir?
- A oes cymysgedd o lety a daliadaethau sy'n adlewyrchu anghenion lleol?
- A oes cymysgedd o ddefnyddiau wedi'i ddarparu?
- Pan ddarperir defnyddiau cymysg, a yw'r rhain wedi'u hintegreiddio'n gadarnhaol?

Adran C: Seilwaith Glas/Gwyrdd

Amcan:

Cynnal a gwella nodweddion tirwedd, bioamrywiaeth ac ecosystem presennol a mwyafu cyfleoedd ar gyfer creu lleoedd a arweinir gan seilwaith gwyrdd ar gyfer pobl a natur.

- C.1 Mae amgylchedd naturiol Abertawe a'i rhwydwaith seilwaith gwyrdd strategol yn darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol y mae'n ddyletswydd statudol ar y cyngor i'w cynnal a'u gwella. Dylai byw gyda natur fod yn thema allweddol yr holl ddatblygiadau newydd trwy ymagwedd a arweinir gan seilwaith gwyrdd at greu lleoedd.
- C.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cydnabod bod datblygu seilwaith gwyrdd yn ffordd bwysig i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd adran 6 a sicrhau cymunedau cydnerth ac iach. Mae PCC yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio Seilwaith Gwyrdd ar bob graddfa (6.2.1) y gellir ymdrin ag ef mewn ffordd gadarnhaol mewn ffordd hierarchaidd fel a ddangosir yn ffigur 8.1 a dylai ffurfio rhan o'r ymagwedd gyffredinol a arweinir gan seilwaith gwyrdd at greu lleoedd. Seilwaith glas/gwyrdd yw'r integreiddiad rhesymegol o SUDs/ dŵr ac ecoleg/tirwedd.



Ffig C.1 Mae Isadeiledd Gwyrdd yn amlswyddogaethol (ffynhonnell CCA Bioamrywiaeth a Datblygiad)

- **Graddfa'r Dirwedd** – mae hyn yn cynnwys cynefinoedd argadwedig a nodweddion tirlun ynghyd ag ymylon heb eu datblygu, a chynnal a gwella coridorau cysylltedd cynefinoedd strategol
- **Graddfa'r Gymdogaeth** – mae hyn yn cynnwys coridorau gwyrdd o fewn safleoedd parciau newydd, ardaloedd bywyd gwylt, rhandiroedd, cyfleoedd chwarae
- **Graddfa leol** – mae hyn yn cynnwys coed stryd, perthi, ymylon wedi'u plannu a choridorau draenio trefol cynaliadwy, dolydd blodau gwylt
- **Graddfa'r Iain** – mae hyn yn cynnwys ffiniau perthi, gerddi glaw, plannu bioamrywiol, waliau/toeon gwyrdd



Ffig C.2 Mae Creu Lleoedd sy'n cael ei arwain gan Isadeiledd Gwyrdd yn cynnwys cadw nodweddion a gwelliannau ecolegol yn yr ardaloedd cyhoeddus.

- C.3 Gan hynny dylai'r man cychwyn ar bob safle fod i weithio o fewn y cyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol sydd eisoes yn bodoli. Mae dealltwriaeth o'r ecoleg, cynefinoedd a rhywogaethau naturiol, topograffeg ac ansawdd y pridd ar safle'n hanfodol a dylid eu cymryd i ystyriaeth o'r cychwyn cyntaf. Dylai dyluniad mannau agored ymgorffori nodweddion o werth sydd eisoes yn bodoli yn ogystal â darparu cyfleoedd i greu a gwella cynefinoedd. Dylai mannau gwyrdd gael eu cysylltu â'i gilydd trwy goridorau gwyrdd i greu ymdeimlad o le o safon, hybu iechyd a llesiant a chefnogi ecosystemau amrywiol a gwydn. Mae deddfwriaeth SUDs yn mynnu y dylai dyluniad systemau Draenio Cynaliadwy gynnal a gwella bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr, yn ogystal ag amwynder. Dylid ystyried dewisiadau plannu (coed a phlannu arall) yn ofalus er mwyn cyflwyno ystod o wasanaethau ecosystem fel y bo'n briodol i gyfyngiadau'r safle (e.e. cyfleoedd i greu micro-hinsodau, cynefinoedd peillyddion a phryfed, bwyd a lloches i adar a mamaliaid bach, oeri a chysgodi o'r haul, atalfeydd

gwynt a rheoli llygredd sŵn ac aer. Bydd y broses gyfannol hon yn hollbwysig i gyflwyno seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol a chydnerth o safon, sy'n elfen allweddol o greu lleoedd i bobl ac i natur.

- C.4 Dylid darllen yr adran hon hefyd ar y cyd â'r CCA Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd ar wahân sy'n nodi'r disgwyliad y bydd yr holl goed categori A a B yn cael eu cadw a'u hintegreiddio i gynigion lle bo hynny'n bosib. Mae'r CCA hwn hefyd yn nodi meini prawf clir a thryloyw ar gyfer pennu nifer y coed newydd sydd eu hangen o ystyried y rhai y bwriedir eu tynnu ymaith. Mae hyn yn seiliedig ar liniaru colli gorchudd canopi nid nifer y coed a gollir yn unig. Disgwylir i goed newydd fod yn rhywogaethau sy'n tyfu'n fawr ar gyfer presenoldeb a chadernid ar unwaith.
- C.5 Fel a ddisgrifir yn a6 Deddf yr Amgylchedd Cymru, bydd angen buddiant net ar y Cyngor ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn i gynigion datblygu. Mae manylion llawn sut y bydd y Cyngor yn cymhwyso'r ymagwedd hon at y broses gwneud penderfyniadau cynllunio wedi'u disgrifio yn y CCA Datblygu a Bioamrywiaeth. Cynghorir ymagwedd amlddisgyblaethol yn gryf a dylai timau dylunio gysylltu mewn cam cynnar â swyddogion perthnasol y Cyngor i sicrhau y comisiynir yr adroddiadau ac arolygon technegol priodol mewn da bryd i osgoi oedi diangen i'r prosiect. Yn achos nodweddion ecolegol, argymhellir ymgysylltu â'r Tîm Cadwraeth Natur ac ymgymryd ag Arfarniad Ecolegol Cychwynnol (AEC) yn gryf i adnabod unrhyw safleoedd dan warchodaeth, cynefinoedd a/neu rywogaethau sy'n bresennol.

Seilwaith Gwyrdd

C.6 Gall Seilwaith Gwyrdd (SG) berfformio ystod eang o wasanaethau ecosystem. Gan hynny, gall integreiddio seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol o safon uchel i ddatblygiadau fod yn ffordd effeithiol o gyflawni buddion net ar gyfer cydnerthedd bioamrywiaeth a'r ecosystem ehangach. Dylai creu lleoedd fod yn seiliedig ar Strategaeth SG glir sy'n mynegi sut y cyflawnir yr ystod o elfennau sy'n hanfodol i greu lleoedd i fyw unigryw, deniadol, iach a chynaliadwy. Mae mynediad i natur a mannau gwyrdd yn rhan ganolog o'r dull hwn ac mae ganddynt fuddion sydd wedi profi eu gwerth o ran llesiant meddyliol a chorfforol.



C.7 Ffig C.3 Mae Isadeiledd Gwyrdd ar raddfa'r gymdogaeth yn gallu cynnwys parciau, ardaloedd gwanhau a nodweddion tirwedd cadwedig. (ffynhonnell EDP a Persimmon Homes)
y cyflawniadau hynnyddau adeg i lawr. I bod bynnag, gall

fod achosion pan reolir mannau naturiol orau heb fynediad i'r cyhoedd.

C.8 Ar y raddfa stryd/leol disgwylir y rheolir y SG yn gyhoeddus neu'n gynhwysfawr. Mae hyn er mwyn sicrhau cadw nodweddion SG yn fytholbarhaus ynghyd â threfnau cynnal a chadw cynhwysfawr. Nid yw'n briodol tybio y gall plannu mewn gerddi cyhoeddus ddarparu'r swyddogaeth hon. Gan hynny, disgwylir y darperir y swyddogaethau SG ar y lefel leol yn bennaf trwy goed stryd sy'n darparu coed trefol pwrpasol a phlannu stryd cydweddol o fewn y parth cyhoeddus.

C.9 Mae Adran F yn disgrifio sut mae'n ofynnol i SG gael ei integreiddio i'r rhwydwaith strydoedd megis ymylon wedi'u plannu a phrosiectau adeiladu SG. Fel synnwyr sylfaen y fawd, disgwylir y bydd gan yr holl gartrefi olygfa uniongyrchol neu letraws ar goeden yn y parth cyhoeddus i sicrhau bod SG yn cael ei integreiddio'n llawn ar draws y safle ac nad yw wedi'i gyfyngu i'r ymylon ac o fewn parciau.



Ffig C.4 Mae coed stryd sydd â lle i aeddfedu yn rhan bwysig o greu lleoedd mewn isadeiledd gwyrdd. Ffynhonnell Google

C.10 Dylai Seilwaith Gwyrdd fod yn ganolog i'r holl leoedd newydd an arweiniad yr egwyddorion a ganlyn:

- Amlswyddogaethol
- Bioamrywiol
- Wedi'i addasu i newid yn yr hinsawdd
- Iach
- Clyfar a chynaliadwy

Dylai'r rhain gael eu hystyried gan bawb sy'n cynllunio, adeiladu, plannu ac yn cynnal seilwaith gwyrdd. Trwy ddilyn yr egwyddorion hyn, mae ymyraethau SG yn mwyafu nifer a dwysedd y buddion ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Disgwylir y bydd yr holl gynigion datblygu'n cynnwys strategaeth SG ac felly mae'r 5 egwyddor hon yn ffurfio fframwaith defnyddiol i arwain arfarnu agweddau SG. Mae mwy o wybodaeth am bob egwyddor ar gael yn y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd sydd ar y gweill.

C.11 Mae ffurflen enghreifftiol o gynnwys strategaeth SG wedi'i hamlinellu ar y dudalen a ganlyn. Bydd y manylder angenrheidiol yn gymesur â graddfa'r cais. Gallai cyflwyniad syml ar fap, gyda datganiad ysgrifenedig byr, fod yn ddigon ar gyfer datblygiadau llai eu maint, ac yn achos datblygiadau mwy cymhleth sydd â tîm dylunio mwy gydag ystod ehangach o ddogfennau technegol cefnogol gallai fod angen cyflwyniad mwy cynhwysfawr i gyfathrebu'r cyfiawnhad dros y datrysiadau dylunio a gynigir.




Fig C.5 Enghraifft o gynllun strategaeth Isadeiledd Gwyrdd (ffynhonnell Solstys Brewster a Bellway Homes)

Fframwaith Strategaeth SG Enghreifftiol	
Cynllun Cyfyngiadau a Chyfleoedd SG	<p>Map i gyfathrebu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dealltwriaeth o <i>nodweddion Seilwaith Gwyrdd (SG) cynhenid y safle a'i ryng-gysylltiadau ehangach gan gynnwys topograffeg, llystyfiant, cyrsiau dŵr, coridorau symudiad ecolegol, etc.</i> • gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan y safle ar hyn o bryd • sut y gellir gwella'r rhain • cyfleoedd i gysylltu â'r rhwydwaith SG y tu allan i ffin y safle • Cyfeirio at ddogfennau tystiolaeth allweddol
Cynllun a Datganiad Ysgrifenedig Cynigion SG	<p>Map a Thestun i gyfathrebu seilwaith gwyrdd yn glir ar bob graddfa:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut mae dyluniad y safle'n ymateb i'r cyfleoedd a chyfyngiadau a nodwyd • sut mae'r cynigion yn gysylltiedig â dogfennau tystiolaeth allweddol • sut fydd y cynnig yn cynnal nodweddion presennol ac yn creu nodweddion newydd a fydd yn cyflwyno yn erbyn y 5 egwyddor SG. • Sut fydd y cynigion yn creu cysylltedd trwy goridorau gwyrdd ac integreiddio adeiladau a gofodau o fewn y safle a'r cyd-destun cysylltedd ecolegol ehangach.
Datganiad Ysgrifenedig	<p>I gyfathrebu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swyddogaethau'r SG arfaethedig • Y berthynas rhwng canfyddiadau adroddiadau ac arolwg technegol a'u dylanwad ar y SG arfaethedig • (e.e.. DDM/adroddiadau ecolegol/datganiad amgylcheddol, strategaeth dirwedd/strategaeth ddraenio/adroddiadau coedyddiaeth) • Cyfeirio at ddogfennau allweddol

Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy

C.12 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (Deddf RhLID); Mae Deddf yr Amgylchedd 2010 yn gosod gofyniad ar yr holl ddatblygiadau o fwy na 100metr sgwâr i ymgorffori draenio sy'n bodloni'r chwe safon Systemau draenio dŵr wyneb (SUDs) fandadol:

1. Cyrchfan dŵr ffo - y pwynt arllwys
2. Rheolaeth hydrologig - y gyfradd arllwys
3. Ansawdd dŵr - gwella a hidlo
4. Amwynder - manau gwyrdd amlswyddogaethol
5. Bioamrywiaeth - cyflwyno enillion net mewn bioamrywiaeth a chefnogi cydnerthedd ecosystemau (gweler y CCA bioamrywiaeth)
6. Adeiladu/ gweithredu/ cynnal a chadw - gweithrediad diogel ac effeithiol

C.13 Mae SUDs yn destun proses gydsynio ar wahân gyda'r Bwrdd Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (BCDC). Mae'n ddyletswydd ar y BCDC i fabwysiadu systemau sy'n cydymffurfio cyhyd â'u bod yn cael eu hadeiladu ac yn gweithredu'n unol â'r dyluniadau cymeradwy. Bydd hyn yn gofyn am ddarparu symiau wedi'u cymudo ar gyfer cynnal a chadw dros 60 neu 120 mlynedd gan ddibynnu ar y nodwedd.

C.14 Mae'n rhaid i SUDs gael eu dylunio'n gyfochrog â'r drefn cynllunio a pheirianneg a'u hintegreiddio i'r 'lle' newydd. Dylid esbonio'r strategaeth ddraenio yn y Datganiad Dylunio a Mynediad. Mae'r dull SUDs yn cysylltu â'r dull SG amlswyddogaethol ar bob graddfa, ymysg y rhain mae basnau gwanhau ar raddfa'r tirlun; pantiau ar raddfa'r gymdogaeth; pantiau ar raddfa'r stryd leol, gerddi glaw ar raddfa'r llain leol..



Ffig C.6 Rhaid integreiddio system Draenio Trefol Cynaliadwy i fod yn amlswyddogaethol ac yn nodwedd gadarnhaol o'r ardaloedd cyhoeddus. (ffynhonnell Stride Treglown Architects a menter ar y cyd rhwng Cymdeithas Tai Coastal a Chymdeithas Tai Pobl.)

C.15 Mae amrywiaeth o ddulliau a nodweddion SUDs sy'n caniatáu hyblygrwydd i ddylunwyr integreiddio draenio mewn ffordd gadarnhaol o fewn manau gwyrdd a nodedig. Dylai'r rhain fod yn rhan annatod o'r Strategaeth Seilwaith Glas/Gwyrdd. Yn aml bydd lleoliad ac aliniad nodweddion SUDs yn ffurfio man cychwyn ar gyfer creu lleoedd a arweinir gan SG. Mewn rhai achosion bydd angen datrys y gwrthdaro rhwng SUDs a SG mewn ffordd greadigol megis trwy ymgorffori coed stryd o fewn neu wrth ochr y system SUDs.

C.16 Llai o arwynebau caled - diben system SUDs yw ailddefnyddio, cyfleu a gwanhau dŵr wyneb o ardaloedd anathraidd. Dylai'r man cychwyn fod i ostwng y nifer o arwynebau caled er mwyn gostwng cyfaint y dŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'r system. Er enghraifft, gallai rhodfeydd parcio preifat ymgorffori pafinau athraidd neu lain ganolog o laswellt.

C.17 Rheoli'r ffynhonnell - gallai hyn gynnwys casgenni dŵr, toeon gwyrdd a waliau gwyrdd sy'n nodwedd y lle newydd. Gan fod y nodweddion hyn ar y llain nid ydynt yn cael eu mabwysiadu gan y BCDC ond byddai angen iddynt gael eu cadw a'u cynnal yn fytholbarhaus er mwyn rheoli'r lefelau dŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'r system SUDs.



Ffig C.7 Gall waliau a thoeon gwyrdd fod yn rhan o'r System Draenio Cynaliadwy fel modd o reoli ffynonellau yn ogystal â darparu system oeri, bioamrywiaeth ac a nodwedd bensaernïol (ffynhonnell *Celtic Wildflowers*)

C.18 Ffogydd cerrig - pan fydd cyflwr y ddaear yn caniatáu, gallai fod yn bosib i arllwys dŵr i mewn i'r ddaear. Pan nad yw'r ddaear yn addas ar gyfer ffogydd cerrig, mae angen system SUDs i aildefnyddio dŵr wyneb a'i gyfleu i bwynt arllwys a reolir addas.

C.19 Gardd law/ basn bio-gadw – fel arfer mae yn ardal wanhau suddedig wedi'i phlannu. Mae gerddi glaw fel arfer ar y llain tra y gall bio-gadw fod yn nodweddion mwy o fewn y parth cyhoeddus, yn aml wrth ochr y stryd gyda choed wedi'u plannu. Am lawer o'r flwyddyn bydd y rhain yn sych a byddant yn llenwi pan fydd yn glawio i ddal dŵr wyneb yn ôl yn agos i'r ffynhonnell. Yna gellir defnyddio'r dŵr i ddyfrhau'r plannu gyda gorlif i mewn i'r nodwedd SUDs nesaf.



Ffig C.8 Dylai gerddi glaw fod yn rhan o'r systemau Draenio Trefol Cynaliadwy yn agos at y ffynhonnell yn aml fel tu blaenau tai (www.Citu.org)

C.20 Pant – dyma sianel agored gul (oddeutu 2m ei led) sy'n casglu ac yn cyfleu dŵr wyneb ar draws y safle. Gellir rhedeg pantiau trwy fannau agored neu gallent ddilyn strydoedd fel 'ymyl



Ffig C.9 Bydd pantiau yn aml yn rhedeg ochr yn ochr â strydoedd ac efallai y bydd angen eu dylunio ochr yn ochr â choed stryd


suddedig' i ganiatáu mynediad cynnal a chadw. Gellir plannu pantiau gyda llystyfiant sy'n addas i lefelau dŵr isel er mwyn iddynt fod yn amlswyddogaethol ar gyfer SG. Mae'r llystyfiant hwn yn helpu gwella ansawdd y dŵr hefyd. Ni ellir plannu coed mewn pantiau gan y byddant yn rhwystro'r llif yn y pen draw ond gellir plannu nhw ar ymylon uchaf pantiau mewn ardaloedd tirwedd cyfagos. Mae'n debygol y bydd pantiau ar ymyl strydoedd yn mynd yn nodwedd SG allweddol datblygiadau preswyl newydd a bydd yr holl drigolion yn elwa o'r SG hwn ar lefel y stryd leol. Gallai'r angen i redeg pantiau sy'n dilyn cyfuchliniau draenio ddylanwadu ar leoliad strydoedd ar safle a dylid cydbwysu hyn yn erbyn llwybrau symudiad. Gellir pontio pantiau dros adrannau byr iawn ar gyfer croesfannau cerddwyr, mynediad parcio/rhodfa ond yn bennaf dylent fod yn sianel agored wedi'i phlannu.

C.21 Basn gwanhau – gan ddibynnu ar faint y safle, yn gyffredinol bydd angen un eu fwy o fasnau gwanhau ar y pwynt(iau) isaf. Y diben yw dal dŵr wyneb yn ôl ac arllwys ar gyfradd 'maes gwyrdd' gytunedig i mewn i gwrs dŵr. Dylai basnau gwanhau fod yn nodweddion SG cyhoeddus megis ardaloedd dōl gwlypdir hygyrch neu byllau bioamrywiol diogel i gerdded o gwmpas (mae angen llwybr y perimedr ar gyfer cerbydau cynnal a cadw o bryd i'w gilydd hefyd). Dylai'r basnau hyn gael eu hintegreiddio'n gadarnhaol i'r dirwedd ac mae tirlurfiau artiffisial gyda chloddiau dwfn yn annhebygol o gael eu cefnogi. Mae'n bosib y bydd angen basnau gwanhau ar safleoedd mwy fel nodweddion tirwedd llai yn hytrach nag un mawr unigol ar ddiwedd y system.



Ffig C.10 Rhaid i systemau Draenio Trefol Cynaliadwy gael eu hintegreiddio'n gadarnhaol i greu lleoedd yn yr ardaloedd cyhoeddus

C.22 Pafinau Athraidd - dyma arwyneb gwaith blociau gyda bylchau i ddŵr wyneb dreiddio drwyddo ynghyd â matrices dal dŵr islaw. Dylid manylu hyn trwy ddull seiliedig ar risg ar rannau syth o'r ffordd gerbydau neu ardaloedd trafniadaeth isel megis cyrtiau parcio. Mae defnyddio pafinau athraidd mewn ardaloedd trafniadaeth uchel ac/neu ardaloedd sy'n destun troadau megis corneli yn annhebygol o fod yn dderbyniol.



Ffig C.11 Gellir ymgorffori coed stryd ochr yn ochr â nodweddion SUDs o fewn adeiladau Seilwaith Gwyrdd sy'n culhau'r ffordd gerbydau. Mae hyn yn osgoi effeithio ar ddraenio ac yn caniatáu i goed aeddfedu

Egwyddorion SUDs ar gyfer datblygiadau preswyl:

- Dylunio SUDs fel nodwedd creu lleoedd integredig nad yw'n cael ei hychwanegu wedyn
- Ymgorffori gerddi glaw ym mhob eiddo pan fo'n bosib i ddal dŵr yn agosach at y ffynhonnell
- Yn gyffredinol dylai pantiau ddilyn y rhwydwaith strydoedd gan ddod â Seilwaith Gwyrdd yn agosach at bob cartref
- Gallai basnau gwanhau fod yn ddolydd sych neu byllau parhaol gyda chapasiti ychwanegol. Bydd y rhain yn ganolbwyntiau yn yr ardaloedd man agored
- Mae'n rhaid i'r holl nodweddion SUDs fod yn amlswyddogaethol gan berfformio swyddogaethau draenio ac ar yr un pryd gwella amrywiaeth a darparu amwynder ar gyfer trigolion yn ogystal â bodloni gofynion rheoli/mabwysiadu

Egwyddorion

- Dylunio ar gyfer byd gyda natur a chydbwyso cynnal a gwella bioamrywiaeth yn erbyn defnydd cynaliadwy a lleuedd i fyw.
- Cynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnerthed ecosystemau trwy integreiddio nodweddion seilwaith gwyrdd argadwedig a chreu nodweddion newydd neu well.
- Gwarchod a hybu cadwraeth tymor hir cynefinoedd gwarchodedig, rhywogaethau a safleoedd dynodedig.
- Cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 y Cyngor o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth.
- Cymhwyso'r dull ecosystemau. Integreiddio rheoli tir, dŵr, awyr ac adnoddau byw wrth ddylunio a chynllunio'r datblygiad.
- Ystyried sut mae'r datblygiad yn cyfrannu at gyflawni'r Nod Llesiant "Cymru Gydnerth" yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mwyafu cyfleoedd i gynnal a gwella rhwydweithiau seilwaith gwyrdd strategol Abertawe trwy gymhwyso ymagwedd amlddisgyblaethol at ddylunio er mwyn sicrhau y darperir buddiannau gan bob agwedd ar ddarpariaeth seilwaith gwyrdd.
- Asesu'r safle yn y cam cynharaf i gyflwyno dyluniad ymatebol sy'n dilyn y broses cam wrth gam, yn seiliedig ar ymgysylltu cynnar â swyddogion y cyngor i bennu'r dystiolaeth sydd ei hangen a sicrhau y gostyngir oedi a chost trwy gyflawni hyn ar yr amserau cywir.
- Sicrhau bod dylunio'n ymateb i wybodaeth yr arolwg safle cadarn hwnnw - gan gynnwys
 - Arolwg coedyddiaeth ar yr holl goed ar ac sy'n bargodi dros y safle, ymlediad canopïau, a gwerth bioamrywiaeth a chydnerthed ecosystemau.
 - Asesiad ecolegol o'r safle mewn cam cynnar i nodi rhywogaethau a chynefinoedd pwysig, a choridorau cysylltedd ecolegol. Cyfathrebu'r canlyniadau trwy Gynllun Cyfyngiadau a Chyfleoedd Ecolegol.
 - Cyfathrebu'n glir lleoliad cyfyngiadau a chyfleoedd ar cynigion sy'n deillio ohonynt trwy'r canlynol, fel y bo'n briodol
 - Cynllun Cyfyngiadau a Chyfleoedd Ecolegol. - Pan nodir rhywogaethau a chynefinoedd pwysig
 - Strategaeth SG, i gyfathrebu'r lleoliad a chyfiawnhau'r SG arfaethedig.

- Cymhwyso dull creu lleoedd cyfannol i:
 - Ddylunio nodweddion newydd i mewn i gynnal a gwella bioamrywiaeth, er enghraifft trwy blannu coed a blodau gwyllt brodorol neu gynyddu gwerth ecolegol system draenio cynaliadwy (SUDs).
 - Ystyried enillion bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr wrth ddylunio SUDs.
 - Sicrhau mynediad ar gyfer pawb i'r amgylchedd naturiol heb isafu gwerth yr adnodd ecolegol.
 - Sicrhau bod gan yr holl gartrefi newydd olygfa uniongyrchol neu letraws ar goed yn y parth cyhoeddus, ar gyfer buddion llesiant ac i gyflawni dull SG integredig ar draws y safle.
 - Cynnal a gwella nodweddion SG a bioamrywiaeth o werth a allai ychwanegu cymeriad at ddatblygiad, bod o werth i fywyd gwyllt ac integreiddio'r datblygiad o'r ardaloedd amgylchynol.
 - Ystyried lleoliad nodweddion SUDs i sicrhau eu bod yn hygyrch i'w mabwysiadu a'u rheoli.
 - Ystyried unrhyw ofynion rheoli a/neu fonitro parhaus
 - Sicrhau bod nodweddion SG argadwedig yn cael eu diogelu trwy gydol y broses o glirio ac adeiladu'r safle.
 - Ystyried sut mae'r ymyraethau arfaethedig yn cyflwyno gwasanaethau ecosystem a buddion y tu hwnt i'w prif swyddogaeth (h.y. dylai coed stryd a ddarperir yn bennaf er amwynder gweledol hefyd ystyried swyddogaethau SUDs ac oeri a chysgodi solar).

Cwestiynau Allweddol

- A yw cadw a darparu nodweddion ecolegol wedi cael ei ystyried gan roi ystyriaeth lawn i'r prosesau ac arweiniad a ddisgrifir yn y CCA Bioamrywiaeth?
- A yw'r datblygiad yn gwneud defnydd effeithlon o nodweddion tirwedd, ecolegol neu dopograffig y safle?
- A yw gwybodaeth ddigonol wedi cael ei darparu i roi tystiolaeth a chyfiawnhad dros leoliad nodweddion ecolegol a SG a gynigir wrth ymateb i'r dystiolaeth allweddol. (h.y. A yw Cynllun Cyfyngiadau a Chyfleoedd Ecolegol wedi cael ei baratoi? (gweler y CCA Bioamrywiaeth).
- A yw'r safle'n cynnig strategaeth SG gyfannol sy'n ymateb yn gadarnhaol i gyfyngiadau a chyfleoedd y safle er mwyn darparu rhwydwaith SG o fewn a'r tu allan i'r safle sy'n mwyafu swyddogaethau lluosog. A yw'r datblygiad yn gwella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol trwy ddarparu ardaloedd o fannau agored naturiol, coridorau bywyd gwyllt a/neu gyrsiau dŵr?
- A oes mynediad cyhoeddus da i'r amgylchedd naturiol?
- A yw mesurau rheoli a monitro yn eu lle i gynnal nodweddion argadwedig neu wedi'u creu'n fytholbarhaus (trwy gydol oes y datblygiad)? (Gweler y CCA Bioamrywiaeth a Datblygu)

Adran Ch: Creu Cysylltiadau

Amcan:

Creu cynlluniau cysylltiedig amlswyddogaethol sy'n hybu mynediad i amrywiaeth o wasanaethau, cyfleusterau, cysylltiadau cludiant ymlaen, cymdogion a chymunedau gerllaw.

Ch.1 Ystyriaeth allweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy yw cysylltu cymunedau a chymdogaethau. Mae cynllun y datblygiad hefyd yn elfen hanfodol o greu amgylcheddau byw llwyddiannus, ar gyfer pobl a natur ill dau. Mae NCT 18 yn pwysleisio y dylai strydoedd greu cymdogaethau y gellir eu cyrchu ar droed lle hybir cerdded fel y prif fodd o wneud teithiau byrrach.

“Gall cynllun a dyluniad manwl y datblygiad fod yn hollbwysig o ran darparu dewisiadau amgen go iawn i deithio mewn ceir a chyflawni ansawdd yn yr amgylchedd yn gyffredinol”

(NCT18, paragraff 5.4)


Ch.2 Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu darpariaethau i wella llesiant ein cymunedau a hybu athreiddedd trwy amrywiaeth o foddau cludiant.

“Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn agor cyfleoedd i fyny ar gyfer datblygu a threialu seilwaith cerdded a beicio mwy blaengar, a fydd yn hanfodol er mwyn i Gymru gyflawni newid sylweddol mewn lefelau teithio llesol”

(Canllaw Dylunio: Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, paragraff 1.3.1)

Ch.3 Erbyn hyn, cynlluniau amlswyddogaethol a chysylltiedig yw'r dull a ddisgwyllir, fel a nodir yn y canllawiau cenedlaethol. Mae'r buddion yn cyfnerthu ei gilydd:

- Mae'r dewis o lwybrau'n ei wneud yn hwylus ac yn ddiddorol i symud o gwmpas.
- Mae llwybrau cydlynus uniongyrchol yn cefnogi teithio llesol a chroywder.
- Mae llwybrau trwedd yn cefnogi cludiant cyhoeddus
- Maent yn ffurfio fframwaith cadarn ar gyfer creu lleoedd cysylltiedig sydd â chymeriad.
- Gall y cyffyrdd a newidiadau cyfeiriad rheolaidd helpu gostwng cyflymder cerbydau'n naturiol, gan wneud llwybrau'n fwy diogel a chyfforddus i'w defnyddio ar gyfer defnyddwyr teithio llesol.
- Mae presenoldeb llwybrau cerdded a beicio ar hyd strydoedd yn darparu gwyliadwriaeth naturiol gan wella diogelwch gwirioneddol a thybiedig yn ogystal ag annog cyfarfodydd ar hap sy'n diffinio cymunedau.
- Maent yn helpu gwneud defnydd gwell o dir trwy ddileu'r angen am ardaloedd troi cerbydau ac yn lle yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau fel parcio beiciau.
- Mae gan annog dulliau teithio mwy llesol fuddion o ran iechyd a chydlyniant cymunedol, ac mae'n lleihau'r ymdeimlad o unigedd a all fod yn broblem mewn datblygiadau tai newydd.
- Mae ymgorffori seilwaith gwyrdd (SG) i ffurfio 'coridorau gwyrdd/glas' yn caniatáu i bobl a natur deithio o fewn ac ar draws datblygiadau.



Creu Rhwydweithiau Cysylltiedig

Ch.4 Dylid creu'r rhwydwaith cysylltiedig sy'n sail i'r cysyniad cymdogaeth y gellir eu cyrchu ar droed trwy:

- Optimeiddio'r nifer o bwyntiau mynediad a llwybrau i mewn i, allan o a thrwy safle ar gyfer cerddwyr a beicwyr er mwyn sicrhau bod y rhain yn cydbwysu'r gofynion mynediad da a diogelwch cymunedol.
- Alinio llwybrau allweddol â nodweddion seilwaith gwyrdd megis perthi argadwedig.
- Integreiddio llwybrau allweddol â nodweddion SUDs a thopograffeg megis pantiau.
- Nodi, ffurfioli a gwella llinellau dymuniad sydd eisoes yn bodoli a darparu llwybrau teithio llesol a gwyrdd uniongyrchol gydag arwynebau priodol trwy safle.
- Alinio llwybrau allweddol â golygfeydd i nodweddion/adeiladau tirnod ar neu oddi ar y safle.
- Datblygu llwybrau cerdded a beicio newydd ac ymestyn rhai presennol wrth ochr nodweddion tirwedd argadwedig megis cyrsiau dŵr, perthi, grwpiau coed, etc.
- Darparu ar gyfer cysylltiadau yn y dyfodol i ddatblygiadau cyfagos a darparu cysylltiadau i rwydweithiau teithio sydd eisoes yn bodoli.
- Cyflawni llwybrau a graddiannau hygyrch sy'n rhan annatod o barth cyhoeddus sydd wedi'i ddylunio'n dda.



Ystyried y ffordd orau i'r safle gael ei gysylltu â phrif llwybrau a chyfleusterau trafndiaeth gerllaw



Mae ymateb cul-de-sac nodweddiadol yn creu datblygiad sy'n edrych y tu mewn ac yn methu ag integreiddio i'r ffurf adeiledig bresennol



Dull mwy athraidd a chroesawgar i gerddwyr sy'n integreiddio'r safle i'r patrwm strydoedd sydd eisoes yn bodoli



Mae'r patrwm strydoedd hwn wedyn yn ffurfio sail i flociau perimedr sy'n sicrhau bod yr adeiladau arfaethedig yn ffryntio ar y parth cyhoeddus ac o bosib yn cyfrannu at hyn

- Diwallu anghenion yr holl ddefnyddwyr trwy ddarparu croesfannau a reolir newydd pan fydd yn debygol y bydd llifoedd cerddwyr digonol neu gynyddol i'w cyfiawnhau.
- Creu llwybrau sy'n ddiddorol ac yn gwella llesiant cerddwyr. Gall llwybrau hir a syth gydag ychydig iawn o amrywiad fynd yn undonog, tra y gall newidiadau bychain mewn cyfeiriad a golygfa ychwanegu diddordeb a chroywder. Fodd bynnag gall gorddefnyddio amrywiad arwain at ddryswch, colli croywder a'r canfyddiad o amgylchedd anniogel.
- Darparu llwybrau sy'n ddiogel, yr edrychir drostynt yn dda ac wedi'u dylunio i isafu cuddfannau ac ardaloedd cuddiedig a allai gyfaddawdu diogelwch cerddwyr.
- Isrannu'r prif lwybrau i greu hierarchaeth o strydoedd gyda llwybrau symudiad a nodwyd rhwng cyrchfannau cyhoeddus a nifer priodol o lwybrau eilaidd sy'n deillio o'r rhain i greu dewis o lwybrau a ffurfio blociau datblygu.

Ch.5 Pan fydd y rhwydwaith o lwybrau wedi cael ei osod allan a bod pwysigrwydd pob llwybr wedi'i bennu, gall y gofodau ar hyd y llwybr gael eu dylunio (gweler 'mannau cyhoeddus'), dylid dylunio'r strydoedd fel lleoedd a gellir cynnwys amrywiaeth o ffurfiau datblygu. Dylai cysylltiadau a rhyngweithio mewn datblygiad newydd gael eu hesbonio yn eich Datganiad Dylunio a Mynediad (DDM).



Ffig D.1 Enghraifft o le newydd yn seiliedig ar strwythur strydoedd cysylltiedig, Newhall Harlow. (ffynhonnell Google Maps image capture 2021)

Creu Cysylltiadau Amlswyddogaethol/Seilwaith Gwyrdd

Ch.6 Dylai cynlluniau stryd cysylltiedig fod yn amlswyddogaethol, gan ddarparu mynediad ar gyfer natur yn ogystal â cherddwyr, beicwyr a cherbydau, trwy gael eu dylunio i ddarparu'r amrywiaeth ehangaf bosib o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys:

- Bioamrywiol: Gweithredu fel coridorau gwyrdd/glas ecolegol gyda chyfoeth o blanhigion brodorol neu lesol i beillyddion a choed/gwrychoedd i gefnogi bioamrywiaeth frodorol a chaniatáu i rywogaethau ymfudo.
- Priodol yn lleol: Wedi'u lleoli a'u dylunio i ddarparu cysylltiadau rhwng cynefinoedd / cyrchfannau amgylchynol a chyfagos.
- Amlswyddogaethol: Wedi'u dylunio i ddarparu, ar yr un pryd, amrywiaeth o fuddion, creu coridorau ecolegol, creu cynefinoedd newydd neu estynedig, darparu llwybrau fforio, llwybrau cadw'n heini, cysgod yn yr haf, secwestru carbon, SUDs (gwella ansawdd y dŵr a chipio dŵr wyneb ffo), lleihau llygredd aer etc.
- Hygyrch, atyniadol ac ansawdd uchel: Mae gan fynediad i fannau gwyrdd o safon fanteision ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol. Dylid dylunio cysylltedd i fod yn addas ac yn hygyrch i grwpiau defnyddwyr perthnasol er mwyn annog a chefnogi gweithgarwch corfforol.



Ffig D.2 Dylid integreiddio cysylltedd Isadeiledd Gwyrdd â strydoedd cysylltiedig (ffynhonnell EDP a Persimmon Homes)

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Ch.7 Wrth ystyried cysylltedd safleoedd, dylai datblygwyr asesu a yw cynigion datblygu'n effeithio ar gysylltiadau cymunedol ehangach megis Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) sefydledig. Gall y llwybrau hyn fod yn rhan bwysig o'r rhwydwaith cludiant lleol yn ogystal â darparu buddion amgylcheddol a hamdden lleol i gymunedau. Cydnabyddir

pwysigrwydd y fath lwybrau ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC—rhifyn 5) sy'n nodi y dylid ceisio mesurau i warchod a gwella'r rhwydwaith HTC. Gellir dod o hyd i gefnogaeth bellach ar gyfer gwella'r rhwydwaith yn NCT 16 a 18.

Ch.8 Pan fydd HTC i'w hymgorffori mewn cynlluniau preswyl newydd dylai'r llwybrau hyn fod yn athraidd ac yn ddiogel. Gan hynny, dylai llwybrau HTC elwa o lefelau da o wylidwriaeth naturiol o adeiladau gerllaw, bod yn uniongyrchol, wedi'u goleuo'n dda ac yn gyfleus, bod yn ddigon lled, osgoi newidiadau cyfeiriad llym a chysylltu'n rhesymegol â chyrchfannau.

Ch.9 Pan leolir datblygiad mewn ardal lle mae HTC, dylai datblygwyr geisio cyngor gan Swyddog Hawliau Tramwy y Cyngor er mwyn darganfod a oes angen dargyfeirio llwybrau i gynnwys cynigion datblygu newydd neu pan fydd cysylltiadau'n fwyaf priodol.

Arweiniad Pellach ar Cul-De-Sacs

Ch.10 Mae'r CCA Diogelwch Cymunedol a fabwysiadwyd yn cydnabod bod athreiddedd yn ystyriaeth bwysig mewn datblygiadau preswyl. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, gall natur safle a'i gyd-destun troseddu olygu nad oes unrhyw bosibiliadau i gysylltu â'r rhwydwaith symudiad ehangach, a bod dull cul-de-sac yn fwy priodol.

Ch.11 Dylai'r man cychwyn fod i gyflawni 'rhwydwaith cysylltiedig' o strydoedd yn gyntaf, gan gyfyngu'r defnydd o cul-de-sacs i rannau o safleoedd sydd wedi'u cyfyngu'n ffisegol. Er hynny, pan ellir dangos mai cul-de-sacs yw'r unig ddewis, dylent fod yn fyr ac yn syth i sicrhau gwelededd uchel i'r holl anheddau.

Dylai cul-de-sacs ddarparu cysylltiadau teithio llesol hefyd trwy ddarparu cysylltiadau cerddwyr a beicwyr yn unig a ddylunnir yn dda ac yn gellir edrych drostynt. Dylai unrhyw ardaloedd troi gael eu dylunio'n sensitif fel canolbwyntiau cyhoeddus sy'n annog clymau cymdeithasol trwy ymgorffori cyfleoedd chwarae, seddau awyr agored, plannu, etc. yn hytrach na datrysiadau peirianeg safonol. Dylai'r symudiadau troi ar gyfer dyluniadau ardal droi ansafonol gael eu hasesu gan archwiliad dadansoddi a dadansoddiad tracio.



Ffig D.3 Lle na ellir osgoi ffyrdd pengaead, dylid eu dylunio fel manau cyhoeddus anffurfiol gyda chysylltiadau cerddwyr clir, uniongyrchol y ceir digon o bobl yn edrych drostynt.

Egwyddorion

- Mwyafu dewisiadau Teithio Llesol er mwyn i bobl wneud teithiau i, o ac o fewn y datblygiad.
- Mwyafu cysylltiadau ar gyfer pobl a natur: defnyddio'r SG i strwythuro'r lle newydd.
- Gwella'r rhwydwaith symudiad presennol pan fo'n bosib, er enghraifft trwy ddarparu llwybrau newydd trwy'r safle i gyfleusterau cymunedol (megis ysgolion, parciau, siopau, etc.) a chyfleoedd cyflogaeth ar droed, beic a/neu gludiant cyhoeddus.
- Cysylltu datblygiadau newydd i'r strydoedd a llwybrau troed presennol sy'n darparu cysylltiadau pellach i gymdogaethau, canol trefi, llwybrau bysus etc. eraill
- Darparu cynlluniau sy'n seiliedig ar strydoedd a manau cysylltiedig i fwyafu cysylltiadau, darparu dewis a gwasgaru trafndiaeth.
- Dylai strydoedd a chysylltiadau arwain at rywle, bod yn syml ac yn glir, diogel, hygyrch a deniadol, darparu dewis i drigolion ac ymwelwyr ac ar yr un pryd dargyfeirio trafndiaeth drwodd.
- Dylai'r cynllun a chysylltedd y datblygiad gael eu dylunio i fod yn amlswyddogaethol, gan ddarparu cysylltedd ar gyfer pobl a natur a chysylltu i SG/manau gwyrdd sydd eisoes yn bodoli.
- Ystyried y gofynion cludiant cyhoeddus yn gynnar yn y broses ddylunio. Dylai arosfeydd bysus gael eu lleoli'n

dda, dylai fod modd edrych drostynt a dylent feddu ar gyfleusterau priodol.

- Ystyried y rhwydwaith strydoedd a manau hanesyddol mewn ardal. Gellir defnyddio rhinweddau cadarnhaol presennol fel sail i ddatblygu'r rhwydwaith strydoedd newydd.
- Yn gyffredinol dylid osgoi cul-de-sacs, ac eithrio fel rhan gyfyngedig o gynllun cysylltiedig
- Pan fydd angen ardaloedd troi, dylent gael eu hymgorffori o fewn gofodau ffocal penodol yn hytrach na dilyn safonau geometrig llym.

Cwestiynau Allweddol

- A yw'r cynllun yn integreiddio'n dda â strydoedd sydd eisoes yn bodoli a phatrymau datblygu amgylchynol?
- A yw'r cynllun yn annog 'teithio llesol' trwy lwybrau cerdded a beicio o ansawdd da, wedi'u hintegreiddio'n llawn a gydag arwynebau priodol?
- A yw'r cynllun yn cynnal a/neu'n gwella cysylltedd ecolegol?
- A yw'r datblygiad yn hwylus i symud trwyddo gyda mynediad da i wasanaethau a chyfleusterau lleol, gan gynnwys cludiant cyhoeddus?
- Pan gynigir pennau troi, ydy'r rhain wedi cael eu dylunio fel manau cyhoeddus?

Adran D: Mannau Cyhoeddus

Amcan:

Darparu amrywiaeth o fannau cyhoeddus atyniadol, hawdd eu defnyddio a diogel fel rhan o fannau cydlynus ac iach newydd.

D.1 Mae mannau cyhoeddus yn hanfodol i leoedd llwyddiannus i fyw. Maent yn cyfrannu at ansawdd bywyd, yn cefnogi ffyrdd iach o fyw, annog cydlyniant cymdeithasol, helpu ymateb i newid yn yr hinsawdd, dod â'r amgylchedd yn agosach at bobl, helpu creu ymdeimlad o le, cynorthwyo cyfeiriadu a darparu cyfleoedd chwarae ac ymlacio. Mae integreiddio mannau cyhoeddus mewn ffordd gadarnhaol yn elfen allweddol o greu lleoedd. Mae mannau cyhoeddus yn rhannau allweddol o 'Seilwaith Gwyrdd' amlswyddogaethol safle er mwyn bod yn amlswyddogaethol. Dylent fod yn groesawgar, yn gyfforddus ac wedi'u lleoli ar leoliadau hygyrch ar draws cymdogaethau. Dylent darparu ar gyfer holl elfennau'r gymuned o ardaloedd chwarae i bwyntiau gorffwys ar gyfer pobl hŷn. Gallai fod amrywiaeth o leoedd ar rai safleoedd, gan amrywio o 'sgwâr' â phafin caled ffurfiol neu fan gwyrdd wedi'i dirlunio, i ardaloedd chwarae/amwynder neu randiroedd llai ffurfiol. Fel rheol gyffredinol, dylai pob aelwyd fod o fewn taith gerdded 5 munud i fan agored.

D.2 Dylai'r man cychwyn ar bob safle fod i ddarparu mannau agored a darpariaeth chwarae ar y safle'n unol â Chanllawiau Meysydd Chwarae Cymru a gydnabyddir yn genedlaethol neu'r safonau cyfwerth yn Abertawe a'r safon

Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch (MGNH). Pan fydd mannau cyhoeddus arwyddocaol yn bodoli yn uniongyrchol gyfagos â safle, mae'n bosib y bydd modd allosod rhan o'r gofyniad gofod amwynder anffurfiol i'r ardal sydd eisoes yn bodoli ar yr amod bod yr ardal yn cael ei gwella a bod y mynediad yn uniongyrchol, diogel a chyfleus.



Ffig E.1 Dylai datblygiadau ar bob graddfa ddarparu mannau agored newydd/gwell ar gyfer lles cymunedau. (ffynhonnell EDP a Persimmon Homes)

- D.3 Mae'n rhaid ystyried integreiddio mannau agored dynodedig o'r cychwyn cyntaf yn y broses creu lleuedd. Dylai mannau cyhoeddus ac ardaloedd chwarae fod yn ganolbwyntiau yn y cynllun cyffredinol, yn rhan o'r rhwydwaith teithio llesol ac yn lleuedd adnabyddus yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'n rhaid i fannau agored beidio â bod yn ardaloedd sy'n weddill yng nghornel safle, neu wedi'u cuddio y tu ôl i ffensys cefn neu waliau ffiniol. Mae'n rhaid i anheddau ac adeiladau eraill ffryntio ar y mannau i ddarparu gwyliadwriaeth naturiol a chreu cefndir o safon.
- D.4 Mae cadw nodweddion tirlun sydd eisoes yn bodoli fel cynefinoedd bywyd gwyllt, perthi a coed o ansawdd da'n darparu mannau cychwyn ar gyfer strwythur y dirwedd a dylunio mannau agored trwy weithio gyda chymeriad a hanes safle. Dylai dyluniad mannau agored ymgorffori nodweddion o werth sydd eisoes yn bodoli yn ogystal â darparu cyfleoedd i greu cynefinoedd. Gall lleuedd newydd gael eu strwythuro gan goridorau gwyrdd y mae datblygiadau'n ffryntio arnynt i greu ymdeimlad o le o safon, hybu iechyd a llesiant a chefnogi ecosystemau amrywiol a sefydlog. Mae rhwydweithiau stryd cysylltiedig yn cynnig cyfleoedd ar gyfer mannau canolbwynt ac a ddefnyddir yn helaeth ar gyffyrdd pwysig. Gellid atgyfnerthu pwysigrwydd y mannau hyn trwy ffurf a dwysedd y datblygiad, trin arwynebau a phlannu. Mae'r ardaloedd o gwmpas y lleoliadau hygyrch hyn yn fannau rhesymegol ar gyfer defnyddiau dibreswyl, megis siopau, ysgolion, parciau a seilwaith cymunedol.
- D.5 Disgwylir y bydd safleoedd yn darparu amrywiaeth o fathau o fan agored fel rhan o ddull seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol. Ar safleoedd mawrion, fe fydd yn bwysig i ymgorffori mannau 'carreg drws' a gwyrddio strydoedd yn ychwanegol at fannau strategol; bydd hyn yn sicrhau seilwaith gwyrdd ar y lefel leol o fewn blociau datblygu nid dim ond o gwmpas yr ymylon. Dylai darparu mathau o fannau agored fod yn seiliedig ar ddull a arweinir gan dystiolaeth o nodi nodweddion safleoedd, materion yr ardal neu gyfleoedd unigryw. Bydd angen i fannau agored ddarparu swyddogaethau lluosog gan gynnwys:
- Chwarae ac ymarfer corff i genedlaethau lluosog
 - Mannau gorffwys i alluogi mynediad i bawb
 - Cynhyrchu bwyd yn lleol a llwybrau fforio
 - Hamdden a digwyddiadau Ffurfiol ac Anffurfiol
 - Ecoleg a chynefinoedd
 - Draenio cynaliadwy
 - Microhinsawdd megis cysgodi neu loches rhag y gwynt
 - Goleuo priodol
 - Taclo llygredd
 - Lleoliad y dirwedd
 - Cadw nodweddion tirwedd megis perthi a choed
 - Mannau dysgu awyr agored
 - Mannau swyddfa/cyfarfod awyr agored

- D.6 Pan fo'n bosib, dylai dyluniad mannau agored newydd a darpariaeth o fewn yr ardaloedd hyn gael ei gyfeirio gan ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid newydd. Dylid defnyddio cynnal a chadw cynaliadwy; yn hytrach na thorri gwair yn rheolaidd, dylai mannau agored gael eu rheoli yng nghyswllt cynefinoedd a bioamrywiaeth fel dolydd, gyda thorri llai mynych a thorri llwybrau fel y bo angen. Mae'n bosib y bydd angen ardaloedd ecolegol hefyd pan reolir neu gyfyngir ar fynediad i'r cyhoedd.
- D.7 Dylai hierarchaeth o gyfleoedd chwarae gael eu hintegreiddio i'r rhwydwaith o leoedd i ddarparu'r cyfle i chwarae ar gyfer pob oedran a gallu. Dylid lleoli'r cyfleoedd chwarae hyn mewn lleoliadau cyfleus, diogel, hygyrch a deniadol yr edrychir drostynt yn dda ac mewn mannau nad ydynt yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol Dylid rhoi ystyriaeth i'r mathau o fannau agored y mae eu hangen ar gyfer y datblygiad, yn ogystal â'r gymuned ehangach, gan ystyried a fydd y rhain yn fannau natur anffurfiol, ardaloedd gemau pêl, ardaloedd ar gyfer gweithgareddau ar olwynion (e.e. BMX, sglefyrddio), llwybrau cadw'n heini neu fannau chwarae wedi'u cyfarparu.

- D.8 Ni ddylai ymagweddau at ardaloedd chwarae gael eu cyfyngu dim ond i ddefnyddio cyfarpar chwarae safonau ar gyfer categorïau oedran ac isafu risgiau. Dylid ymgorffori cynigion ar gyfer chwarae naturiol/anffurfiol a hamdden/chwarae i genedlaethau lluosog yn ychwanegol at ddarpariaeth chwarae ffurfiol. Dylid ceisio arweiniad ar gynnwys y fath elfennau gan swyddogion chwarae'r Cyngor. Pan gynigir mannau chwarae wedi'u cyfarparu, mae'n bosib na fydd angen ffensys (os yw'r ardal chwarae wedi'i chynnwys o fewn parc mwy sydd â ffensys er enghraifft). Gallai fod dulliau mwy boddhaol eraill o greu ffiniau sy'n ychwanegu at werth chwarae'r lle a rhoi teimlad mwy dymunol i'w ddefnyddio iddo. Mae'r union feini prawf ar gyfer darpariaeth chwarae wedi'u disgrifio yn y CCA Mannau Agored.



Ffig E.2 Dylai'r ddarpariaeth chwarae fod wrth wraidd y lle newydd. Dylai hyn fod ar gyfer pob oedran a gallu a gall gynnwys cynnwys risg, chwarae nad yw'n rhagnodol, nodwedd naturiol, etc. (ffynhonnell Play England Publication: Managing Risk in Play Provision: Implementation guide and WWW.Change.org)



Ffig E.3 Dylai rhandiroedd a pherllannau cymunedol fod yn rhan o'r strategaeth Isadeiledd Gwyrdd (ffynhonnell Abertawe Gynaliadwy)

D.9 Fel rhan o ddull seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol, mae potensial i integreiddio cyfleoedd cynhyrchu bwyd yn lleol ar ffurf darparu rhandiroedd, gerddi cymunedol, perllannau trefol a llwybrau fforio. Gall cynhyrchu bwyd yn lleol helpu creu dinasoedd mwy iach yn unol â

dyheadau cenedlaethol a lleol a gall helpu dod â chymunedau ynghyd. Gall hyn ddarparu dewis i drigolion o ran ategu gerddi bach hefyd. Gan hynny, dylai datblygwyr ystyried ymgorffori manau tyfu yn eu cynigion a dylent fabwysiadu ymagweddau partneriaeth gymunedol at reoli'r ardaloedd hyn.

D.10 Bydd manau agored yn ymgorffori systemau draenio cynaliadwy (SUDs) mandadol sy'n rheoli dŵr wyneb ffo yng nghyd-destun glaw cynyddol a digwyddiadau storm mwy mynych trwy nodweddion tirwedd integredig. Y diben cyffredinol yw gostwng dŵr wyneb cyn arllwys i mewn i naill ai cwrs dŵr neu garthffos ar gyfraddau cyn-ddatblygu. Gall y nodweddion draenio gynnwys pantiau, gerddi glaw a lagwnau

llifogydd fel rhan o'r seilwaith gwyrdd gyda swyddogaethau eraill megis hamdden/ ecoleg. Dylid integreiddio SUDs yn ddi-dor i fannau agored ac mewn llawer o achosion gallant ddarparu Seilwaith Glas/Gwyrdd hefyd megis canolbwyntiau a chynefinoedd ecolegol yn ogystal â gwasanaethau ecosystem eraill. Bydd y nodweddion hyn yn cael eu mabwysiadu a'u cynnal a chadw gan y Cyngor trwy'r Bwrdd Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (BCDC).



Ffig E.4 Dylai nodweddion systemau Draenio Trefol Cynaliadwy gael eu hintegreiddio'n dda i ardaloedd manau agored fel prif ardaloedd (ffynhonnell WWT ar-lein)

D.11 Bydd y gofynion SUDs yn creu mwy o fannau agored ar draws datblygiadau newydd, ac ar yr un pryd yn gostwng yr ardaloedd all gael eu datblygu. Er enghraifft, mae'r holl strydoedd yn debygol o ymgorffori pantiau i gyfleu dŵr wyneb, gan greu cymhareb stryd lawer mwy meddal ac eang. Gall ymgorffori SUDs fynnu i weddill y datblygiad gynnwys y dwyseddau angenrheidiol heb fynd yn gyfyng. Er bod y broses gymeradwyo BCDC ar wahân i gynllunio, mae'r

nodweddion draenio'n elfen allweddol o greu lleoedd ac felly dylid ystyried SUDs mewn cam cynnar iawn o'r broses ddylunio i ffurfio elfen gadarnhaol o ddatblygiad, ni ellir eu gosod wedyn.



Ffig E.5 Efallai y bydd angen i nodweddion systemau Draenio Trefol Cynaliadwy yn y strydlun fod ochr yn ochr â choed stryd

D.12 Gall mannau agored a phlannu helpu integreiddio'r datblygiad i leoliad y dirwedd hefyd. Nid yw byth yn dderbyniol i geisio 'cuddio' datblygiadau gyda rhesi o goed, yn hytrach dylid ceisio perthynas dirwedd gadarnhaol gydag ymylon adeiladau'n wynebu allan, dwysedd is ar ymylon a phlanoedd i feddalu'r trawsnewidiad rhwng y ffurf adeiledig a'r cefn gwlad / tirwedd. Mae'n bwysig tu hwnt hefyd i ddewis rhywogaethau plannu na fyddant yn dianc i'r cefn gwlad ehangach a mynd yn ymwithiol.

D.13 Ar safleoedd mwy (dros 100 o gartrefi) mae'n bwysig y gweithredir y mannau agored fesul cam wrth i'r cartrefi newydd gael eu cwblhau. Gan hynny, bydd angen mecanweithiau plannu megis cytundebau Adran 106 i bennu ysgogyddion pendant ar gyfer y broses uwchgynllunio i sicrhau y crëir y mannau agored wrth i'r gymuned ddatblygu yn hytrach na'u gadael tan y diwedd. Dylai'r holl fannau cyhoeddus nad ydynt yn cael eu cynnig i gael eu mabwysiadu fod yn destun trefn cynnal a chadw sydd i'w sicrhau trwy amod cynllunio neu ei sefydlu trwy Gytundeb Adran 106.



Ffig E.6 Dylai fod gan lleoedd newydd ymylon sy'n wynebu tuag allan a dylid eu dylunio fel nodweddion i'w gweld yn y dirwedd. (ffynhonnell PAD)

Egwyddorion

- Nodi lleoliadau a nodweddion a werthfawrogir gan y gymuned bresennol ac integreiddio'r rhain i fannau cyhoeddus newydd a gwell.
- Cynnal, gwella a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt o fewn mannau agored.
- Sicrhau y dylunnir mannau cyhoeddus gan ddefnyddio'r dull 'seilwaith gwyrdd' amlswyddogaethol ac esbonio hyn yn y Datganiad Dylunio a Mynediad.
- Lleoli mannau cyhoeddus allweddol mewn lleoliadau hygyrch a gweladwy iawn lle y gellir cydleoli nhw gydag adeiladau cymunedol.
- Cysylltu rhwydweithiau mannau agored ag elfennau tirlun sydd wedi'u plannu'n briodol (megis cymysgeddau coed, perthi a dolydd addas) gan ddarparu cysylltiadau coridor gwyrdd â safleoedd eraill a'r dirwedd ehangach.
- Sicrhau bod mannau cyhoeddus yn hygyrch i bawb a'u bod yn darparu ar gyfer pob elfen o'r gymuned, o blant i bobl hŷn.
- Sicrhau bod darpariaeth mannau agored o fewn taith gerdded 5 munud o'r mwyafrif o gartrefi (sydd fel arfer yn cyfateb i 400m). Dylai mannau agored strategol a chyfleoedd hamdden/ chwarae fod yn hygyrch trwy rwydweithiau teithio llesol eilaidd.
- Creu cyrtiau gwyrdd diogel wedi'u cysgodi i ddarparu mannau gwerddon fach/cyfarfod fel rhan o ddatblygiadau preswyl mewn lleoliadau trefol.
- Sicrhau bod dyluniad mannau a pherthynas ag adeiladau cyfagos yn ystyried ffactorau microhinsawdd, megis effeithiau cysgodi a thwneli gwynt.
- Integreiddio gerddi cymunedol ac ardaloedd ar gyfer cynhyrchu bwyd cymunedol mewn mannau gwyrdd newydd, a allai gynnwys gerddi fertigol mewn lleoliadau trefol.
- Sicrhau bod SUDs yn cael eu hintegreiddio'n gadarnhaol fel nodweddion tirwedd SG amlswyddogaethol mewn cam cynnar i sicrhau darpariaeth mannau agored deniadol.
- Sicrhau bod cysylltiad cadarnhaol rhwng pob man agored a'r adeiladau amgylchynol a'u bod yn edrych drosto'n dda.
- Creu canolbwyntiau o nodweddion tirwedd presennol neu newydd neu gelf gyhoeddus.
- Sicrhau bod mannau agored yn cael eu darparu ar safleoedd datblygu dwysedd uchel neu'n gyfagos iddynt er mwyn darparu mannau amwynder i'r holl drigolion.
- Darparu mannau agored llai a choed stryd yma ac acw yng nghynllun y safle i greu diddordeb gweledol a chanolbwyntiau lleol (peidiwch â darparu gwyrddni ar yr ymylon yn unig).

- Dylai'r holl ddatblygiadau gyda thai i deuluoedd ddarparu ar gyfer cyfleoedd chwarae plant (neu gael mynediad da iddynt). Mae hyn yn debygol o fod ar ffurf mannau chwarae/ cyfleoedd anffurfiol ar y safle neu drwy gyfraniad gan y datblygwr at feysydd chwarae ffurfiol presennol sydd wedi'u lleoli oddi ar y safle o fewn pellter cerdded byr. Mae darpariaeth chwarae ffurfiol hefyd yn debygol o gael ei darparu ar y safle, fel man cychwyn. Bydd ymgynghoriad cyn ymgeisio yn egluro graddau'r ddarpariaeth leol a'r angen o'r cychwyn cyntaf.
- Gwneud yn siŵr bod pob elfen o'r mannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd wedi'u cynllunio'n gydlynus i ddarparu cysondeb ac ansawdd uchel. Bydd cydlynu dodrefn stryd gan gynnwys goleuadau, seddi, biniau, arwyddion, cledrau, bolardiau ac ati yn hanfodol i lwyddiant y cynllun.
- Sicrhau diffiniad clir rhwng ardaloedd o fannau cyhoeddus a phreifat.
- Sicrhau bod mannau cyhoeddus yn cael eu creu wrth i gartrefi gael eu hadeiladu, fesul cam, yn hytrach na chael eu gadael tan y diwedd.
- Cynnal, gwella a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt a gwasanaethau ecosystem o fewn mannau agored.
- Sicrhau bod cynllun cynnal a chadw tymor hir yn cael ei roi ar waith ar gyfer mannau cyhoeddus nas mabwysiedir.

Cwestiynau Allweddol

- A yw mannau cyhoeddus yn rhan annatod o'r datblygiad ac a oes ganddynt ddiben?
- A yw'r mannau cyhoeddus wedi'u cynllunio fel seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol?
- A yw'r man agored wedi'i gynllunio'n dda, yn gadarn ac wedi'i wella drwy ymgorffori seddau, offer chwarae neu gelf gyhoeddus?
- A oes gwyrddni ar draws y safle, nid ar yr ymylon yn unig?
- A yw mannau agored yn hygyrch i bawb, a edrychir drostynt ac a ydynt yn teimlo'n ddiogel?
- A oes darpariaeth chwarae addas i blant ar y safle, neu a oes mynediad da i ardal chwarae sy'n bodoli eisoes gerllaw?
- A ddarperir trosglwyddiadau digonol rhwng mannau cyhoeddus a phreifat drwy ddefnyddio tirlunio caled a meddal?
- A yw'r man cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd i gynnal a gwella bioamrywiaeth?
- A oes trefniadau rheoli addas ar waith?

Adran Dd: Strydoedd fel Lleoedd

Amcan:

Creu strydoedd gwyrdd addas i bobl sy'n caniatáu mynediad angenrheidiol i gerbydau tra'n blaenoriaethu pobl.

Dd.1 Mae strydoedd gwyrdd sydd wedi'u dylunio'n dda ac yn rhoi pobl yn gyntaf yn allweddol i greu mannau cynaliadwy a chael mwy o bobl i gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i strydoedd newydd fod yn llesol ac yn fannau cymdeithasol yn hytrach nag ar gyfer cerbydau'n unig.


“Gydag ymarfer corff a chyswllt cymdeithasol mor hanfodol i'n hiechyd a'n lles, mae'r pandemig wedi atgyfnerthu'r angen am strydoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae hyn yn sail i'r polisi 'strydoedd gweithredol a chymdeithasol' ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gefnogir gan Lawlyfr Strydoedd 6 a'i ganllaw cydymaith Llawlyfr Strydoedd 27. Noda Polisi Cynllunio Cymru yn glir y dylai dyluniad strydoedd fod yn seiliedig ar egwyddorion dylunio trefol ac nid y dull confensiynol a arweinir gan beirianeg ym Mwletin Dylunio 32 sydd bellach wedi'i ddisodli”

(Adeiladu Lleoedd Gwell, T17)



Ffig Dd.1 Rhaid i leoedd newydd sicrhau tu blaenau stryd gweithredol. Nid yw ffensys sy'n cefnu ar strydoedd yn dderbyniol.

Dd.2 Dylid dylunio pob cynllun yn unol â'r gyfres o ddogfennau Llawlyfr Strydoedd sy'n pwysleisio bod strydoedd yn lleoedd i bobl yn bennaf. Mae bywyd cymdeithasol wedi'i ffocysu ar strydoedd – maent yn lleoedd ar gyfer cwrdd, chwarae ac ymlacio. Gan hynny, dylid dylunio strydoedd fel lleoedd mewn cymdogaethau cyflymder isel gyda blaenoriaeth teithio llesol lle nad yw symudiadau cerbydau'n dominyddu. Mae strydoedd hefyd yn elfen bwysig o'r strategaeth seilwaith gwyrdd ar y lefel leol. Ni fydd strydoedd heb blannu yn dderbyniol.



Ffigur Dd.2 Yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ar gyfer Cynllunio (ffynhonnell Polisi Cynllunio Cymru)

Dd.3 Er mwyn sicrhau strydoedd gwyrdd sy'n rhoi cerddwyr yn gyntaf, dylai'r pwyslais fod ar y cymeriad a ddymunir ar gyfer y stryd/lle yn hytrach na swyddogaeth briffordd. Nid yw ymylon glaswellt yn unig yn nodwedd stryd werdd ddigonol. Dylid ystyried maint yr adeiladau cyfagos, i ba raddau y mae cerbydau'n dominyddu'r strydlun, a gofynion bioamrywiaeth i ddylunio strydoedd gwyrdd pwrpasol, a fydd fel arfer yn gofyn am goed stryd gyda bylchau priodol rhyngddynt, wedi'u hategu gan blannu lefel isel addas.

Dd.4 Disgwylir y bydd pob stryd yn rhan o rwydwaith cysylltiedig ac i sicrhau hierarchaeth/croywder dylid dosbarthu'r strydoedd fel a ganlyn:

1. Rhodfeydd/Strydoedd Meingefn sy'n darparu'r prif fframwaith symud, teithio llesol a darpariaeth cludiant cyhoeddus. Dylai'r rhain gael eu gwneud yn groyw gan nifer cynyddol o ledau 'ffryntiad i ffryntiad' sy'n cynnwys lle ar gyfer ymylon gyda choed ar y ddwy ochr ac adeiladau talach i wahaniaethu o strydoedd cyffredinol.
2. Strydoedd cynradd sy'n darparu llwybrau symudiad lleol allweddol gyda chyflymder dylunio uchaf o 20mya gan gynnwys ymylon wedi'u plannu gyda choed stryd i'r ddwy ochr ynghyd â pharcio ar y stryd lle y bo'n briodol.
3. Strydoedd eilaidd gyda chyflymder dylunio o 20mya neu lai gan gynnwys ymylon ar un ochr gyda choed stryd a pharcio ar y stryd lle y bo'n briodol.
4. Dylai Heolydd Pengaead/Lonydd sy'n darparu amgylcheddau mynediad yn unig gyda chyflymder dylunio o 10mya gynnwys gwyrddni achlysurol fel prosiectau SG gyda choed.



Nodweddion Cyffredin Rhodfeydd/Strydoedd Meingefn:

Adeiladau talach heb ffiniau blaen neu braidd dim ffin flaen, ymylon ar y ddwy ochr â choed yn cael eu plannu ar bellterau rheolaidd â chilfachau parcio ar y stryd rhyngddynt, llwybr defnydd a rennir Teithio Llesol lletach, hyd at 30 mya lle mae llawer iawn o draffig.



Nodweddion Cyffredin Prif Strydoedd a Strydoedd Eilradd:

Tai 2-3 lawr â gerddi blaen, chyflymder dylunio hyd at 20 mya. Ymylon a choed ar y ddwy ochr ar brif strydoedd. Ymylon a choed stryd ar un safle ar un ochr ar strydoedd eilradd.



Nodweddion Cyffredin Lonydd/Strydoedd Pengaead:

Unedau llai heb ffiniau blaen, dyluniad anffurfiol â darnau o'r cwrbyn yn codi'n isel i alluogi pobl i gerdded ar y ffordd gerbydau gyda rhai coed a datblygiadau Isadeiledd Gwyrdd. Swm isel o draffig a chyflymderau isel.

Rhannau stryd gan PAD ar gyfer Bellway Homes

Dd.5 Unwaith y bydd hierarchaeth gysylltiedig o strydoedd wedi'i sefydlu a bod y prif fannau wedi'u nodi, yna dylid pennu'r cymeriad a ddymunir ar gyfer pob stryd. Yn dilyn hyn, dylid ymgorffori unrhyw ofynion priffordd angenrheidiol gan gymryd gofal nad ydynt yn dominyddu. Fel y nodir yn PCC, ni ystyrir bod cynlluniau neu ddyluniadau sydd wedi'u gorbeiriannu'n neu eu harwain gan ofynion priffordd yn dderbyniol. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o strydoedd newydd yn cael eu mabwysiadu; mae hyn yn cynnwys dyluniadau stryd ansafonol, y mae'n rhaid iddynt fod yn nodedig, yn ddiogel, yn hygyrch ac yn gadarn. Er mwyn mabwysiadu strydoedd ansafonol bydd angen i'r tîm dylunio ymgymryd â:

- Phroses archwilio diogelwch ffyrdd Cam 1
- Dadansoddi tracio er mwyn sicrhau mynediad i gerbydau gwasanaeth
- Blaenwiriadau gwelededd yn seiliedig ar gyflymder dylunio
- Proses 'archwiliad o safon' fel a nodir yn y Llawlyfr Strydoedd.

Dd.6 Mae enghreifftiau o ddyluniadau stryd ansafonol derbyniol yn Abertawe yn cynnwys lonydd gwyrdd gyda SG a phlannu coed helaeth heb unrhyw droedffyrdd diffiniedig; neu barcio helaeth ar y stryd i drigolion sydd wedi'u meddalu gan SG a phlannu coed. Mae'r dulliau hyn yn unigryw ac maent wedi bod yn destun y profion a amlinellir yn y paragraff uchod.



Ffig Dd.4 Mae coed sydd â lle i aeddfedu yn elfen allweddol o strydoedd gweithredol a chymdeithasol (ffynhonnell Google Streetview)




Ffig Dd.5 Enghraifft o ddyluniad stryd derbyniol ansafonol (ffynhonnell penseiri Roberts Limbrick, gwasanaethau prosiect Jehu a Chymdeithas Tai Coastal)

Dd.7 Mae'n bwysig nad yw'r broses fabwysiadu S38 ddilynol yn datod y strydoedd a arweinir gan le y cytunwyd arnynt yn y cam cynllunio. Mae'r Cyngor wedi paratoi Canllaw Dylunio Strydoedd sy'n nodi safonau dylunio stryd derbyniol yn ogystal â'r broses ar gyfer profi a mabwysiadu dyluniadau stryd ansafonol a arweinir gan le.

Dd.8 Bydd angen i strydoedd cysylltiedig hefyd gynnwys gofynion Draenio Cynaliadwy (SUDs) megis pantiau i gasglu draeniad o briffyrdd. Mae'n rhaid peidio â gor-beiriannu'r nodweddion SUDs hyn ac maent yn gyfleoedd i integreiddio SG i'r strydlun a darparu cymeriad. Pan gynigir nodweddion draenio fel pantiau ochr yn ochr â ffyrdd cerbydau, dylai'r rhain hefyd ymdrin â sut/ble y mae cerddwyr yn croesi'r stryd, gan ddilyn llinellau dymuniad.

Dd.9 Bydd y gofyniad am Seilwaith Gwyrdd (SG) ar bob graddfa a gofynion SUDs mandadol yn arwain at strydoedd llawer gwyrddach gydag ymylon/ nodweddion draenio ar un, neu'r ddwy ochr, a phlannu coed heb gyfaddawdu lleiniau gweledd, gan ychwanegu diddordeb gweledol a naws dymhorol, darparu cysgod, a darparu cynefinoedd. Mae manteision ecolegol a seicolegol coed stryd a phlannu wedi'u profi gan nifer o astudiaethau, a disgwylir y darperir plannu priodol er mwyn achub ar y manteision hyn a bodloni gofynion deddfwriaeth genedlaethol (Deddf PCC a LICD). Hyd yn oed mewn heolydd pengaead a lonydd, disgwylir SG ar ffurf plannu/adeiladu coed i gulhau ffyrdd cerbydau mewn lleoedd penodol sy'n pwysleisio cyflymder isel. Pan fydd angen plannu coed 'rhodfa' ar hyd llwybrau symudiad allweddol, mae'n rhaid pennu bod y coed hyn yn tyfu i'w taldra llawn. Gall hyn olygu nad yw coed llai o fewn pantiau ac ardaloedd draenio yn dderbyniol ar hyd y llwybrau symudiad allweddol hyn.



Ffig Dd.6 Mae'r Awdurdod Priffyrdd Lleol wedi cytuno ar ddewisiadau amgen i darparu y gellir eu mabwysiadu ar gyfer ardaloedd llwybrau troed a ffyrdd gerbydau fel yr amlinellir yn y Canllaw ar wahân ar gyfer Dylunio Strydoedd

Dd.10 Mae cyffyrdd yn lleoliadau allweddol yn y rhwydwaith strydoedd. Dylid eu dylunio fel mannau a ddiffinnir gan adeiladau a/neu SG, heb gael eu dominyddu gan leiniau gweledd neu ofynion peiriannyddol. Bydd hyn yn gofyn am dull cydweithredol rhwng y peiriannydd priffyrdd, y pensaer, y pensaer tirlunio a disgyblaethau eraill.

Dd.11 Dylai dyluniad strydoedd hefyd fod yn gyd-destunol ac yn pwysleisio lleoliadau i gerddwyr. Er mwyn caniatáu gwahaniaethu mewn gorffeniadau stryd ac ansawdd cynyddol, mae'r Cyngor wedi dewis amrywiaeth o ddewisiadau amgen i darparu y gellir eu mabwysiadu megis blociau concrid sy'n cydbwysu'r gofyniad cynnal a chadw a'r egwyddorion creu lleoedd. Bydd hyn yn gofyn am gymudo symiau ychwanegol ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol, fel a nodir yn y Canllaw Dylunio Priffyrdd. Pan gynigir dodrefn stryd dylai gyfrannu at gymeriad y lle a/neu swyddogaethau llwybr y stryd, yn lleihau annibendod a bod yn hawdd eu cynnal a'u cadw.

Dd.12 Y disgwyliad yw rhwydwaith sydd wedi'i gysylltu'n llawn, sy'n caniatáu i drigolion gerdded o gwmpas yn hwylus ac i gerbydau gwasanaeth a cherbydau dosbarthu gael mynediad. Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd yn bosib darparu cynllun stryd wedi'i gysylltu'n llawn gan arwain at yr angen am ben troi. Fodd bynnag, ni ddylid dylunio'r rhain fel manau ffyrdd sydd wedi'u gor-beiriannu'n ond yn hytrach dylid eu croesawu fel cyfleoedd i wella'r broses o Greu Lleoedd drwy ddarparu manau integredig sy'n ystyriol o gerddwyr.



Ffig Dd.7 Enghraifft o ardal droi wedi'i chynllunio'n lle anffurfiol. Datblygiad Llanrhidian gan Charles Church

Dd.13 Fel yr argymhellwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru (rh10), mewn llawer o ddatblygiadau newydd, mae'n debygol y bydd cyfleoedd i strydoedd a arweinir gan le sy'n ffocysu ar bobl y maent wedi'u dylunio ar gyfer cyflymderau cerbyd isel sy'n integreiddio cymdeithasu, symudiad diogel i gerddwyr sy'n agored i niwed, plannu coed, chwarae priodol, symudiad arafach cerbydau drwy ostwng gweledd tua'r blaen a hefyd parcio ceir. Bydd angen draenio'r holl ardaloedd gofod a rennir, yn gyffredinol gydag ymylfaen isel a chan gynnwys trosglwyddiad clir o'r briffordd safonol er mwyn tynnu sylw at wahanol natur y gofod. Dylai'r trosglwyddiadau hyn fod ar ffurf 'pyrth' sy'n cynnwys nodweddion fel culhau'r ffordd gerbydau ynghyd â Seilwaith Gwyrdd, arwyneb cyferbyniol neu arwyddion i nodi'r fynedfa i'r gofod.



Ffig Dd.8 Enghraifft o stryd weithredol a chymdeithasol cyflymder isel gydag isadeiledd gwyrdd integredig yn stryd weithredol Pentre'r Ardd (ffynhonnell EDP a Persimmon Homes)

Egwyddorion

- Datblygu rhwydwaith hierarchaidd o leoedd (rhodfeydd, strydoedd, lonydd a chyrtau) o'r cychwyn cyntaf ac ystyried sut mae symudiad yn cysylltu â nhw.
- Dylunio strydoedd fel manau hygyrch a chymdeithasol i bobl ac nid wrth ymateb i geometreg anhyblyg dylunio ffyrdd.
- Dylunio strydoedd fel rhan annatod o'r rhwydwaith SG lleol
- Creu manau diogel, hygyrch a phleserus gyda blaenoriaeth i gerddwyr a lle mae cerbydau'n cael eu rheoli'n ofalus.
- Annog rhyngweithio cymdeithasol drwy ddarparu lleoedd i gwrdd, eistedd a chwarae.
- Integreiddio plannu coed newydd pryd bynnag y bo modd.
- Dylunio cynllun cysylltiedig yn ofalus mewn ardaloedd preswyl i'w gwneud yn annymunol i lefelau uchel o drafnidiaeth drwodd (ac eithrio cludiant cyhoeddus).
- Arafu trafndiaeth ar y rhwydwaith preswyl (uchafswm cyflymder dylunio o 20mya) drwy drefnu adeiladau a manau (gan gynnwys arwynebau a rennir lle bo'n briodol), lleoli coed a phlannu, bolardiau a dodrefn stryd eraill.
- Dylai arwynebau a rennir gynnwys diffiniad clir o'r ardal ddiogel i gerddwyr.

- Dylai arwynebau stryd fod o ystod gymeradwy o ddeunyddiau a bydd angen symiau wedi'u cymudo i ariannu gwaith cynnal a chadw sy'n ychwanegol at yr hyn y mae ei angen ar gyfer tarmac.
- Dylid cytuno ar ddodrefn stryd gyda'r Cyngor a dylid lleihau annibendod.

Cwestiynau Allweddol

- A yw cynllun yr adeilad yn cymryd blaenoriaeth dros y strydoedd a pharcio ceir, fel nad yw priffyrdd yn dominyddu?
- A yw dyluniad y datblygiad yn cyfyngu ar gyflymder cerbydau fel bod strydoedd yn llesol i gerddwyr a beiciau?
- A yw strydoedd wedi'u cynllunio fel hierarchaeth gydlynus?
- A yw hierarchaeth y strydoedd wedi'i dylunio'n gyddestunol i roi sylw priodol i wahanol anghenion cerddwyr, defnyddwyr beiciau a gyrwyr cerbydau?
- A yw dyluniad y stryd yn integreiddio SG a SUDs?
- A yw'r datblygiad yn cydymffurfio ag egwyddorion dylunio cynhwysol?

Adran E Mannau Hygyrch

Amcan:

Creu strydoedd, gofodau ac adeiladau sy'n manteisio i'r eithaf ar symudedd ac yn meithrin ymdeimlad o annibyniaeth i bawb.

E.1 Dylai amgylcheddau cynhwysol fod yn hawdd i bawb eu defnyddio. Dylent fwyafu gallu pawb i symud yn rhydd, yn effeithlon ac yn ddiogel o amgylch yr amgylchedd, ac annog teimladau o hyder wrth wneud hynny. Er mwyn creu amgylcheddau cwbl gynhwysol dylid cynllunio tai a strydoedd fel ei gilydd i ddiwallu anghenion pawb. Dylai'r broses creu lleoedd chwalu rhwystrau ac allgáu mewn mannau newydd.

Strydoedd a Mannau Cyhoeddus (Parth Cyhoeddus)

E.2 Bydd strydoedd a mannau cyhoeddus sydd wedi'u dylunio'n gynhwysol yn diwallu anghenion a disgwyliadau gwahanol pawb sy'n eu defnyddio. Byddant yn galluogi pobl i deimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel wrth symud o gwmpas drwy roi rheolaeth iddynt dros ba mor gyflym y maent yn symud, sut maent yn cywain gwybodaeth, a sut maent yn rhyngweithio â defnyddwyr eraill y gofod.

E.3 Mae dylunio cynhwysol yn cydnabod amrywiaeth pobl ac ni ddylai osod rhwystrau. Mae dylunio croyw sy'n ei gwneud yn haws i bobl weithio allan ble maen nhw a ble maen nhw'n mynd yn arbennig o ddefnyddiol. Nid yn unig y mae'n lleihau hyd teithiau drwy osgoi troeon anghywir ond i rai gall hefyd wneud teithiau'n bosib i'w cyflawni yn y lle cyntaf.

E.4 Mae rhai elfennau allweddol sy'n hanfodol i ddarparu strydoedd a mannau cyhoeddus cynhwysol a hygyrch. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Blaenoriaeth i Gerddwyr a beicwyr
- Cyflymder Trafnidiaeth Priodol
- Cynllun Rhesymegol a Phwyntiau Cyfeirio
- Llwybrau Cerddwyr sydd Wedi'u Diffinio'n Glir ac yn Rhydd rhag Rhwystrau,
- Croesfannau Cerddwyr
- Cyferbyniad Gweledol a Chyffyrddol
- Goleuo o Ansawdd Da
- Gweithdrefnau Cynnal a Chadw a Rheoli

- E.5 Gall gwahanu llwybrau troed a ffyrdd cerbydau gan ymylfeini gynnig amddiffyniad i gerddwyr wrth ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas, ond gall ymylfeini hefyd achosi rhwystrau i rai (e.e. pobl ddall neu rannol ddall, defnyddwyr cadeiriau olwyn, pobl sy'n defnyddio fframiau cerdded neu'r rhai â phlant bach mewn pramiau neu gadeiriau gwthio). Ar gyffyrdd a lleoliadau allweddol eraill, megis mynedfeydd i ysgolion neu adeiladau cymunedol, mae manteision i ystyried codi'r ffordd gerbydau i fyny i lefel y droedffordd er mwyn galluogi pobl i groesi ar un lefel. Mae angen i arwynebau cerdded a chroesi hefyd fod yn llyfn ac yn rhydd o beryglon baglu. Mae arwynebau afreolaidd, megis coblau, yn rhwystr i rai cerddwyr ac yn annhebygol o fod yn briodol ar gyfer eangderau mawr o arwynebau mewn ardaloedd preswyl.
- E.6 Os caiff ei ymgorffori'n ofalus yn y dyluniad, gellir defnyddio dodrefn stryd hefyd i wella'r gwahaniad rhwng defnyddiau a ffafrir yn y parth cyhoeddus, i ddarparu gwarchodaeth ac i ddylanwadu



Ffig E.1 Dylai lle a rennir fynd i'r afael ag anghenion yr holl ddefnyddwyr (ffynhonnell RNIB)

ar y llif cerbydau, cerddwyr a beicwyr. Yn gyffredinol mae dodrefn stryd wedi'u gosod ar lwybrau troed a gallant fod yn berygl ac yn rhwystr i bobl ddall neu rannol ddall, defnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl sy'n defnyddio fframiau cerdded. Dylid isafu rhwystrau ar y llwybr troed er mwyn darparu llwybr i gerddwyr sydd wedi'i ddiffinio'n glir ac sy'n gyfleus.

- E.7 Gellir amrywio lledau troedffyrdd hefyd rhwng gwahanol strydoedd er mwyn ystyried niferoedd a chyfansoddiad cerddwyr. E enghraifft, mae angen llwybrau troed ehangach ar strydoedd lle mae pobl yn cerdded mewn grwpiau neu'n agos i ysgolion neu siopau, neu lle darperir rheseli beiciau. Mewn ardaloedd o lifoedd cerddwyr a/neu feiciau uchel, gall ansawdd y profiad cerdded ddirywio oni ddarperir digon o led i gynnwys y llifoedd hyn yn ogystal ag unrhyw ddodrefn stryd ategol. At hynny, wrth gerdded ynghyd yn sgwrsio; Bydd angen pellter ehangach ar ddefnyddwyr iaith arwyddion ar gyfer cyfathrebu gweledol clir. Mae dyluniad priodol manau cylchredeg ac ymgasglu yn galluogi arwyddwyr i symud drwy ofod yn ddi-dor.
- E.8 Mae angen seddau i ddarparu manau gorffwys i gerddwyr, yn enwedig pobl hŷn a'r rhai sydd â nam ar eu symudedd neu eu golwg, a dylid ystyried seddau ychwanegol lle mae pobl yn ymgynnull, megis sgwariau, siopau lleol ac ysgolion. Dylid ystyried seddau ar lwybrau cerddwyr allweddol bob 100m i ddarparu manau gorffwys ac i annog gweithgarwch ar y stryd a'r cysyniad o 'gymdogaeth gydol oes'. Dylai seddau gynnwys lle i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn gael saib ochr yn ochr.

Yn y Cartref ac o'i Amgylch

E.9 Er mwyn galluogi mwy o bobl i aros yn eu cartrefi os ydynt yn mynd yn anabl, dylid adeiladu tai newydd a all gael eu haddasu ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae'n briodol y darperir tai y gellir eu haddasu ar gyfer cadeiriau olwyn mewn cynlluniau mwy eu maint, a'u bod yn agos i gludiant cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol. Nodir y gofyniad i ddarparu cartrefi hygyrch yn Rhan M y Rheoliadau Adeiladu cyfredol. Ni all y CCA hwn fynnu darpariaeth y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol yn y Rheoliadau Adeiladu, ond mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o'r ystyriaethau wrth ddylunio cartrefi mwy hygyrch.

Cartrefi i Bobl Ddall a Rhannol Ddall

E.10 Fel rheol sylfaenol, dylai dylunwyr sicrhau bod digon o le i alluogi llwybrau cylchredeg syml ac uniongyrchol ym mhob ystafell. Bydd dylunio syml, rhesymegol yr holl gynlluniau allanol a mewnol yn helpu wrth bennu cyfeiriad.

E.11 Dylai'r dyluniad anelu at sicrhau cysondeb o ran ffurf a lleoli eitemau allweddol fel bod switshis a socedi ar yr un uchder a lleoliad mewn ystafelloedd, bod dolenni drysau a ffenestri wedi'u lleoli'n gyson a bod tapiau poeth ac oer ar yr un ochrau ac ati. Mae darparu gwrthgyferbyniadau mwy o ran maint, mwy eofn a mwy disglair rhwng arwynebau cyfagos, peryglon posib a'u cefndir, a rheolaethau ar gyfarpar a'u cefndir yn egwyddor gyffredinol i'w chymhwyso. Gellir gwella gwrthgyferbyniadau drwy greu gwahaniaethau mewn disgleirdeb neu wahaniaethau o ran lliw/arlliw, neu'r ddau. Yn yr un modd, dylid osgoi

ardaloedd mawr o arwynebau a gorffeniadau adlewyrchol a thra sgleiniog pryd bynnag y bo modd gan y gallant achosi llacharedd. Yn gyffredinol, dylai gorffeniadau fod yn gyfforddus i gyffwrdd â nhw er mwyn i bobl 'deimlo' eu ffordd.

E.12 Gall defnyddio gwahanol liwiau drws ffrynt/gât, gwahanol gysgodau brics ar gyfer gwahanol flociau o dai, themâu lliw ar gyfer gwahanol loriau mewn coridorau cymunedol hefyd helpu wrth ddynodi llwybr neu bennu lleoliad.

Cartrefi i Bobl Fyddar a Thrwm eu Clyw

E.13 Dylai dyluniadau ganiatáu llinellau golwg clir i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyfathrebu'n weledol ag aelodau o'r teulu yn ogystal ag ymestyn ymwybyddiaeth synhwyrdd.

E.14 Mae amodau goleuo gwael yn cyfrannu'n helaeth at achosion blinder llygaid a all arwain at golli canolbwyntio a hyd yn oed lludded corfforol. Gellir cyflunio goleuadau ar switsh pylu ac elfennau pensaernïol a ddefnyddir i reoli golau dydd er mwyn darparu golau meddal, gwasgaredig sy'n lleihau straen ar y llygaid.

E.15 Gellir defnyddio'r agweddau canlynol ar y dyluniad i wella cysylltiadau gweledol a bywyd bob dydd:

- Mae cynllun llawr agored a chynteddau llydan a fydd yn hwyluso sgysiau iaith arwyddion – ceginau sy'n hygyrch yn weledol i ystafelloedd cyfagos yn arbennig o bwysig;
- Defnydd o waliau rhannol;

- Lloriau pren - fel y gellir teimlo cnocio o ystafelloedd eraill;
- Defnyddio deunyddiau adeiladu fel gwydr barugog yn hytrach na brics, concrit neu blastfrwrdd, i greu preifatrwydd a dal i deimlo'n agored;
- Defnyddiwch gorneli crwm yn hytrach na waliau ongl sgwâr na throeon llym;
- Dewis lliwiau ar loriau na fyddant yn drysu amrediad gwelededd eang rhywun b/Byddar;
- Ymgorffori nodweddion cyfathrebu gweledol –
- Bydd y rhain yn cynnwys larwm drws fideo yn ogystal â larymau tân a charbon monocsid gweledol.

Egwyddorion

- Ymgorffori dyluniad cynhwysol o'r cychwyn cyntaf—nid yw'n 'ychwanegiad dewisol' nac yn ategyn.
- Dylid darparu mynediad cyfartal a chyfleus i bawb.
- Dylunio lleoedd i feithrin diwylliant o gynhwysiad.
- Dylunio hyblygrwydd i mewn, fel y gall gwahanol bobl ddefnyddio datblygiad mewn ffordd wahanol.

Cwestiynau Allweddol


- A yw'r cynllun yn creu unrhyw rwystrau i ddylunio cynhwysol?
- A yw'r dyluniad yn darparu llwybrau croyw sy'n glir o rwystrau?
- A yw llwybrau troed o led digonol?
- A yw croesfannau ar gyffyrdd a lleoliadau allweddol yn hygyrch?
- A oes digon o seddi i ddarparu arosfeydd gorffwys ac i feithrin rhyngweithio?
- A ddarperir gwrthgyferbyniadau lliw digonol i ddarparu eglurder ac amlygu peryglon posib etc?
- A ellir addasu cartrefi newydd ar gyfer defnyddio cadeiriau olwyn yn y dyfodol?
- A yw'r goleuo'n ddigonol ac a oes modd ei reoli i leihau straen ar y llygaid?
- A yw dyluniad yr annedd yn manteisio i'r eithaf ar linellau golygfa clir rhwng gwahanol ardaloedd?
- A yw anheddau'n bodloni'r Safon Cartrefi Gydol Oes?

Adran F: Treflun

Amcan:

Creu adeiladau sydd ar raddfa ddynol, yn ymateb i'r cyd-destun ac yn ffurfio treflun o ansawdd uchel.

- F.1 Dylai'r modd y mae adeiladau wedi'u lleoli, eu grwpio ac yn ymateb i elfennau cymeriad lleol a werthfawrogir bwysleisio graddfa ddynol, diffinio manau cyhoeddus a phreifat, creu naws unigryw a diddordeb, cynorthwyo symud o gwmpas a lleihau effaith weledol ceir wedi'u parcio. Gyda'i gilydd, mae'r adeiladau a'r manau rhyngddynt yn ffurfio 'treflun' a all helpu i ddarparu ymdeimlad o le a hunaniaeth i anheddiad. Mae'r dull hwn yn berthnasol ym mhob lleoliad trefol, gwledig ac is-drefol.



Ffig F.1 Mae treflun lleoedd newydd yn ystyriaeth allweddol

- F.2 Er bod y broses gynllunio yn canolbwyntio'n bennaf ar gynlluniau dau ddimensiwn, mae'n hanfodol ystyried y profiad gwirioneddol o symud drwy le a'r golygfeydd a brofir (uniongyrchol a lletraws), boed fel trigolyn neu ymwelydd. Felly, dylai ystyried cymeriad y stryd a golygfeydd o lefel llygaid fod yn fan cychwyn dylunio ar raddfa ddynol. Fel rhan o hyn dylid dylunio ffenestri a drysau sy'n wynebu'r stryd (a elwir yn **ffryntiadau actif**) i wneud i le deimlo bod rhywun yn byw ynddo, yr edrychir drosto a'i fod yn ddiogel.
- F.3 Yn gyffredinol, mae lleoedd llwyddiannus a chofiadwy yn cynnwys dilyniant o leoedd sydd wedi'u cysylltu gan strydoedd. Mae'n bwysig bod y strydoedd yn gofiadwy, yn ddiddorol ac yn hawdd symud o'u cwmpas. Os oes gan yr adeiladau a'r strydoedd ddiffyg amrywiaeth a naws unigryw, bydd teithiau trwyddynt yn mynd yn anoddach, yn llai plerusus ac i'w gweld yn hirach. Effaith hyn yw annog pobl i beidio â cherdded, ac fel rhan o'r ymrwymiad ehangach i Deithio Llesol mae'n bwysig sicrhau bod llwybrau cerdded/beicio yn ddeniadol i hybu cydlyniant cymunedol ac iechyd a llesiant personol. Felly, dylid rhoi ystyriaeth i olygfeydd ar hyd y stryd; dilyniant, amrywiad a chontract; a lleoliadau cornel.

Ffryntiadau allweddol

- F.4 Bydd gan fannau newydd ardaloedd allweddol megis ffryntiad ar brif stryd neu ffryntiad amlwg sy'n edrych dros fan agored presennol neu newydd. Mae'n rhaid gwahaniaethu rhwng y ffryntiadau allweddol hyn a'r adeiladau cyffredinol neu gefndir ac mae'n rhaid eu dylunio fel cyfansoddiad er mwyn rhoi'r pwyslais ar greu lleoedd. Y ffordd orau o ddylunio'r ffryntiadau allweddol hyn yw mewn modd ailadroddol ac fe gânt eu hasesu gan ddefnyddio strydluniau cyfansawdd sy'n dangos y ffryntiad cyfan. Ar safleoedd mwy o 50 neu fwy o gartrefi, mae gofyniad pellach i fwyhau ffryntiadau allweddol. Gallai hyn gynnwys gwell ansawdd pensaernïol, gwell triniaethau ffiniol, graddfa gynyddol, nodweddion cyfunol megis talcennau ailadroddol, sy'n cysylltu deunyddiau fel byrddau tywydd. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain a dyma ddull 'lle cyfan' y disgwylir iddo fod yn sail i greu ffryntiadau allweddol wedi'u mwyhau. Gweler adran I.9 am ragor o wybodaeth am driniaethau mwyhau.



Ffig F.2 Mae angen tu blaenau allweddol ar hyd y brif stryd neu'n edrych dros le agored. Ar safleoedd mwy o 50+ o gartrefi, rhaid gwella'r tu blaenau allweddol hyn. (ffynhonnell Google)

Graddfa

- F.5 Mewn datblygiadau preswyl maestrefol disgwylir i amrediad y raddfa adeiladu fod yn 1-4 llawr yn achos yr adeiladau talach yn y lleoliadau mwy hygyrch sydd â chyfleusterau cymunedol. Gellir defnyddio graddfa gynyddol hefyd i bwysleisio ac amgáu mannau allweddol megis ffryntiad tri llawr i ardal o barcdir. Hefyd, mae angen ystyried cydberthnasau graddfa, gyda chamu i fynyn hytrach na throsglwyddiadau sydyn.



Ffig F.3 Mewn lleoliadau maestrefol, disgwylir y bydd adeiladau o 1-4 llawr (ffynhonnell EDP a Persimmon Homes)

- F.6 Mewn sefyllfaoedd trefol fel lleoliadau canol tref a dinas, disgwylir adeiladau talach o 3 llawr a mwy gyda disgwyliad 'graddfa drefol' nodweddiadol o 6 llawr yng Nghanol Dinas Abertawe. Er mwyn helpu i integreiddio adeiladau mwy mewn sefyllfaoedd trefol, mae'n aml yn helpu i fewnosod y llawr uchaf a thrin hwn gyda deunydd gwahanol i leihau'r ymdeimlad o fasio.
- F.7 Ceir canllawiau penodol ar adeiladau tal o ran parthau croeso ac ystyried ynghyd â meini prawf megis y strydlun lleol, micro-hinsawdd a'r effaith ehangach o ran gweleded/y nenlinell.

Golygfeydd Ar Hyd y Stryd

F.8 Mae'r olygfa ar hyd stryd fel arfer yn cael ei fframio gan yr adeiladau i'r naill ochr a'r llall ac fe'i gelwir yn '**vista**'. Mewn llawer o sefyllfaoedd, mae'r vista hwn yn parhau heb ei dorri nes y daw'r stryd i ben wrth gyffordd neu droad. Mewn rhai achosion gall adeiladau gau golygfeydd, gellir defnyddio llystyfiant hefyd neu gallai golygfeydd barhau i gysylltu'r datblygiad â nodweddion SG yn y dirwedd ehangach.



Ffig F.4 Rhaid ystyried golygfeydd ar hyd y stryd yn ofalus

F.9 Rhaid ystyried golygfeydd i lawr strydoedd preswyl yn ofalus i sicrhau bod cymeriad a golwg y datblygiad yn cael eu cynnal. Ni ddylai golygfeydd i lawr strydoedd derfynu wrth:

- weddluniau ochr wag anheddau;
- triniaethau ffiniau;
- neu wrth dramwyfeydd rhwng ffryntiadau (a/neu ochrau) anheddau cyfagos.

Cyfansoddiadau strydlun

F.10 Yn gyffredinol, dylid dylunio cyfansoddiadau strydoedd preswyl i gyflwyno rhywfaint o rythm ac amrywiad i'r strydlun. Mae sawl ffordd o wneud hyn a gall adlewyrchu'r cyd-destun sefydledig ehangach megis:

- manylion unigol neu ailadroddol yr adeilad (fel talcen neu ffenestr grom ymestynnol ailadroddol);
- adeilad sydd â swyddogaeth, uchder, dyluniad neu ddeunyddiau gwahanol;
- gwahanol led palmentydd ar ochrau gwrthgyferbyniol y stryd;
- cynnwys gofod ar raddfa fach sy'n ehangu allan o'r stryd (ac o bosib yn ymgorffori'r briffordd gydag ymylfaen is ac arwyneb gwahanol);
- cynnwys coed stryd;
- newid bach yng nghyfeiriad y stryd.

F.11 Mewn rhai achosion bydd strydlun cyson wedi'i dylunio'n dda, megis tai teras, yn briodol. Ym mhob achos, dylid cyflwyno cyfansoddiad y strydlun fel golygfeydd o'r strydoedd, nid lluniadau o dai unigol. Dylai hon fod yn broses ailadroddol i fireinio cyfansoddiadau'r mathau o dai. Er hynny, ni ddylid defnyddio'r egwyddor o amrywio adeiladau i gyfiawnhau dyluniadau amhriodol heb gyd-destun na strydluniau eclecticig nad ydynt yn gydlynus.



Ffig F.5 Mae'n ofynnol i strydluniau ddangos sut mae mathau o dai yn cael eu cyfuno, defnyddio themâu/deunyddiau cysylltu ac unrhyw wahaniaethau lefel. (Ffynhonnell EDP a Persimmon Homes)

Corneli

- F.12 Mae corneli wrth gyffyrdd a throsglwyddo i fannau agored yn rhannau allweddol o ddatblygiadau preswyl gan eu bod yn amlwg a bod llawer o bobl yn mynd heibio iddynt. Fodd bynnag, mae defnyddio mathau safonol o dai yn aml yn arwain at nifer uchel o ddatblygiadau tai sydd â gweddlluniau ochr gwag neu wedi'u dylunio'n wael mewn lleoliadau amlwg. Mae lleiniau cornel yn wahanol i leiniau canol stryd nodweddiadol gan eu bod yn darparu ffyrntiadau cyhoeddus deul ar ddau weddln ac yn gofyn am drin y ddau ffasâd cyhoeddus yn gyfartal.
- F.13 Dylid dylunio adeiladau sydd wedi'u lleoli ar leiniau cornel i 'droi'r gornel' gyda ffyrntiadau a ddylunnir yn dda sy'n cynnwys ffenestri ystafelloedd trigiadwy i ganiatáu gwylidwriaeth naturiol, ynghyd â phwyslais pensaernïol y gweddlluniau cyhoeddus. Yn gyffredinol, dylai cyfeiriad anheddau cornel barchu hierarchaeth gyffredinol y stryd gyda'r prif weddln yn ffyrntio ar y stryd gynradd. Dylai triniaethau ffiniau preifatrwydd ar y lleiniau hyn ddechrau ar y llinell adeiladu cefn a peidio â gorgyffwrdd â gweddln ochr y ffyrntiad actif.
- F.14 Efallai y byddai hefyd yn briodol cynyddu uchder yr annedd i bwysleisio'r gornel a rhoi 'bwtres' i'r stryd. I'r gwrthwyneb, mae dull sy'n ceisio darparu adeiladau ar raddfa/uchder llai ar gorneli yn annhebygol o gael ei gefnogi gan fod hyn yn darparu hierarchaeth weledol hynod yn y lleoliadau amlwg hyn.



Ffig F.6 Dwy enghraifft o adeiladau cornel gweithredol gyda dau weddln cyhoeddus.



Ffig F.7 Mewn cymdogaethau cerddadwy traddodiadol, yn aml caiff lleiniau cornel eu defnyddio gan ddefnyddiau gweithredol. (ffynhonnell Google)

Egwyddorion

- Pan fydd graddfa, masio, uchder a llinell adeiladu adeiladau sydd eisoes yn bodoli'n nodweddion lleol cryf, dylid adlewyrchu hyn, yn enwedig ar ymylon safleoedd i gysylltu â'r cyd-destun presennol.
- Defnyddio ffyrntiadau allweddol i bwysleisio manau allweddol ac uno â nodweddion pensaernïol ailadroddol
- Sicrhau bod masio ac uchder adeiladau'n rhoi ystyriaeth briodol i gysgodi ac edrych dros eiddo ac ardaloedd garddio cyfagos.
- Defnyddio ystod briodol o ffurfiau adeiladu megis terasau, tai pâr a thai ar wahân yn ogystal â blociau fflatiau a chyrtau (pan fo'n briodol) i greu diddordeb fel rhan o gyfansoddiad cynllun cyffredinol.
- Sicrhau dilyniant cyffredinol y llinell adeiladu gydag amrywiadau priodol o ran uchder, yn ogystal â chulhau strydoedd, gosod yn ôl a thechnegau treflun priodol eraill a ddefnyddir fel eithriadau rhesymegol a gyfiawnheir i ychwanegu diddordeb ac amrywiaeth.
- Sicrhau bod adeiladau, strydoedd a lleuedd ar raddfa ddynol sy'n annog dewisiadau teithio llesol ac yn atgyfnerthu cyflymderau dylunio uchaf o 20mya.
- Defnyddio cynllun, ffurf yr adeilad a'r triniaethau ffiniau blaen (pan fo'n briodol) i ddarparu ymdeimlad o ddilyniant ac amgáu ar gyfer strydoedd a manau. Dylai'r ardaloedd parth cyhoeddus hyn fod yn nodedig gydag ymdeimlad o le/hunaniaeth leol sy'n helpu hwyluso symud o gwmpas.
- Dylai'r rhain adlewyrchu statws hierarchaidd y stryd neu'r man yn y rhwydwaith symudiad cyffredinol. Gan hynny, dylai llwybrau pwysig fel rhodfeydd fod yn ehangach gydag adeiladau talach, manau cyhoeddus a choed, tra y dylai lonydd mynediad yn unig fod yn gul gydag adeiladau isel (fel anheddau dull heolydd pengaead).
- Dylai'r isafswm pellter gwahanu rhwng ffyrntiadau ar draws y parth cyhoeddus a strydoedd fod yn 10m. Pan gymhwysir yr isafswm pellter hwn i strydoedd, dylai'r rhain fod yn rhan o gangen isaf rhwydwaith symudiad yr hierarchaeth priffyrdd (e.e. strydoedd pengaead).
- Sicrhau bod yr olygfa doeon yn rhoi sylw i'r cyfansoddiad cyffredinol, yn enwedig pan fo'n weladwy iawn (megis mewn lleoliadau nenlinell neu pan fydd golygfeydd i lawr ar safle).
- Mae'n rhaid i doeon sy'n agos iawn at ei gilydd ac yn wynebu'r un cyfeiriad feddu ar yr un goleddau cyfatebol. Gellir sicrhau hyn drwy leoli adeiladau o ddyfnder tebyg wrth ymyl ei gilydd.
- Dylid mwyafu ffyrntiadau actif gyda drysau sy'n hawdd dod o hyd iddynt a ffenestri ystafelloedd trigiadwy sy'n wynebu'r stryd a'r manau cyhoeddus. Dylid osgoi ymestyniadau hir o waliau gwag.
- Mae'n hanfodol amgáu lle ar gorneli a chreu diffiniad, gan fod y rhain yn lleoliadau pwysig iawn o fewn y rhwydwaith symudiad. Bydd gan adeiladau cornel o leiaf ddau weddlun cyhoeddus a gallent fod yn dirnodau bach a bwysleisir gan raddfa ehangach a/neu ddylunio manwl.

- Fel arall, gellir gosod adeiladau cornel yn ôl mewn rhai achosion i ddarparu ar gyfer parciau poced ar gyfer SUDs a hamdden gymunedol neu fannau cyhoeddus bach. Gallai mannau o'r fath ffurfio'r lleoliad ar gyfer siopau ar raddfa fach, siopau coffi/caffis a defnyddiau cymunedol yn y dyfodol i ddarparu diddordeb, bywiogrwydd a chydnerthedd i'r gymuned.
- Dylid cyfeiriadu llwybrau i ffocysu ar adeiladau tirnod a golygfeydd pwysig. Pan fo'n briodol, gellir defnyddio golygfeydd wedi'u hallwyo i greu diddordeb drwy greu ymdeimlad o ddisgwyliad o olygfeydd nas gwelwyd eto.
- Dylid atgyfnerthu tirnodau presennol neu greu rhai newydd i ennyn diddordeb gweledol.
- Nid oes rhaid i dirnodau newydd fod yn dalach o reidrwydd. Mae newid dyluniad neu ddeunydd, neu ddefnydd tir gwahanol (yn enwedig defnyddiau cyhoeddus) hefyd yn gwneud i adeiladau sefyll allan ac yn helpu rhoi cymeriad i ardal.
- Dylid dylunio lleoedd fel strydluniau nid fel mathau unigol o dai.

Cwestiynau Allweddol

- A yw graddfa'r adeiladau'n ymateb yn gadarnhaol i'r ardal?
- A yw masio adeiladau'n atgyfnerthu hierarchaeth y stryd?
- A oes gan y cynllun raddfa ddynol a strydoedd a mannau sydd wedi'u diffinio'n dda?
- A yw'r cynllun a'r treflun yn gwneud y cynllun yn gofiadwy ac yn hawdd mynd o gwmpas?

Adran Ff: Ansawdd, Cymeriad a Hunaniaeth

Amcan:

Creu dyluniad adeiladau o ansawdd uchel gydag ymdeimlad nodedig o le.

Ff.1 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC), nid yw'r canllawiau hyn yn ceisio pennu arddull bensaernïol benodol yn fypwyl. Gall lle sydd wedi'i strwythuro'n dda gynnwys amrywiaeth o wahanol arddulliau bensaernïol o draddodiadol i gyfoes, ar yr amod bod y rhain yn ymateb yn gyd-destunol a bod y dyluniad o ansawdd digon uchel. Mae'n rhaid i bob cynllun sicrhau ymdeimlad o le, a hunaniaeth unigryw, drwy ymagwedd briodol at greu lleoedd er mwyn creu amgylcheddau byw o safon.

Ff.2 Yn anffodus, mae rhai datblygiadau yn y gorffennol wedi darparu ystadau 'di-le' sydd heb ansawdd nac unrhyw ymdeimlad o hunaniaeth neu naws unigryw, a allai fod yn unrhyw le yng Nghymru neu weddill y DU. At hynny, yn hanesyddol nid yw llawer o safleoedd o faint mwy wedi rhoi digon o bwyslais ar ffyrntiadau allweddol a mannau allweddol o fewn y datblygiad, a'r canlyniad yw bod pob rhan o le sydd newydd ei greu yn edrych yr un peth. Bydd angen i gynigion newydd fynd i'r afael yn ddigonol â'r gofynion ar gyfer sicrhau ansawdd, cymeriad a hunaniaeth, ac ni fydd 'datblygiadau unrhyw le' safonol yn dderbyniol.

Ff.3 Yn gyffredinol, y gofyniad yw defnyddio ymagwedd sydd naill ai'n gyd-destunol neu'n gyfoes. Dylai'r man cychwyn fod i gael eich ysgogi gan draddodiadau pensaernïol a rhinweddau amgylcheddol yr ardal, a elwir yn 'gyd-destun dylunio'. Y nod yw deall cymeriad lleol a werthfawrogrir (naturiol ac adeiledig) a defnyddio hyn i gyfeirio dyluniad y lle newydd. Mewn llawer o achosion, bydd arfarniad o'r cyd-destun lleol yn amlygu patrymau ac elfennau nodedig y datblygiad neu'r dirwedd, a'r bwriad fydd cynnal y rhinweddau cymeriad hyn. Mae dadansoddiad cynsail hefyd yn ffordd gadarnhaol o siapio ymddangosiad lleoedd newydd ar yr amod bod y detholiad yn berthnasol.



Ffig Ff.1 Rhaid i bob lle newydd fod o ansawdd uchel ni waeth beth fo'r geirdaon cymeriad.



- Ff.4 Efallai y bydd sefyllfaoedd pan nad oes cymeriad cadarnhaol ar sydd eisoes yn bodoli y gellir ei adlewyrchu o fewn safle. Nid esgus dros ddylunio dinod mo hwn. Yn hytrach, mae hyn yn gyfle i wella cymeriad ac ansawdd yr ardal, o bosib drwy sefydlu cymeriad cyfoes newydd drwy ail-ddehongli ffurfiau a deunyddiau, defnyddio cynseiliau perthnasol yn ogystal â chynnwys nodweddion naturiol priodol.
- Ff.5 Bydd symud tuag at ffyrdd o fyw sy'n defnyddio llai o ynni yn newid y ffordd y mae cartrefi'n edrych; dyma gyfle i ddylunio'n gyfoes mewn lleoliadau cymdogaeth gan ddefnyddio deunyddiau modern a phensaernïaeth flaengar.
- Ff.6 Pan gynigir defnyddio mathau safonol o dai a dulliau adeiladwaith cyfoes (DAC), dylai'r rhain fod yn ymatebol i'r lleoliad o ran deunyddiau, manylion, cyfansoddiad y ffasâd etc. Ni fydd cynigion sy'n arwain at ddatblygiadau 'unrhyw le' generig a heb ymdeimlad o le'n cael eu hystyried yn dderbyniol.
- Ff.7 Wrth ymgymryd ag asesiad o gymeriad dylid deall rôl unrhyw ddynodiadau ardal arbennig (ardaloedd cadwraeth, AoHNE Gŵyr, ardaloedd adeiladu tal etc.). Os yw'r safle mewn ardal gadwraeth, efallai y bydd disgrifiad cyhoeddedig sy'n nodi'r diddordeb pensaernïol arbennig. Ar gyfer cynlluniau yng Ngŵyr, mae Canllaw Dylunio Gŵyr a fabwysiadwyd yn nodi prif elfennau 'Arddull Frodorol Gŵyr' a gallai'r ymatebion pensaernïol posib amrywio o draddodiadol, i arddull frodorol gyfoes i fodern iawn.
- Ff.8 Cydnabyddir y bydd lleoedd newydd ar raddfa fwy yn aml yn cynnwys mathau safonol o dai ond rhaid i hyn beidio ag atal gwelliannau ac amrywiadau i weddluniau er mwyn pwysleisio ardaloedd allweddol a sicrhau naws unigryw. Ni fydd yn dderbyniol i ddarparu tai newydd sylfaenol union yr un fath a allai fod yn unrhyw le yng Nghymru neu'r DU.

Ff.9 Bydd safleoedd sy'n cynnwys 50 neu fwy o gartrefi'n creu strwythur a hierarchaeth o strydoedd a manau newydd. Mae'n rhaid i'r hierarchaeth hon gael ei hatgyfnerthu gan weddluniau wedi'u mwyhau a'u teilwra'n briodol i gyflwyno amrywiaeth a naws unigryw mewn ardaloedd penodol fel strydoedd allweddol, corneli, cyffyrdd ac yn wynebu manau cyhoeddus allweddol. Bydd yr union ofynion ar gyfer gweddluniau wedi'u mwyhau a'u teilwra yn cael eu trafod ar sail y safle unigol gan roi sylw i nodweddion y cynllun penodol a'r amrywiaeth o fathau o dai sydd wedi'u cynnig. Bydd angen i nifer a graddau'r gweddluniau wedi'u mwyhau a'u teilwra fod yn ddigon i gael effaith bwrpasol ar y strydlun a golygfeydd ar draws y datblygiad. Gall rhai cynigion datblygu gynnwys deunyddiau a rhinweddau dylunio o ansawdd uchel fel rhan o'r math 'safonol' o dŷ a gynigir, ac yn y fath amgylchiadau efallai na fydd y gofynion ar gyfer mwyhau ychwanegol yn berthnasol. Bydd triniaethau mwyhau addas yn dibynnu ar y dull pensaernïol a gallent, er enghraifft, gynnwys deunyddiau o ansawdd uwch, nodweddion pensaernïol ychwanegol fel talcenni, ffenestri crwm, cynteddau/canopiau mynediad a ffiniau o ansawdd uchel. Bydd hyn yn ychwanegol at safon ddylunio briodol o uchel y bydd ei hangen yn fwy cyffredinol ar draws y datblygiad.



Ffig Ff.3 Ar safleoedd o 50+ o gartrefi, bydd gofyn am ddrychiadau dyrchafedig a/ neu bwrpasol.


Ff.10 Ar gyfer safleoedd o 100 neu fwy o gartrefi, yn ogystal â'r gweddoluniau wedi'u mwylhau, disgwylir y bydd ardaloedd cymeriad hefyd yn cael eu diffinio i wahaniaethu rhannau o'r lle. Gallai'r amrywiad cymeriad hwn gwmpasu gwahanol arddulliau neu ddefnydd o wahanol ddeunyddiau neu fanylion. Bydd yn bwysig sicrhau dosbarthiad rhesymegol o ardaloedd â chymeriad a mynd i'r afael yn ofalus â newidiadau rhwng ardaloedd â chymeriad er mwyn osgoi unrhyw gysylltiadau sydyn neu hynod.

Ff.11 Yng nghanol dinas Abertawe a'i chyffiniau, mae rhai ardaloedd wedi'u dynodi'n addas ar gyfer adeiladau tal (gweler y CCA Adeiladau Tal). Mae'r lleoliadau mwy cynaliadwy hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer mwy o uchder yn y ddinas a llety dwysedd uwch; maent hefyd yn mynnu pensaernïaeth o'r ansawdd uchaf o ystyried eu gwelededd ac amlygrwydd sylweddol.


Ff.12 Mae'n bwysig mabwysiadu ymagwedd creu lleoedd integredig at ddyluniad manwl adeiladau unigol, strydluniau a'r parth cyhoeddus. Mae'n rhaid peidio â thrin adeiladau ar eu pennau eu hunain ac mae'n rhaid peidio â thrin deunyddiau stryd a thirlunio fel ystyriaeth eilaidd, yn hytrach dylid eu hystyried yn gyfannol i greu lleoedd a manau llwyddiannus.

Ff.13 Mae manylder yn bwysig; gall defnyddio palet lliwiau ystyriol ar gyfer drysau blaen a drysau garej ddarparu fwyhad dymunol i weddoluniau a'r strydlun ehangach. I'r gwrthwyneb, gall cypyrddau mesuryddion plastig a manau storio biniau sydd a ddylunnir yn wael amharu ar ymddangosiad gweddoluniau anheddau ac felly dylid eu lleoli er mwyn lleihau eu heffaith weledol niweidiol ar ffasadau.

2.18 Character



Ffig Ff.4 Enghraifft o gynllun ardal â chymeriad sy'n nodi 100+ o gartrefi (ffynhonnell EDP a Persimmon Homes)



Ffig Ff.5 Mewn dyluniadau traddodiadol neu gyfoes, mae manylion y fynedfa yr un mor bwysig. (ffynhonnell ar y chwith: Google Streetview, ffynhonnell ar y dde Powell Dobson Architects a Chymdeithas Tai Pobl)

Egwyddorion

- Nodi cymeriad lleol drwy arfarniadau safleoedd a chyd-destunau, dadansoddi dyluniadau trefol ac adolygu ffynonellau cyhoeddedig. Mynd i'r afael â materion megis nodweddion tirwedd, golygfeydd, cynlluniau lleiniau a strydoedd, llinellau adeiladu, yn ogystal â ffurfiau, uchder, masio, manylion a ffyrntiadau pwysig adeiladau.
- Sefydlu cyfleoedd dylunio sy'n adlewyrchu ac yn mwyhau agweddau cadarnhaol ar gymeriad lleol. Ymchwilio y tu hwnt i'r gymdogaeth gyfagos os oes angen, i nodi naws unigryw yr ardal leol.
- Pan nad yw'r cymeriad lleol yn portreadu nodweddion gor-gadarnhaol o fanylder, manteisio ar y cyfle i ychwanegu cymeriad ac ansawdd at y gymdogaeth – efallai drwy fabwysiadu dull cyfoes sy'n cyfeirio at rai nodweddion trosgynnol ehangach megis yr amrediad uchder adeiladau, ffurfiau pennaf toeon etc.
- Darparu gweddluniau wedi'u mynegi'n dda – dylid defnyddio strydluniau fel arf ailadroddol gyda'r pwyslais ar strydluniau a mannau a gynllunnir yn dda, yn hytrach nag adeiladau unigol.
- Gwneud yn siŵr bod y dyluniad manwl yn deg ac yn caniatáu mynediad i bawb, tra'n cynnal cymeriad cyffredinol y cynllun.
- Annog mynegiant ac amrywiaeth mewn arddull bensaernïol (pan fo'n briodol) gan ganiatáu i bobl bersonoli ac addasu eu hadeiladau pan fo hynny'n briodol i'r cyd-destun a'r galw gan y gymuned. Mae'r posibilïadau i gyflawni hyn yn cynnwys darparu ar gyfer

ardaloedd gardd flaen i'w personoli yn ogystal â darparu ar gyfer meintiau llain/gardd sy'n caniatáu estyniadau priodol yn y dyfodol.

- Trin elfennau ategol fel ffiniau, garejys, parcio beiciau a storio ailgylchu/sbwriel fel rhan annatod o'r dyluniad cyffredinol. Dylai'r rhain fod yn gadarn ac o ansawdd digon uchel. Ni ddylid anwybyddu cyfleoedd i gynyddu gwasanaethau ecosystem ar elfennau ategol (casgenni dŵr glaw ar garejys, ffiniau ecolegol athraidd, mannau storio beiciau/sbwriel â theon gwyrdd etc.)
- Dewis deunyddiau'n ofalus i adlewyrchu'r agweddau gorau ar gymeriad lleol ac ar yr un pryd mynd i'r afael â chadernid, addasrwydd at y diben a hindreuliad. Ystyried effaith amgylcheddol deunyddiau hefyd (gweler www.bregroup.com/greenguide).
- Manylu'r holl agweddau ar y gweddluniau allanol mewn agoriadau penodol yn ofalus, unrhyw newidiadau mewn deunyddiau, bondoeau, byrddau tywydd, simneiau ac ati.
- Gwneud yn siŵr bod agoriadau mewn lleoliadau priodol a rhesymegol wrth edrych arnynt o'r parth cyhoeddus yn ogystal ag o tu mewn i'r adeilad.
- Gwneud yn siŵr bod nodweddion effeithlonrwydd dŵr, ynni isel a microgynhyrchu trydan megis paneli ffotofoltäig, paneli solar thermol, storio batris, pwyntiau gwefru cerbydau trydan, storio ailgylchu, casgenni dŵr a gerddi glaw etc. wedi'u hintegreiddio'n gadarnhaol i'r dyluniad cyffredinol fel rhan o ddull dylunio integredig.

Cwestiynau Allweddol

- A yw'r cymeriad yn ymateb yn gadarnhaol i, ac yn gwella, cymeriad ac ansawdd yr ardal leol, gan ystyried unrhyw ddynodiadau ardal arbennig perthnasol?
- A yw'r ymagwedd ddylunio at adeiladau a mannau'n benodol i'r cynllun?
- A yw adeiladau, mannau a strydluniau'n dangos ansawdd pensaernïol da ac yn gwella cymeriad ac ymddangosiad yr ardal?
- A berchir ymddangosiad a lleoliad unrhyw adeiladau neu nodweddion hanesyddol gerllaw?
- A yw'r datblygiad yn cynnwys cymysgedd o arddulliau adeiladu a/neu yn cadw adeiladau o ddiddordeb sy'n bodoli eisoes er mwyn darparu treflun o ansawdd da?
- A yw'r parth cyhoeddus yn rhan ganolog o'r cymeriad ac wedi'i integreiddio'n llawn i'r cynllun cyffredinol?
- A yw'r cynllun yn teimlo fel lle o safon i fyw gydag ymdeimlad penodol o le a hunaniaeth?

Adran G: Diogelwch Cymunedol

Amcan:

Creu mannau diogel gyda gwyladwriaeth naturiol effeithiol.

G.1 Mae creu amgylcheddau byw sy'n cwmpasu lefelau da o ddiogelwch canfyddedig a gwirioneddol yn hanfodol i greu lleoedd cynaliadwy. Ategir hyn fel arfer gan rwydwaith cysylltiedig o adeiladau sy'n wynebu strydoedd a all gynhyrchu lefelau da o wyladwriaeth naturiol ('llygaid ar y stryd'). Mae darparu ffyrntiadau anheddau mewn dull bloc perimedr yn golygu yr edrychir dros y parth cyhoeddus yn ogystal ag amgáu gerddi cefn diogel.



Ffig G.1 Mae tu blaenau gweithredol â ffenestri ystafelloedd a drysau blaen cyfanhoddol yn hanfodol i edrych dros a chynnwys strydoedd a lleoedd.

- G.2 Ni ddylai datblygiad newydd gael effaith andwyol ar drosedd ac anhrefn mewn datblygiadau cyfagos sydd eisoes yn bodoli. Er mwyn isafu cyfleoedd i droseddu ddigwydd neu waethygu, dylid cymhwyso egwyddorion diogelwch cymunedol yn unol ag egwyddorion Diogel trwy Ddylunio heb wrthdaro ag egwyddorion creu lleoedd.
- G.3 Bydd y lefel briodol o athreiddedd mewn datblygiad newydd yn cael ei gyfeirio gan amrywiaeth o ffactorau megis:
- perthynas â chyfleusterau sy'n cynhyrchu neu'n denu symudiad cerddwyr (er enghraifft ysgolion a siopau);
 - nodweddion y safle (megis topograffeg a thirlunio);
 - y cysyniad dylunio cyffredinol; a'r
 - cyd-destun troseddu lleol.
- G.4 Dylid cyfiawnhau'r defnydd o cul-de-sacs yn llawn ac os cânt eu hymgorffori, mae'n rhaid iddynt fod yn fyr gyda lefelau da o wyladwriaeth naturiol. Yn anaml y caiff cymunedau dan glo eu hystyried yn dderbyniol a dim ond pan ellir cyfiawnhau'r rhain yn llawn am resymau diogelwch a diogeledd y cânt eu hystyried.
- G.5 Mae ardaloedd o flaen eiddo'n lled-breifat am eu bod yn weledol hygyrch i'r cyhoedd. Dylai'r rhain ffurfio 'bwtres' a throsglwyddiad rhwng strydoedd cyhoeddus a mannau agored ac anheddau preifat. Mae'n bwysig gwahaniaethu'n

glir rhwng ardaloedd preifat a mannau cyhoeddus. Yn gyffredinol, dylai blociau o ddatblygiadau preswyl amgáu gerddi preifat cefn wrth gefn. Dylai ardaloedd cymunedol o gwmpas datblygiadau preswyl gyfyngu mynediad i drigolion dim ond drwy ddefnyddio drysau neu gatiau y gellir eu cloi gyda chyfleusterau intercom. Dylai pob ardal breifat fod wedi'i hamgáu'n llawn a dylai mynediad fod drwy gatiau y gellir eu cloi.

G.6 Dylid osgoi gweddlluniau di-ffenestr neu estyniadau hir o waliau gwag cyfagos â strydoedd, gofod sy'n hygyrch i'r cyhoedd neu gyrtiau parcio gan fod y rhain yn isafu edrych drosodd ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer troseddu (gweler paragraffau 12.14 i 12.16 am ragor o fanylion).

G.7 Pan leolir llety preswyl uwchben defnyddiau cyflenwol eraill (e.e. siopau) fel rhan o ddatblygiad defnydd cymysg, mae'n rhaid i fynedfeydd i'r preswylfeydd hyn fod yn groyw, yn groesawgar ac yn ddiogel. Fel arfer, bydd yn ofynnol i'r rhain gael eu lleoli fel rhan o'r driniaeth gweddllun blaen (ffryntiad actif) ar y stryd.



Ffig G.2 Rhaid i fynedfeydd preswyl fod yn ddiogel, yn ddealladwy ac yn groesawgar (ffynhonnell Google streetview)

G.8 Ni ddylai ffensys, coed a nodweddion eraill guddio mynedfeydd, darparu cuddfannau na mynediad dringo hawdd i ffenestri llawr uchaf neu dros ffiniau.

G.9 Gall tirlunio gynyddu cyfleoedd ar gyfer troseddu drwy, er enghraifft, ddarparu ardaloedd ar gyfer cuddio neu ddringo mynediad i ardaloedd preifat. I'r gwrthwyneb, gall defnyddio rhywogaethau addas weithredu fel rhwystrau ac atal y fath weithgareddau diangen. Gan hynny, dylai'r strategaeth dirlunio ar gyfer safle geisio gwella diogelwch a chadernid datblygiadau mewn modd addas.

G.10 Pan gynigir dodrefn stryd, strwythurau neu adeiladau cyhoeddus/ cymunedol yn y parth cyhoeddus, dylai'r elfennau hyn fod yn ddigon cadarn ac wedi'u lleoli mewn ardaloedd yr edrychir drostynt ac a oleuir yn dda. Dylid ystyried cynlluniau goleuo sy'n mwyafu teimladau o ddiogelwch ym mhob rhan gyhoeddus o ddatblygiad.

G.11 Ceir rhagor o wybodaeth yn y CCA Diogelwch Cymunedol.

Egwyddorion

- Dylunio adeiladau i ffryntio ar strydoedd i wneud i'r lle deimlo'n fwy diogel. Dylai fod 'llygaid ar y stryd' gan gynnwys ar gorneli a thalcenni toeon.
- Darparu màs critigol o ffryntiadau sy'n wynebu mannau cyhoeddus er mwyn sicrhau'r wyliadwriaeth naturiol fwyaf sy'n bosib.
- Gwneud mynedfa o'r stryd y prif fodd o gyrchu anheddau, gan gynnwys fflatiau. Dylai mynedfeydd fod yn weladwy, yn hygyrch ac yn rheolaidd ar hyd y stryd i ddarparu bywiogrwydd, diddordeb a gweithgarwch.
- Dylid osgoi mynediad diangen o'r cefn a phan ddarperir y rhain, sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gadarn.
- Darparu cymysgedd o ddefnyddiau, meintiau a mathau o anheddau i annog gweithgarwch drwy gydol y dydd a'r nos gan ymestyn y cyfnod gwyliadwriaeth naturiol.
- Dylid osgoi mannau dan gêl ar draws y datblygiad drwy ystyried tirlunio a goleuadau cyhoeddus yn ogystal ag osgoi ardaloedd tywyll gyda gweithgarwch a gwyliadwriaeth gyfyngedig. Mae angen bod yn arbennig o ofalus wrth fynedfeydd adeiladau ac ar hyd llwybrau i gerddwyr.
- Dylid osgoi estyniadau o garejys, waliau gwag a storfeydd biniau sy'n pylu'r stryd.
- Sicrhau bod plannu yn gydnaws â diogelwch cymunedol a'i fod yn ceisio gwella hyn mewn modd addas. Mae'n rhaid i dirlunio beidio â lleihau cyfleoedd ar gyfer lefel dda o wyliadwriaeth ym mhob ardal gyhoeddus.

Cwestiynau Allweddol

- A yw mannau cyhoeddus a llwybrau teithio llesol wedi'u hintegreiddio'n dda i'r cynllun, yn dilyn y rhwydwaith strydoedd ac yn elwa o wyliadwriaeth naturiol ddigonol, er mwyn annog defnydd a theimlo'n ddiogel?
- A yw adeiladau'n cynnwys mannau all gael eu diogelu sy'n ddigon cadarn ac yn weledol glir o'u cwmpas ac a ydynt yn troi'r gornel lle bo angen?
- A ddarperir diogeliad cefn wrth gefn drwy ddefnyddio dull bloc perimedr rhesymegol neu dechnegau tebyg?

Adran Ng: Preifatrwydd, Amwynder a Chysur

Amcan:

Darparu cartref ynni isel gyda gofod preifat a lled-breifat a ddylunnir yn dda ar gyfer pob deiliad.

- Ng.1 Er mai'r man cychwyn ar gyfer dylunio a chynllunio datblygiadau preswyl ddylai fod yr egwyddorion creu lleoedd a amlinellwyd yn gynharach yn y canllaw hwn, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth briodol hefyd i fodloni safonau ynni isel, preifatrwydd ac amwynder. Os nad oes gan gartrefi ardd/lle amwynder o ansawdd da a phreifatrwydd digonol yna bydd ansawdd bywyd a llesiant trigolion yn llai.
- Ng.2 Cartrefi ynni isel, 'ffabrig yn gyntaf' yw'r dull a ddisgwylir yn unol â'r Rheoliadau Adeiladu. Mae cyfeiriad yr haul yn bwysig hefyd o ran gwresogi goddefol ac osgoi gor-wresogi, fel y mae awyru naturiol ar gyfer ansawdd aer, cysur a thymheredd. Er mwyn mynd i'r afael ag ystyriaethau solar yn hytrach na dylunio cynllun y lle yn slafaidd i reoli cysur y cartref, gellir mynd i'r afael â hyn gan ddefnyddio cynlluniau tai all gael eu hamrywio wrth ymateb i fynediad i'r haul (fel cyfnewid gofod y gegin â'r ystafell fyw).
- Ng.3 Gall fflatiau un wyneb wedd fod yn broblem o ran cyfeiriad yr haul (yn aml yn wynebu'r gogledd neu'r de yn unig) a chyfleoedd croes-awyru naturiol. Felly, dylid osgoi fflatiau un agwedd oni bai bod cyfiawnhad cryf tu hwnt sy'n gysylltiedig â chreu lleoedd. Pan gynigir fflatiau un agwedd, dylai fod gan y rhain ffenestri uchder llawn mawr i fwyafu golau naturiol a bydd angen asesiad golau dydd i ddangos na fydd y rhain yn or-dywyll.

- Ng.4 Mae'n bwysig gwahanu manau cyhoeddus oddi wrth ofod preifat mewn cymdogaethau preswyl. Mae gerddi blaen yn ffurfio bwtres breifatrwydd rhwng y stryd a ffenestri'r llawr gwaelod. At hynny, maent yn darparu lle plannu i 'feddal' y parth cyhoeddus ar yr un pryd â chaniatáu i drigolion fynegi eu naws unigol. Dylai triniaethau ffiniau blaen i ddiffinio'r ardaloedd hyn weddi i unrhyw ofynion llain weledd sy'n berthnasol i agwedd gyflymder dylunio'r stryd.



Ffig K.1 Mae gerddi blaen a ffiniau blaen yn rhyngwynebau pwysig rhwng y cartref a'r ardaloedd cyhoeddus.


Ng.5 Gan ddibynnu ar drefniadau mynediad cefn, efallai y bydd yn rhaid i'r mannau ffryntiad hyn hefyd ddarparu ar gyfer storio beiciau a sbwriel/ailgylchu. Bydd maint gerddi blaen yn amrywio'n unol â chymeriad presennol/dymunol ardal neu stryd unigol. Mae triniaethau ffiniau blaen fel waliau isel neu reiliau yn elfen bwysig o integreiddio cynlluniau i'r strydlun presennol, a gall perthi ddarparu cyfleoedd SG pellach ar y lefel leol ac ychwanegu at gymeriad y lle.



Ffig K.2 Efallai y bydd angen tu blaenau ar gynlluniau dwysedd uwch i ddarparu ar gyfer sawl swyddogaeth gan gynnwys storio biniau a beiciau.

Ng.6 Mannau preifat yw gerddi cefn ond pan fyddant yn ffinio â thir sy'n hygyrch i'r cyhoedd, gall hyn amharu ar ddiogelwch a phreifatrwydd. Mae'r angen am amgáu gerddi cefn preifat gyda waliau ffiniol a nodweddion diogelwch yn amharu ar ymddangosiad, bywiogrwydd a diogelwch mannau cyhoeddus. Gan hynny, y ffordd orau o ddiffinio, gwahanu a

diogelu mannau preifat yw defnyddio'r adeiladau eu hunain. Felly, ystyrir mai **dull blociau perimedr** yw'r ymagwedd fwyaf addas at gyflawni'r nod hwn gyda ffryntiadau adeiladu yn wynebu ei gilydd ar draws y parth cyhoeddus a gerddi preifat diogel yn y cefn. Bydd dulliau amgen yn cael eu hystyried pan ellir dangos bod y rhain yn darparu ar gyfer lefel briodol o ddiogelwch mewn mannau preifat. Dylai gerddi preifat gymryd cyfeiriad a lleoliad unrhyw goed sy'n bodoli eisoes a allai achosi problemau o ganlyniad i fargodi / cysgodi i ystyriaeth. Dylai gerddi sy'n wynebu'r gogledd fod yn hirach i ddarparu ardal ddigonol o ardd sydd heb ei chysgodi.



Ffig K.3 Dylai cynllun y safle ddiffinio mannau cyhoeddus a sicrhau mannau preifat yn glir. Mae'r ymagwedd bloc perimedr yn gwahaniaethu'n glir rhwng mannau cyhoeddus a mannau preifat

Ng.7 Mewn lleoliadau trefol dwysedd uwch sydd â mynediad da i fannau agored, mae'n bosib y bydd cwmpas i ystyried tai gyda llai o ddarpariaeth ardd ac yn lle hynny, gwneud defnydd o ardaloedd cymunedol o ansawdd uchel. Mae'r dull hwn wedi cael ei gymhwyso yn ardaloedd adfywio Pwynt Abertawe a SA1 a gellid ei gymhwyso hefyd i fwy o rannau trefol o ddatblygiadau strategol. Dylai gerddi cymunedol fod wedi'u diffinio'n glir, yn breifat, yn ddiogel, ac yn hygyrch i'r holl drigolion.



Ffig K.4 Gall gerddi cymunedol fod yn rhan o gynlluniau dwysedd uwch (ffynhonnell www.futureoflondon.org)

Gwastraff ac Ailgylchu

Ng.8 Mae'r Cyngor yn gweithredu casgliad sbwriel ac ailgylchu bob yn ail bythefnos, gan arwain at yr angen am ardaloedd storio gwastraff allanol. Dylid ymdrin â storfeydd sbwriel digonol yn y cam cynllunio yn unol â Pholisi CDLI RP 10, gan sicrhau cyfleusterau gwastraff, ailgylchu, compostio, gwahanu a storio digonol ar y safle. Dylid cyfeirio at ofynion presennol Cyngor Abertawe. Dylai pob man storio sbwriel fod yn rhan annatod o'r dyluniad, a phan fo'n weladwy o'r parth cyhoeddus, dylai gael ei integreiddio'n dda i'r strydlyn.

Ng.9 Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos tai teras lle nad yw mynediad i'r cefn yn bosib, neu fflatiau sy'n defnyddio storfeydd biniau cymunedol. Yn achos tai teras disgwylir y gellir ymgorffori storfa sbwriel/ailgylchu ddigonol yn nodweddion ffyrntiad fel canopïau mynediad neu waliau/ardaloedd gerddi blaen. Pan gynigir cyfleusterau cymunedol ar gyfer fflatiau, dylai fod digon o le i ailgylchu a gwahanu gwastraff ac ar gyfer gwastraff gweddilliol, ac mae'n rhaid eu bod yn ddiogel ac yn gyfleus i'w defnyddio. Dylai'r holl storfeydd sbwriel fod o fewn ôl troed y llain neu'r datblygiad ac ni ddylent ollwng allan ar y briffordd fabwysiedig.

Gofod y Tu Mewn i'r Cartref

- K.10 Mae ansawdd a chyfluniad amgylcheddau byw mewnol arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol ar sut mae cartrefi'n cefnogi gwahanol ffordd o fyw ac anghenion amrywiol meddianwyr, a gallant hefyd gael effaith sylweddol ar les pobl. Mae'r rhain yn elfennau pwysig o greu lleuedd i'w hystyried ochr yn ochr â materion fel y gofod amwynder allanol a gynigir, a darparu manau agored cyhoeddus yn ehangach mewn ardal. Mae'n rhaid i gartrefi fod â chynllun cyfleus a chyfforddus ar gyfer bywyd bob dydd, gyda digon o storfeydd a lle i symud o gwmpas heb deimlo'n glos a/neu'n gyfyngedig wrth ymgymryd â thasgau a dyletswyddau bob dydd, gan gynnwys gweithio o gartref.
- K.11 Mae safonau gofod mewnol wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y gellir eu cymhwyso i wahanol ddaliadaethau a mathau o ddatblygiadau tai (gweler Atodiad A). Bydd cynigion ar gyfer cartrefi newydd a thrawsnewid adeiladau sydd eisoes yn bodoli i gartrefi yn cael eu hasesu gan roi sylw i'r safonau sy'n bodoli, er mwyn helpu i ystyried a yw amgylcheddau byw a gynigir ar gyfer y farchnad agored a chartrefi fforddiadwy yn dderbyniol.
- K.12 Pan fydd cynigion am gartrefi newydd yn is na'r safonau gofod cyhoeddedig, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos yn glir pam yr ystyrir bod y math penodol o dŷ a gynigir yn briodol yng nghyd-destun y cynnig y cynllun ehangach, ac y bydd yn darparu amgylcheddau byw addas gan roi ystyriaeth i ofynion bywyd bob dydd pobl ac anghenion ehangach meddianwyr yn y dyfodol. Dylid darparu cynlluniau llawr i ddangos, er enghraifft, gynlluniau dodrefn posib ac ardaloedd cylchrediad. Gellir darparu'r dadansoddiad a'r cyfiawnhad hwn trwy gyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad.
- K.13 Bydd gan y Cyngor ymagwedd hyblyg a phragmatig at ystyried addasrwydd mathau penodol o dai sydd o dan y safonau cyhoeddedig, pan fydd y rhain yn rhan o gynllun ehangach sydd fel arall yn bodloni'r gofynion safonol. Ni fydd y fath ymagwedd yn caniatáu i drefniadau byw annerbyniol o fach neu'r rhai na ellir eu defnyddio gael eu cefnogi.
- K.14 Pan gaiff safonau o ran gofod eu cyhoeddi a/neu eu diweddarau gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol a'u nodi'n gymwys ar gyfer pob cartref, caiff y fath safonau eu defnyddio fel sail briodol ar gyfer asesu derbynioldeb yr amgylcheddau byw mewnol arfaethedig ar bob datblygiad.

Gerddi a mannau amwynder preifaf

- Ng.15 Mae llawer o ddatblygiadau preswyl newydd yn aml yn cynnwys darpariaeth amwynder awyr agored a ddylunnir yn wael neu'n annigonol, ac nid yw llawer o gerddi'n darparu ar gyfer estyniadau/ newidiadau domestig yn y dyfodol. Gan hynny, dylai maint yr ardd fod yn briodol i faint yr annedd ac ystyriaethau sy'n benodol i'r safle megis topograffeg neu gysgodi.
- Ng.16 O ystyried yr angen am lefelau preifatrwydd a digon o le rhwng cartrefi, mae meintiau gerddi'n aml wedi'u pennu gan bellteroedd gwahanu (gweler isod). Disgwylir y bydd meintiau gerddi o leiaf yr un maint ag ôl troed y tŷ y maent yn ei wasanaethu, cyhyd â bod y rhain hefyd yn bodloni'r safonau gwahanu isod. Dylai gerddi fod yn siâp y gellir eu defnyddio (h.y. nid trionglau lletchwith etc. neu eu trefnu fel rhannau bratiog).
- Ng.17 Er mwyn diogelu lleoedd newydd at y dyfodol a chaniatáu cartrefi gydol oes, disgwylir y yn natblygiadau o 100 o gartrefi neu fwy y bydd gan gyfran o'r cartrefi gerddi o faint digonol i alluogi estyniadau cefn ac/neu ystafelloedd gardd amlswyddogaethol ategol tra'n gadael lle i amwynder yn yr ardd o hyd a fyddai'n gweddu i'r safonau a amlinellir yn y CCA.
- Ng.18 Mae'n bosib y bydd rhai achosion pan ystyrir bod llacio meintiau gerddi'n dderbyniol, megis pan fo'r dyluniad yn cynnig cynllun blaengar o ansawdd uchel neu mewn rhai lleoliadau trefol lle y gallai fod yn fwy priodol i gyfnwid gerddi unigol am falconïau hael/terasau uchel preifaf a

gofod cymunedol o ansawdd uchel etc. Fodd bynnag, bydd angen cyfiawnhau'r newidiadau hyn yn llawn a byddant yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau unigol.

- Ng.19 Yn ogystal â darparu digon o le, mae'n bwysig sicrhau bod modd defnyddio darpariaeth amwynder awyr agored ac y gall gynnwys patio 3x3 metr ar gyfer eistedd a bwyta awyr agored, yn ogystal â sied fach a sychwr troi, ynghyd â digon o le ar gyfer estyniadau cefn neu ystafelloedd gwydr posib yn y dyfodol. Mae gerddi hefyd yn rhan bwysig o'r strategaeth SG ar y lefel leol a dylent ganiatáu plannu coed newydd sydd wedi'u lleoli'n ofalus a all dyfu i aeddfedrwydd. At hynny, dylid ystyried effaith cysgodi unrhyw goed aeddfed presennol sydd wedi'u lleoli ar ffiniau gerddi hefyd ac efallai y bydd angen darparu gardd hirach.



Fig K.6 Dylid darparu balconïau (chwith) ar gyfer fflatiau ym mhob lleoliad, os gellir dangos tystiolaeth na ellir darparu'r rhain yna rhaid darparu balconïau Juliette (dde). (ffynhonnell Google)

Ng.20 Disgwylir i falconïau gael eu darparu ar gyfer fflatiau newydd ac wedi'u trawsnewid uwchben lefel y llawr gwaelod. Mae'r rhain yn darparu gofod amwynder pwysig a gallant hefyd chwarae rhan bwysig wrth ychwanegu diddordeb gweledol a gweithgarwch at ffryntiadau stryd. Mae'n rhaid i falconïau fod o faint digonol i ganiatáu i'r lle fod â diben ymarferol. Fel isafswm, dylai balconïau preifat fod yn 3m² ar gyfer anheddau 1 person neu 2 berson ynghyd â 1m² fesul person ychwanegol a dylid eu trefnu i fod yn lle y gellir ei ddefnyddio ar gyfer eistedd o amgylch bwrdd sydd â lled o 1.0 - 1.5m. Dylai fod gan fflatiau llawr gwaelod fynediad uniongyrchol i ardd breifat/ardal teras o faint y gellir ei gymharu o leiaf â balconïau'r llawr uchaf. Pan ddarperir digon o dystiolaeth i gyfiawnhau pam na ellir darparu balconïau ar gynllun penodol, er enghraifft pryderon amwynder, yna dylid ymgorffori balconïau Juliet.

Ng.21 Disgwylir i'r holl fflatiau ddarparu ffenestri gwydr uchder llawn er mwyn mwyafu golau naturiol a golygfeydd allan. Pan ellir cyfiawnhau fflatiau un agwedd sy'n wynebu'r gogledd fel dull creu lleoedd dylid gwneud asesiad golau dydd i ddangos nad yw'r rhain yn or-dywyll.

Ng.22 Pan fydd adeiladau'n defnyddio toeon i ddarparu mannau awyr agored preifat a mannau amwynder awyr agored eraill, dylai'r cynnig ystyried materion dylunio, edrych drosodd (e.e. sgriniau preifatrwydd) ac atal troseddu, yn ogystal â chydbwysio anghenion amcanion eraill megis ynni adnewyddadwy (e.e. paneli solar) neu fioamrywiaeth (e.e. toeon gwyrdd) mewn cam cynnar yn y broses ddylunio.



Ffig K.7 Rhaid i ffordd o fyw yn y ddinas gynnwys lleoedd amwynder ac isadeiledd gwyrdd. (ffynhonnell Powell Dobson Architects, cwmni datblygu Hacer a Chymdeithas Tai Pobl)

Diogelu Amwynder Preswyl

- Ng.23 Mae'n rhaid i ddyluniad a chynllun adeiladau ystyried amwynder preswyl o ran edrych drosodd, cysgodi a mathau gormesol o ddatblygiadau. Mae'r ffactorau hyn yn effeithio'n gryf ar ansawdd bywyd trigolion sy'n gysail canolog i ddatblygu cynaliadwy.
- Ng.24 Ni fydd glynu wrth bellteroedd gwahanu ar ei ben ei hun yn arwain at greu lleoedd da. Dylid cydbwyso'r rhain yn erbyn gwneud y defnydd gorau o dir a sicrhau datrysiadau dylunio da. Bydd y safon sefydledig ar gyfer pellteroedd preifatrwydd cefn wrth gefn (21m) yn cael ei hystyried fel yr isafswm ar gyfer asesu cysylltiadau a bydd yn ystyried ffactorau megis cymeriad y safle, dwysedd a chymeriad lleol. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i bellteroedd gwahanu mewn lleoliadau ar draws safle er mwyn caniatáu estyniadau domestig yn y dyfodol.
- Ng.25 Ceir gwybodaeth fanylach am asesu perthynas amwynder briodol rhwng anheddau yn Nghanllaw Datblygu Mewnlenwi a Thir Cefn CCA. Fe'ch anogir, felly, i groesgyfeirio at y ddogfen hon yn hyn o beth.
- Ng.26 Mewn rhai achosion megis datblygiadau dwysedd uwch, cynlluniau arloesol ac asedau treftadaeth dynodedig gan gynnwys ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig, mae'n bosib y bydd modd sicrhau preifatrwydd priodol drwy ddylunio a sgrinio yn hytrach na gwahanu ffisegol. Fodd bynnag, mae'n rhaid dangos hyn, ac mae'n cael ei ystyried fesul achos.

Cysylltiadau 'Cefn wrth Gefn'

- Ng.27 Er mwyn diogelu preifatrwydd ar gyfer datblygiadau preswyl ac eiddo preswyl sy'n bodoli eisoes, dylai fod isafswm pellter gwahanu o 21m 'cefn wrth gefn' rhwng ffenestri ystafelloedd trigiadwy y llawr cyntaf ar gyfer anheddau 2 llawr mewn cynllun maestrefol a gwledig nodweddiadol. Dylid cynyddu'r pellter hwn pan fo un, neu'r ddau annedd, yn dri llawr. At ddibenion y pellteroedd gwahanu a nodir yn y ddogfen hon, diffinnir annedd 3 llawr fel annedd 3 llawr llawn o uchder ac nid yw'n cynnwys anheddau 2 llawr gydag ystafelloedd yn y to a dormerau. Gall y pellteroedd hyn gael eu llacio mewn lleoliadau trefol dwysach lle gellir cyflawni datrysiad a arweinir gan ddylunio er mwyn osgoi effeithiau niweidiol ar amwynder.



Ffig K.8 Mesurir y pellter gwahanu 21m rhwng gweddlluniau cefn

- Ng.28 Bydd y berthynas rhwng anheddau ar draws y parth cyhoeddus megis strydoedd yn cael ei phennu fesul achos o ran cymeriad yr ardal leol. Fodd bynnag, yr isafswm lled adeilad i adeiladu absoliwt mewn lôn nodweddiadol o fath pengaead yw 10m.

Cysylltiadau 'Cefn i Ardd'

Ng.29 Dylid gosod gweddluniau gyda ffenestri ystafelloedd trigiadwy ar lefel y llawr cyntaf ac uwch o leiaf 10.5m o'r ffin gyffredin, neu 13.75m yn achos anheddau tri llawr. Mae hyn er mwyn osgoi edrych dros yr ardd/amwynder cyfagos a sicrhau bod digon o le yn cael ei ddarparu ar gyfer lefel y llety a ddarperir.

Cysylltiadau 'Cefn i Ochr'

Ng.30 Er mwyn osgoi effaith ormesol ar ystafelloedd a gerddi trigiadwy, dylid sicrhau isafswm pellter o 15m a fesurir o'r prif weddlun mewn cysylltiadau ochr i gefn a dylai unrhyw ffenestri yng ngweddlun y llawr uchaf ar yr ochr gael eu gwddro'n aneglur. Mae ystafelloedd gwydr ac/neu estyniadau wedi'u heithrio o'r mesur hwn.



Ffig K.9 Gwahanu o'r cefn i'r ochr

Ng.31 Pan ddefnyddir datrysiad a arweinir gan ddylunio i osgoi materion edrych drosodd, mae ystyriaethau adeiladau gormesol a chysgodi'n berthnasol o hyd. Gan hynny, dylid rhoi sylw i'r safonau BRE sy'n ymwneud â hawliau i olau. Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at ddogfen y Sefydliad Ymchwil Adeiladu — 'Site and Layout Planning for Daylighting and Sunlight'.

Cysylltiadau ar Lefelau Gwahanol

Ng.32 Pan fydd cartrefi ar wahanol lefelau slabiau neu berthnasoedd uchder llawr gwahanol (e.e. un llawr i 2 llawr) gall hyn arwain at edrych drosodd ychwanegol ac effaith fwy gormesol ar y gofod cartref/gardd isaf. At hynny, gall yr angen posib am gloddweithiau neu adeileddau cynhaliol gyfyngu ar ardaloedd gardd all gael eu defnyddio yn y cartref isaf. Yn yr un modd, pan gynigir cartrefi dros ddau lawr o uchder, bydd angen gwahanu ychwanegol.



Ffig K.10 Dylid cynyddu'r gwahanu ar gyfer cartrefi ar wahanol lefelau

Ng.33 Fel man cychwyn felly, dylid cynyddu'r pellteroedd gwahanu sylfaenol a nodir yn yr adrannau blaenorol 2m am bob gwahaniaeth 1m mewn lefel. Pan gynyddir pellteroedd, dylai hyn gynnwys gardd hirach i'r cartref isaf er mwyn darparu ar gyfer unrhyw adeileddau cynhaliol. Os na ellir cyflawni'r pellteroedd cynyddol, yna efallai y bydd angen plannu neu ddatrysiad dylunio arall. Y ffordd orau o asesu'r berthynas yw ar ffurf adran wedi'i darlunio.



Ffig K.11 Mae cartrefi a gerddi sydd â digon o le, hyblygrwydd, preifatrwydd ac amwynder yn elfennau allweddol o gymunedau cydlynol. (ffynhonnell Google)

Egwyddorion

- Gwahaniaethu rhwng mannau preifat a mannau cyhoeddus drwy amgaeadau priodol i gerddi blaen sy'n parchu cymeriad yr ardal.
- Pan leolir adeiladau'n agos i fannau cyhoeddus neu gymunedol, dylid darparu llain fwtres gadarn (y cyfeirir ati'n aml fel gofod diogel) i wahanu ystafelloedd trigiadwy a'r parth cyhoeddus ac i alluogi i ddeiliaid bersonoli blaenau a/neu ochrau eu heiddo.
- Dylunio maint a ffurf gerddi blaen a ffiniau blaen wrth ymateb i gymeriad yr ardal. Darparu plannu priodol (gan gynnwys coed) i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r parth cyhoeddus a SG.
- Darparu digon o leoedd amwynder allanol ym mhob datblygiad newydd. Dylai'r cysyniad dylunio ar gyfer cynllun bennu ansawdd, ffurf a lefel y ddarpariaeth gofod preifat.
- Bydd gerddi o leiaf yr un maint ag ôl troed y tŷ y maent yn ei wasanaethu (ar yr amod bod y rhain yn bodloni'r pellteroedd gwahanu gofynnol), a dylent fod o siâp y gellir ei ddefnyddio. Pan fydd gan safleoedd fynediad i fannau cymunedol hygyrch a diogel, yna gellir lleihau graddau'r ddarpariaeth gardd.
- Mae angen i le cymunedol ar gyfer fflatiau fod yn ddiogel ac yn hygyrch i drigolion yn unig ar gyfer ymlacio a sychu dillad.

- Mae'n rhaid darparu gofod preifat i fflatiau ar gyfer cartrefi unigol ar bob lefel, drwy falconïau neu derasau unigol. Nodir yr isafswm meintiau ar gyfer yr ardaloedd hyn ym Modiwl G. Mewn amgylchiadau eithriadol, pan ddarperir digon o gyfiawnhad, bydd yn ofynnol i fflatiau gael balconïau Juliette a mynediad i ofod cymunedol allanol a ddylunnir yn dda.
- Dylai'r ddarpariaeth ar gyfer storio sbwriel ac ailgylchu, darllen mesuryddion neu gypyrddau mecanyddol a thrydanol eraill fod wedi'u hintegreiddio'n gadarnhaol ac yn ddi-dor yn weledol. Dylid lleoli cypyrddau o'r fath mor agos â phosib i'r ddaear er mwyn lleihau effaith weledol y rhain.
- Dylid osgoi cefnau adeiladau a gerddi cefn sy'n wynebu strydoedd a mannau cyhoeddus. Dylai 'cefnau' fod yn breifat a wynebu ei gilydd i ffurfio gerddi preifat diogel.
- Os yw ffiniau cefn neu ochr yn ffinio â'r parth cyhoeddus, mae'n rhaid iddynt fod o ansawdd uchel ac yn gadarn er mwyn ffurfio nodwedd.
- Gwneud yn siŵr bod gerddi preifat yn cael heulwen lle bynnag y bo modd. Yn gyffredinol, mae angen i gerddi sy'n wynebu'r gogledd fod yn hirach er mwyn lliniaru cysgodi o dai.
- Dylid darparu ar gyfer cadw coed sy'n bodoli eisoes a darparu digon o goed tyfu mwy eu maint newydd mewn gerddi, a fydd yn darparu strwythur a lleoliad i ddatblygiad newydd yn ogystal ag amrywiaeth o fanteision bioamrywiaeth.
- Ar gyfer mannau a gerddi cymunedol, dylid sicrhau bod cynllun rheoli priodol wedi'i sefydlu.

- Gwneud yn siŵr bod gan ardaloedd gardd ac amwynder lefel addas o breifatrwydd a chynllun agored.
- Dylid dylunio cartrefi i gael cynllun mewnol addas a chyfleus, gofod mewnol derbyniol ar gyfer bywyd bob dydd gyda digon o le i storio.
- Gwneud yn siŵr bod gan ystafelloedd ymdeimlad rhesymol o olygfa. Nid yw'n dderbyniol defnyddio gwydr aneglur mewn ystafell drigiadwy er mwyn osgoi anwybyddu problemau edrych drosodd..

Cwestiynau Allweddol

- A yw'r cynnig yn bodloni gofynion arwynebedd llawr y Safonau Gofod a Ddisgrifir yn Genedlaethol (NDSS) 2015 (neu ddiweddariadau dilynol)?
- A yw maint a thriniaeth y gofod amwynder cyhoeddus a phreifat yn briodol i'r math o ddatblygiad a'r lleoliad?
- A yw ardaloedd preifat yn ddiogel i ddarparu preifatrwydd ac atal mynediad nas awdurdodir?
- A yw ardaloedd gwasanaeth wedi'u lleoli'n sensitif, eu sgrinio'n dda ac yn dderbyniol yn weledol?
- A yw adeiladau'n wedi'u cyfeirio i ddarparu ffryntiadau cyhoeddus actif a sicrhau cefnau preifat?
- A yw'r cynllun yn darparu safon dderbyniol o amwynder preswyl ac yn osgoi problemau fel edrych drosodd, cysgodi ac effeithiau gormesol?

Adran H: Darparu Mannau Parcio

Amcan:

Darparu digon o fannau parcio mewn lleoliadau disylw a diogel heb dominyddu'r stryd na'r lle.

- H.1 Gall ble a sut mae ceir wedi'u parcio gael effaith arwyddocaol ar ansawdd y lle yn yr amgylchedd preswyl. Mae'n hanfodol cydbwysu dymuniad trigolion i barcio'n gyfleus yn agos i'w cartrefi â'r angen am osgoi cerbydau wedi'u parcio sy'n dominyddu'r parth cyhoeddus ac yn achosi problemau diogelwch ar y briffordd.



Ffig H.1 Rhaid i leoedd newydd sicrhau bod cyfleusterau parcio wedi'u hintegreiddio'n dda ac nad yw ceir yn achosi problemau diogelwch.

- H.2 Mae cyngor cenedlaethol ar ddylunio strydoedd a pharcio preswyl wedi'i nodi yn y 'Canllaw Strydoedd' a 'Pharcio Ceir: Beth sy'n gweithio ble'. Mae'r ddogfen hon yn argymhell cymysgedd o ddatrysiadau parcio sydd wedi'u hintegreiddio'n dda ac sy'n cyfrannu at greu lleoedd. At hynny, dylid pennu lefel ofynnol y manau parcio ceir gan gyfeirio at y safonau parcio ceir a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Mae hyn yn nodi gostyngiad posib mewn safonau parcio yn seiliedig ar leoliad a hygyrchedd (gweler y ddolen we ar ddiwedd y ddogfen). Mae hefyd yn pennu isafswm dimensiynau gofod maes parcio o 4.8m â 2.6m.

- H.3 Dylai'r math o ddarpariaeth barcio ymateb i'r cyd-destun a'r lleoedd o fewn y datblygiad. Dylid egluro'r strategaeth barcio yn y DDM. Trafodir rhinweddau'r gwahanol fathau o barcio ar y tudalennau canlynol.



Ffig H.2 Rhaid i barcio fod yn elfen annatod o greu lleoedd. (ffynhonnell gwasanaethau prosiect Jehu, Cymdeithas Tai Coastal a Roberts Limbrick Architects.)

Parcio ar y Llain

H.4 Mae parcio ar leiniau'n gysylltiedig yn dda â'r anheddau a wasanaethir. Fodd bynnag, mae parcio blaengwrt yn ei gwneud yn ofynnol i adeiladau gael eu gosod yn ôl o'r stryd sy'n gwanhau'r ymdeimlad o amgáu, yn cyfyngu ar y cyfle i blannu ffryntiadau/seilwaith gwyrdd, yn effeithio ar ddarparu pantiau ar gyfer y strategaeth SUDs ac yn lleihau gwyliadwriaeth naturiol ar y parth cyhoeddus. At hynny, mae'r strydlun yn cael ei reoli gan geir wedi'u parcio ac arwynebau caled ac mae'n bosib y rhwystrir mynediad cerddwyr i ddrysau ffrynt. Felly, dylid datblygu cynlluniau mewn modd lle mae parcio lleiniau wedi'i leoli'n gyffredinol y tu ôl i'r llinell adeiladu. Ateb nodweddiadol yw'r 'rhodfa ochr' rhwng unedau tŷ pâr. Yn yr achos hwn, dylai'r manau parcio ar yr ochr sydd â waliau i'r naill ochr neu'r llall fod o leiaf 3.2m eu lled i ganiatáu i ddrysau ceir gael eu hagor (mae angen lled o 3.8m os yw'r lle parcio i'w ddefnyddio gan ddefnyddiwr cadair olwyn). Os oes angen, gellir cynnal parhad y ffryntiad drwy gysylltu drosodd ar lefel y llawr cyntaf, neu drwy ddefnyddio gatiâu rhwng anheddau ar y llinell adeiladu.



Ffig H.3 Mae tramwyfeydd ochr yn sicrhau nad yw ceir yn dominyddu'r strydlun ac yn sicrhau tu blaen gweithredol cryf rhwng y tŷ a'r ardaloedd cyhoeddus.



Ffig H.4 Rhaid i gyfleusterau parcio ar y tu blaen beidio â dominyddu'r tu blaen a rhaid eu cyfuno gydag isadeiledd gwyrdd

H.5 Pan gynigir parcio blaengwrt/ffryntiad, dylai hyn yn gyffredinol fod ar un ochr o'r stryd yn unig er mwyn cynnal ymdeimlad digonol o amgáu. Ni ddylai parcio ar ffryntiadau gymryd mwy na hanner lled y plot a dylid ei gyfuno â phlannu seilwaith gwyrdd a/neu ffiniau blaen i leddfu effaith weledol y ceir sydd wedi'u parcio. Mae'n rhaid i hyn gynnwys coed sy'n weladwy yn codi rhwng ceir wedi'u parcio a dylid defnyddio coed hefyd i ddiogelu ffryntiadau wedi'u plannu rhag parcio amhriodol.



H.6 Pan ddarperir parcio ar ffryntiadau a/neu garejys integredig, bydd Hawliau Datblygu a Ganiateir yn cael eu dileu er mwyn rheoli parcio ychwanegol ar ffryntiadau a fyddai'n niweidiol i'r strydlun ac yn diogelu'r gwyrddni.

H.7 Oherwydd effaith weledol sylweddol a natur ddominyddol parcio ar ffryntiadau yn ogystal â gwanhau'r ymdeimlad o amgáu strydoedd sy'n deillio o hynny, ni dderbynnir parcio ar ffryntiadau ar hyd strydoedd/ rhodfeydd meingefn a strydoedd cynradd, yn ogystal â ffryntiadau amlwg a lleoliadau canolbwynt. Pan gynigir parcio ar ffryntiadau mewn grwpiau, bydd angen rhannu rhesi o fwy na 4 o leoedd gyda phlannu coed neu ddatrysiadau priodol eraill.

Garejys Integredig

- H.8 Gall anheddau â garejys integredig amharu ar gymeriad ac ansawdd y strydlun. Gan hynny, pan gynigir garejys integredig, dylent fod yn rhan o:
- ddatblygiad yn null heol pengaead sy'n ategu'r prif rwydwaith strydoedd;
 - tŷ deulawr sy'n ddigon llydan i gynnwys drws ffrynt ac ystafell drigiadwy gyda ffenestr sy'n edrych allan ar y stryd ar lefel y llawr gwaelod; neu
 - tŷ tref tri llawr gyda'r prif ofod byw ar lefel y llawr cyntaf yn wynebu'r stryd.
- H.9 Ym mhob sefyllfa dylid lleoli garejys integredig ar y llinell adeiladu, neu y tu ôl iddi, oni bai bod cyfiawnhad cryf dros wro o'r dull hwn. Mae'r isafswm maint garej i'w gyfrif fel lle parcio yn 3m ei led â 6m ei hyd. Bydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu dileu gyda'r nod o reoli trawsnewid garejys integredig i ofod preswyl ychwanegol yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod digon o leoedd parcio wedi'u cadw trwy'r amser.



Ffig H.5 Rhaid i garejys sydd ynghlwm â'r eiddo beidio â dominyddu tu blaenau a dylid naill ai eu cyfuno â lle byw ar y llawr cyntaf uwchben neu ar y cyd â ffenestri ystafelloedd cyfanheddol ar lefel y ddaear

Parcio ar Gyrtiau

- H.10 Mae cyrtiau parcio cefn yn caniatáu i geir gael eu lleoli i ffwrdd o'r parth cyhoeddus, i anheddau gael eu lleoli'n agos i'r stryd ac i ffryntiadau parhaus cryf gael eu creu. Fodd bynnag, os ydynt yn anghyfleus a'i fod yn anodd edrych drostynt, mae'n bosib na fyddant yn cael eu defnyddio a gallant ddenu troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n hanfodol bod cyrtiau parcio wedi'u dylunio fel lleoedd; bod modd edrych drostynt yn hwylus, eu cadw i faint y gellir eu rheoli (uchafswm o 10 lle parcio) a'u bod yn darparu llwybr hygyrch diogel rhwng pob uned annedd a'i lle parcio. Dylai'r mannau hyn hefyd gyflawni swyddogaethau SUDs a gwelliant ecolegol, yn ogystal â phwyntiau gwefru cerbydau trydan (pan fo'n briodol) pryd bynnag y bo modd.



Ffig H.6 Rhaid dylunio beiliau parcio fel lleoedd ag isadeiledd gwyrd yn edrych drostyn nhw, a ffiniau o ansawdd/cadarn. (ffynhonnell Google)

H.11 Dylai'r mynedfeydd i gyrtiau parcio dderbyn triniaethau porth cryfion i droi ymyrwyr achlysurol i ffwrdd a lleihau cyflymder cerbydau. Yn anaml, mae'n bosib y bydd angen cyrtiau parcio â chlwydi i ffurfio ardal ddiogel, fodd bynnag bydd angen darparu cyfiawnhad cryf dros hyn. Dylai adeiladau cyfagos gael eu lleoli a'u dylunio i oruchwyllo'r pwynt mynediad yn uniongyrchol gyda ffenestri o faint digonol ac ystafelloedd trigiadwy sy'n edrych dros y fynedfa. Fel arall, os yw'r lle arfaethedig yn ddigon mawr yna gellir lleoli annedd 'porthgeidwad' o fewn y gofod i edrych drosto, chyhyd ag y gellir lleoli hwn heb greu perthynas amwynder annerbyniol â'r anheddau cyfagos. Dylai'r cyrtiau gael eu gwahanu oddi wrth gerddi gyda waliau sgrin neu wyrdd cadarn a deniadol a ddylai ddarparu preifatrwydd a diogelwch ar gyfer yr ardd breifat, heb rwystro goruchwyliaeth o ffenestri llawr uchaf.


'Sgwariau' Parcio

H.12 Mae cysylltiad da rhwng parcio oddi ar y stryd o fewn y parth cyhoeddus ac anheddau a wasanaethir ac mae'n rhaid yr edrych drosto'n dda, ond mae'n rhaid eu dylunio mewn modd ansawdd uchel fel man cyhoeddus. Mae'n hanfodol torri'r grwpiau o fannau parcio i fyny gyda phlannu nad yw'n rhwystro gwyliaeth naturiol. Bydd y defnydd o ddeunyddiau arwyneb addas hefyd yn cael ei groesawu a bydd angen rhoi ystyriaeth i SUDs. Bydd hyn yn caniatáu i bob dull gael ei deilwra i'w leoliad penodol. Gellir cyfuno manau cymunedol fel seddi, cyfarpar chwarae ac ati mewn rhai manau.

Adeileddau Parcio

H.13 Mae parcio is-grofft, islawr neu wedi'i ddecio'n ffordd effeithlon o gynnwys ceir wedi'u parcio mewn ardaloedd preswyl dwysedd uchel. Mewn cynlluniau defnydd cymysg, gellir rhannu parcio o'r fath rhwng defnyddwyr busnes a thrigolion.

H.14 Mae'n hanfodol bod adeileddau parcio'n ddiogel ac nad ydynt yn gwneud gweddlluniau stryd yn 'ddinod' ac yn ddi-fywyd. Yn anaml, gellir lleoli adeileddau parcio y tu ôl i swyddfeydd neu fflatiau un agwedd i ddarparu ffryntiad mwy priodol. Pan nad yw'n bosib lapio'r man parcio, dylid lleihau neu sgrinio piler y man parcio islawr gan ddefnyddio plannu. Mae'n hanfodol hefyd bod mynedfeydd, a gatiâu cerddwyr i'r fath fannau parcio'n cael eu cynllunio i fod yn groyw gyda mesurau rheoli mynediad digonol i gynnal diogelwch.



Ffig H.7 Ni ddylai strwythurau parcio wneud y strydlun yn farwaidd ac yn ddifyd. (ffynhonnell Google)

Parcio ar y Stryd

- H.15 Mae'r Llawlyfr Strydoedd yn nodi y dylid cynllunio parcio i mewn i strydoedd. Manteision yr hyn o beth yw creu gweithgarwch a sicrhau yr edrych drosto'n dda, yn ogystal â chyfrannu at dawelu traffig anffurfiol. Gall parcio ar y stryd ddiwallu anghenion parcio trigolion ac ymwelwyr.
- H.16 Dylid dylunio parcio ar y stryd i ychwanegu at gymeriad y strydlun a dylid ei integreiddio â phlannu coed SG. Mae'n rhaid darparu digon o led ar gyfer parcio ar y stryd megis cilfachau neu ffyrdd cerbydau ehangach neu barcio ongl sgwâr ac mae'n rhaid dylunio allan parcio ar balmentydd. Mae parcio ar balmentydd yn tarfu ar y strydlun ac mae'n beryglus i gerddwyr. Gall y posibilrwydd o barcio ar y stryd o bryd i'w gilydd hefyd ddarparu ar gyfer amrywiadau mewn perchnogaeth ar geir yn ystod bywydau newidiol aelodau aelwyd. Dylai cynlluniau parcio sy'n ceisio defnyddio'r dull hwn nodi'r manau hyn ar y cynllun safle yn glir os na ddarperir y rhain fel manau parcio penodedig. Pan ddyrannir manau parcio ar y stryd ar gyfer cartrefi penodol, ni ellir mabwysiadu'r rhain fel rhan o'r briffordd ac mae'n rhaid eu marcio'n glir a'u gwahaniaethu'n weledol. Dylid cyfuno dulliau sy'n ceisio darparu parcio ar y stryd â choed stryd er mwyn darparu diddordeb gweledol a thawelu traffig yn ogystal â gwella bioamrywiaeth a chysylltedd seilwaith gwyrdd. Yr uchafswm nifer o leoedd parcio ar y stryd yw 6 cyn nodwedd SG, yn ddelfrydol darperir coeden i dorri'r olygfa ceir wedi'u parcio i fyny a meddalau'r strydlun.



Ffig H.8 Gall parcio ar y stryd fod yn elfen allweddol o leoedd gweithredol a chymdeithasol, a hefyd gellir ei gyfuno ag isadeiledd gwyrdd. (ffynhonnell Google)

Parcio Beiciau

- H.17 Dylai parcio beiciau fod yn ddiogel ac yn gyfleus i annog y dull cynaliadwy hwn o deithio. Mae manau cyhoeddus ffurfiol yn lleoliadau delfrydol i ymwelwyr barcio eu beiciau gan eu bod yn hygyrch, wedi'u goleuo'n dda ac yr edrychir drostynt.
- H.18 Dylai garejys fod o faint digonol i ddarparu ar gyfer parcio beiciau ynghyd â char teuluol. Pan nad oes garejys, gellir darparu storfa feiciau mewn gerddi cefn pan fydd ffordd diogel a chadarn o gael mynediad atynt. Fel arall, gellir cynnwys darpariaeth feiciau wrth ddylunio gweddlluniau blaen ynghyd â storfeydd sbwriel ac ailgylchu – ar yr amod

nad yw hyn yn amharu ar atyniad yr adeilad na'r stryd. Mewn datblygiadau gwastad, dylid darparu storfa feiciau ddiogel wedi'i gorchuddio. Dylid darparu rheseli/storfeydd beiciau dan do diogel hefyd o fewn y parth cyhoeddus mewn lleoliadau priodol i annog teithio llesol i ymwelwyr.



Ffig H.9 Gall parcio beiciau integreiddio isadeiledd gwyrdd (ffynhonnell www.grassroofcompany.co.uk)

Cwestiynau Allweddol

- A yw parcio ceir wedi'i integreiddio'n dda fel ei fod yn gweddu i ac yn ffurfio elfen annatod o'r stryd?
- A edrychir yn dda dros y mannau parcio ac a ydynt yn gysylltiedig yn dda â'r anheddau a wasanaethir?
- A yw'r mannau parcio beiciau'n ddiogel ac yn gyfleus?
- A ddarperir mannau gwefru cerbydau trydan neu a ellir ôl-osod hyn yn y dyfodol?

Egwyddorion

- Darparu maes parcio sy'n gweddu i natur a lleoliad y datblygiad. Gallai fod yn briodol lleihau'r ddarpariaeth parcio ceir gan ystyried hygyrchedd i gyfleusterau, argaeledd cludiant gyhoeddus a'r effaith bosib ar yr ardal o gwmpas.
- Darparu mannau parcio beiciau cyfleus, wedi'u gorchuddio a diogel. Yn achos mannau storio preifat, dylai hyn yn gyffredinol fod yn gysylltiedig â chartrefi unigol, neu yn achos fflatiau dylai fod yn gysylltiedig â'r mynedfeydd. Mae lle i integreiddio cyfleoedd SG i'r adeileddau hyn.
- Sicrhau bod mannau parcio ceir yn hawdd eu defnyddio, yn ddiogel ac yn gadarn i bobl a cherbydau.
- Sicrhau nad yw ceir wedi'u parcio yn dominyddu unrhyw le yn weledol nac yn ffisegol, yn enwedig pan fo'r dwysedd datblygu yn uchel. Defnyddio amrywiaeth o ddatrysiadau parcio a newidiadau mewn lefelau, waliau isel a thirlunio meddal i dorri i fyny, cyfyngu ar a meddalau'r effaith weledol.
- Dylid osgoi grwpiau mawr o geir a all gael eu gweld o bell.
- Defnyddio arwynebau athraidd a phlannu fel rhan o ddatrysiad SUDs integredig i leihau dŵr wyneb ffo pan fydd cyflwr y ddaear yn addas.

Atodiad A: Safonau o ran Gofod

Number of bedrooms(b)	Number of bed spaces (persons)	1 storey dwellings	2 storey dwellings	3 storey dwellings	Built-in storage
1b	1p	39 (37) *			1.0
	2p	50	58		1.5
2b	3p	61	70		2.0
	4p	70	79		
3b	4p	74	84	90	2.5
	5p	86	93	99	
	6p	95	102	108	
4b	5p	90	97	103	3.0
	6p	99	106	112	
	7p	108	115	121	
	8p	117	124	130	
5b	6p	103	110	116	3.5
	7p	112	119	125	
	8p	121	128	134	
6b	7p	116	123	129	4.0
	8p	125	132	138	

Ffig A.A Safonau Gofod a Ddisgrifir yn Genedlaethol (NDSS 2015) ar gyfer ardaloedd llawr mewnol gros a storffeydd (m2)

Home Designation	Home Type	Gross Internal (floor) Area (GIA) m2	General Storage m2 (included in GIA)
7P4B	2 Storey House	114	3
6P4B	2 Storey House	110	3
5P3B	2 Storey House	93	2.5
4P3B	2 Storey House	88	2.5
4P2B	2 Storey House	83	2.5
3P2B	2 Storey House	74	2
3P2B	Bungalow	58	2
3P2B	Flat – Walk up	65	2
3P2B	Flat – Common access	58	2
2P1B	Flat – Walk up	53	1.5
2P1B	Flat – Common access	50	1.5

Ffig A.B Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 (WDQR 2021)